

**HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE**

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

9.30yb – 30 Mawrth 2021
Ar-lein ar Microsoft Teams


AGENDA

Yn bresennol:

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO:	
Rachel Barber – Cadeirydd John Cunliffe	Claire Hodson Dianne Walker
SWYDDOGION YR HEDDLU:	
Seb Phillips – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Guto Edwards – Pennaeth Cyllid Helen Williams – Cyfrifydd Rheolaeth Ariannol Anne Matthews – Swyddog Cyllid a Chyllidebau	Prif Uwcharolygydd Dros Dro Sian Beck – Gwasanaethau Corfforaethol James Sutton – Pennaeth Cudd-wybodaeth/Cadeirydd y Bwrdd Sicrwydd
SWYDDFA'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD:	
Stephen Hughes – Prif Swyddog Gweithredol Kate Jackson – Prif Swyddog Cyllid	Angharad Jones – Cynorthwydd Personol i'r Prif Weithredwr
POBL ERAILL YN BRESENNOL	
Helen Cargill, TIAA Mike Whitley, Archwilio Cymru	Michelle Phoenix, Archwilio Cymru

	Eitemau Sefydlog		Diben	Tudalen	Amser
141	Ymddiheuriadau	Cadeirydd			
142	Cofnodion o'r cyfarfod diwethaf Bydd y Cadeirydd yn cynnig fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2020 yn gywir.	Cadeirydd			5 mun
143	Cofnod Gweithrediadau	Cadeirydd			15 mun
	Eitemau Sefydlog				
144	Diweddariad Sefydliadol	Prif Swyddog Gweithredol a Chyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	Gwybodaeth		10 mun
145	Diweddariad AHM	Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau	Gwybodaeth		5 mun

		Corfforaethol			
146	Archwilio Mewnol a. Trosolwg Archwilio Mewnol – Adroddiad Rheolwyr (yn cynnwys crynodeb o Adolygiad Dilydol) b. Archwilio Mewnol SICA 2020-21	a – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau / Swyddog Cyllideb b – Rheolwr Archwilio TIAA	Sicrwydd		10 mun
147	Diweddariad Risgiau - Datblygiad Proses Risg a Chofrestr Risgiau Bresennol	Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol	Sicrwydd		10 mun
148	Rhaglen Waith ar gyfer 2020/21	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a Phrif Swyddog Cyllid	Penderfyniad		5 mun
	Eitemau Sefydlog				
149	Strategaeth Gyfalaf (yn cynnwys Strategaeth Rheoli'r Trysorlys)	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	Gwybodaeth		15 mun
150	Cod Rheolaeth Ariannol – Cydymffurfiaeth	Pennaeth Cyllid	Sicrwydd / Gwybodaeth		10 mun
151	Diweddariad Llywodraethu (yn cynnwys drafft o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol; Cynllun Blynyddol Archwilio Cymru, adroddiad o'r Bwrdd Cyd Lywodraethu)	Uwcharolygydd Dros Dro'r Gwasanaethau Corfforaethol	Gwybodaeth Trafodaeth		10 munud
152	Adolygiad Blynyddol / Adroddiad Blynyddol y CA (Drafft)	Cadeirydd	Trafodaeth		5 munud
153	Adolygiad Blynyddol o'r Strategaeth Risg a pharodrwydd i dderbyn risg	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau / Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes	Trafodaeth		15 munud
154	Datganiad Cyfrifon Blynyddol – rhagolwg - Cynllun Archwilio Cyfunol (Archwilio Cymru)	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau / Prif Swyddog Cyllid	Gwybodaeth		5 munud
155	Aelodaeth	Cadeirydd	Gwybodaeth		5 munud
156	Unrhyw Fater Arall (Hysbyswch y cadeirydd cyn y cyfarfod)				
	DYDDIADAU CYFARFODYDD YN Y DYFODOL AMODOL 29 Gorffennaf 2021 AMODOL 6 Hydref 2021 AMODOL 8 Rhagfyr 2021				
		CYFANSWM			2 awr



**HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE**

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

10 RHAGFYR 2020

PRESENNOL

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO:

Rachel Barber – Cadeirydd
John Cunliffe
Claire Hodson

SWYDDOGION YR HEDDLU:

Seb Phillips – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau
Guto Edwards – Pennaeth Cyllid
Helen Williams – Cyfrifydd Rheolaeth Ariannol
Anne Matthews – Swyddog Cyllid a Chyllidebau
Prif Uwcharolygydd Dros Dro Sian Beck – Gwasanaethau Corfforaethol
James Sutton – Pennaeth Cudd-wybodaeth/Cadeirydd Bwrdd Sicrwydd
Greg George, Pennaeth Datblygiad Amrywiaeth (Eitem 37 yn unig)
Kerrie Ambrose, Pennaeth Newid a Chydweithrediad/Cadeirydd Dros Dro'r Pwyllgor Moeseg (Eitem 137 yn unig)

SWYDDFA'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD:

Stephen Hughes – Prif Swyddog Gweithredol
Kate Jackson – Prif Swyddog Cyllid
Angharad Jones – Cynorthwydd Personol i'r Prif Weithredwr

POBL ERAILL YN BRESENNOL

Jonathan Maddock, TIAA
Mike Whiteley, Archwilio Cymru

126. YMDDIHEURIADAU A DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ymddiheuriadau: Dianne Walker – Aelod o'r CA, Helen Cargill – Tiaa, Michelle Phoenix – Archwilio Cymru.

Dim datganiadau o fudd.

127. **COFNODION A CHOFNOD GWEITHREDIADAU**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2020 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

128. **COFNOD GWEITHREDIADAU**

Diweddarwyd y Cofnod Gweithrediadau a bydd yn cael ei gylchredeg gyda'r cofnodion. Y gweithrediadau a argymhellwyd eu cau ac a gytunwyd eu cau oedd: 103d, 110, 111, 115, 118a, 118b, 118c, 118e, 119a, 119b, 119c, 120, 123a, 123b, 123c, 124, 125a, 125b.

129. **DIWEDDARIAD SEFYDLIAD**

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r adroddiad gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Heddlu Gogledd Cymru a roddodd y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wnaed ers cyfarfod diwethaf y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf.

Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Eglurodd y Prif Swyddog Gweithredol eu bod yn ymwybodol bod yr adolygiad i Ran 1 o rôl y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi dod i ben a bod yr adroddiad ar ddesg y Prif Weinidog. Yn annhebygol o dderbyn canlyniadau eleni ond ni nodwyd newidiadau radical ond gall fwydo i Ran 2 o'r Adolygiad.

Heddlu Gogledd Cymru

Diweddarodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Aelodau'r Cydbwyllgor ar y cyhoeddiadau Adolygiad Gwario a wnaed yn ddiweddar gan y Canghellor ar 25 Tachwedd. Mae hwn yn setliad un flwyddyn ac nid y tri a ddisgwyliwyd ac mae'n debygol o fod yn setliad arian gwastad. Rhewir holl gyflogau ar wahân i'r rhai a delir isaf o 1 Medi 2021 sy'n golygu y bydd codiad chwyddiannol ond yn daladwy am 5 mis o Flwyddyn Ariannol 21-22.

Mae dyraniad ychwanegol wedi'i gyhoeddi ar gyfer Ymgyrch Uplift. Gan dybio'r un sail dyrannu â chyfnod 1, mae Heddlu Gogledd Cymru yn debygol o dderbyn oddeutu 62 o swyddogion ychwanegol ond nid oes manylion wedi'u derbyn eto. Mae'r heddlu'n gobeithio y derbynnir y wybodaeth/eglurhad hwn ar 17 Rhagfyr 2020.

Mae Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gweithio ar hyn o bryd i osod y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Cyhoeddir cyfyngiad o £15 ar gynnydd yn y Praesept yn natganiad y Canghellor.

Hysbyswyd am nifer o achosion o Covid 19 yn ddiweddar o fewn gorsaf heddlu Bae Colwyn gyda'r Heddlu'n ymgysylltu gyda swyddogion Iechyd Amgylcheddol yn unol â hynny. Yn fwy cyffredinol, mae Covid-19 yn parhau'n fater pwysig i'r Heddlu.

Gofynnwyd am eglurhad gan aelodau ynghylch y rolau i'w cymryd gan Swyddogion Uplift ac a oedd angen cynnydd canlyniadol mewn cymorth. Eglurodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau y dyrennir swyddogion newydd i'r meysydd plismona sydd â mwyaf o argraff gyda dyrannu'r swyddogion hyn yn dod yn edefyn allweddol o'r broses cynllunio strategol. Roedd ffrydiau gweithio ataliol yn enghraifft o le y gellid dyrannu swyddogion. Ond mae hyblygrwydd er mwyn

sicrhau bod swyddogion yn cael eu dyrannu i'r meysydd o angen mwyaf. Nodwyd hefyd yr edrychir ar dechnolegau newydd er mwyn ceisio lliniaru peth o'r angen am staff ychwanegol.

Nododd y Cadeirydd bod tanwariant sylweddol mewn amcanestyniadau cyfalaf. Nodwyd bod llawer yn sgil gwahaniaethau mewn amseriadau ond gwnaiff yr Heddlu barhau i fonitro'r sefyllfa. Nid oedd y tanwario'n peri risg sylweddol ac ni adlewyrchwyd hyn fel risg ar gofrestr risg yr Heddlu ar hyn o bryd ond byddai hyn hefyd yn parhau'n faes i'w adolygu.

130. **DIWEDDARIADAU'R HMICFRS**

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariad a roddwyd o fewn y papur.

Mae hysbysiad wedi'i dderbyn gan HMICFRS y bydd archwiliad Defnyddio a Rheoli Cuddwybodaeth Sensitif yn cael ei ymgymryd gan archwiliad o bell ym mis Ionawr/Chwefror 2021. Heddlu Gogledd Cymru fydd un o'r chwe heddlu sy'n derbyn arolwg.

Ymgwymerwyd ag arolwg trais rhywiol a derbyniwyd adborth cadarnhaol. Mae Prif Uwcharolygydd Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol wedi siarad ag arweinydd AHM yr Heddlu a thrafododd feysydd pryder i Heddlu Gogledd Cymru a disgrifiodd yr Heddlu fel bod mewn sefyllfa dda.

Trefnir Arolwg Peel ar gyfer 2021 a'r unig faes sy'n peri pryder ar hyn o bryd yw Stopio a Chwilio.

Holodd Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio i'r nifer o acronymau a geir o fewn y papur yn y dyfodol fod yn llai gan nad ydynt bob amser yn glir beth yw eu hystyr.

GWEITHREDIAD 130	Prif Uwcharolygydd Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol i sicrhau llai o ddefnydd o acronymau o fewn diweddariad HMICFRS yn y dyfodol.
---------------------	---

Hysbysodd y Prif Swyddog Gweithredol y cynhaliwyd cyfarfod gydag Uwch Farnwyr Gweinyddol Cymru lle hysbyswyd y byddai achosion yn ôl i lefelau cyn Covid, os nad yn uwch, yr wythnos nesaf. Hysbyswyd bod Cymru mewn sefyllfa llawer cryfach na Lloegr a bod yr holl bartneriaid wedi gweithio'n dda gyda'i gilydd er mwyn sicrhau'r canlyniad hwn.

131. **ARCHWILIO MEWNOL**

a. TROSOLWG ARCHWILIO MEWNOL – ADRODDIAD RHEOLWYR

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r papur sy'n rhoi trosolwg o weithgarwch rheolaethau mewnol o fewn Heddlu Gogledd Cymru.

Mae chwe archwiliad wedi'u cwblhau gyda phump yn derbyn sicrwydd sylweddol ac un yn derbyn sicrwydd rhesymol.

Mae sgwrs bellach yn digwydd o ran dau archwiliad yn y cyfnod adroddiad drafft gyda'r gobaith y bydd y rhain yn cael eu cwblhau'n fuan.

Nododd Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio bod y wefan hafan unigol eto i'w llenwi'n iawn. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau bod gwasanaethau'n fyw ac mai hwn fydd prif wefan yr heddlu wrth symud ymlaen. Mae gwaith yn parhau wrth lenwi'n iawn ond mae'r prif feysydd wedi'u cwblhau ac wedi'u cyflwyno.

Nododd y Cadeirydd y byddai cyfarfod all-lein yn ddefnyddiol i drafod er mwyn sicrhau derbyn y sicrwydd mwyaf a bod llai o ddyblygu.

GWEITHREDIAD 131a	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i gyfarfod gyda Chadeirydd y Cydbwyllgor Archwilio i drafod/symud adroddiad ymlaen ac osgoi dyblygu gydag adroddiad Archwilio Mewnol yn y dyfodol.
----------------------	---

b. ARCHWILIO MEWNOL SICA 2020-21

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariad a roddwyd o fewn y papur sy'n rhoi diweddariad ar gynnydd yn erbyn Cynllun Blynyddol 2020-21.

Mae gwaith ar y Cynllun Blynyddol yn symud ymlaen yn dda gyda chymorth y Swyddog Cyllid a Chyllidebau. Mae newidiadau wedi'u gwneud i'r Cynllun Blynyddol gyda meysydd eraill i'w harolygu wedi'u nodi a'u cymryd ymlaen. Mae'r holl archwiliadau yn awr wedi'u trefnu ac ar y targed. Mae dyraniad diwrnod llawn ar gyfer 2020-21 yn awr wedi'i lenwi.

132. **DIWEDDARIAD RISG**

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariad a roddwyd o fewn y papur Diweddariad Risg ar 30 Hydref 2020.

Nododd Cadeirydd y Cydbwyllgor Archwilio ei diolch i Arweinydd Risg y Cydbwyllgor ac i swyddogion am eu gwaith caled wrth fireinio'r adroddiad hwn.

Nodwyd fod yr Arweinydd Risg a Pharhad Busnes ar absenoldeb salwch tymor hir ar hyn o bryd. Nodwyd bod y rôl hon yn cael ei chyflawni ar hyn o bryd gan y Swyddog Llywodraethu a Pholisi ond bod rhai meysydd gwaith yn cael llai o flaenoriaeth. Bydd Arolygydd o'r Adran Cynllunio Gweithredol yn gweithio gyda'r tîm am ychydig fisoedd a fydd yn cynyddu gallu o fewn rhan parhad busnes y tîm.

Mae holl ddogfennau risg wedi'u rhannu gydag aelodau ar Google Drive ac maent yn cael eu diweddarau bob mis. Ceir cynnydd ar y tabl gweithrediadau o fewn yr adroddiad hefyd.

Mae risg ychwanegol wedi'i amlygu o fewn yr wythnos ddiwethaf ac wedi'i gosod ar y Gofrestr Risg er mwyn ei symud ymlaen.

133. **RHEOLI'R TRYSORLYS – BLWYDDYN ARIANNOL 20-21 – DIWEDDARIAD 6 MIS**

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r adroddiad Rheoli'r Trysorlys hanner blynyddol a roddwyd er gwybodaeth

Hysbysodd y Pennaeth Cyllid bod toriadau ei gyfyngiadau bancio ei hun wedi digwydd ond eu bod bellach wedi'u datrys. Hysbysodd bod y cyfraddau buddsoddi yn isel iawn ar hyn o bryd ac yn is na beth a ragolygwyd yn flaenorol. Gan symud i'r Flwyddyn Newydd bydd y tîm yn edrych ar yr holl fuddsoddiadau a bydd yn parhau i fonitro'r cyfraddau llog.

Nododd Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio bod y wybodaeth a geir o fewn y papur yn ddefnyddiol ond bod y papur yn anodd ei ddeall. Fe ddywedont fod angen fersiwn symlach.

Hysbysodd y Pennaeth Cyllid bod y papur yn gorfod adrodd ar feysydd penodol ac yr ysgrifennir yr adroddiad gan ddefnyddio templed CIPFA. Ond fe wnaethant gydnabod ei fod yn adroddiad technegol. Pan gyflwynir y papur nesaf fe wnaiff geisio rhoi crynodeb symlach ar ddechrau'r adroddiad.

Gofynnodd Aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio i sesiwn datblygiad ar y maes gwaith hwn gael ei threfnu. Gwnaeth ofyn hefyd i'r Prif Swyddog Cyllid ei ymgorffori i'r sesiwn datblygiad i aelodau sydd wedi'i threfnu.

GWEITHREDIAD 133	Y Prif Swyddog Cyllid i drefnu sesiwn datblygu ar Reoli'r Trysorlys i mewn i'r sesiynau datblygu sydd wedi eu hamserlenni.
---------------------	--

134. DIWEDDARIAD GWERTH AM ARIAN AC ADRODDIAD ARCHWILIAD BLYNYDDOL

Nododd Aelodau o'r Cydbwyllgor y sicrwydd a roddwyd o fewn y papur bod y prif gyfrifoldebau ariannol o ran hysbysu ariannol a defnyddio adnoddau wedi'u bodloni gan Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Mae Datganiadau Cyfrifon y ddau sefydliad yn awr wedi'u cwblhau a'u llofnodi. Mae tystysgrif wedi'i chyhoeddi ac mae cyfrifon wedi'u cau ar gyfer 2019-20.

135. CAIS AM GYMORTH AR DDADANSODDEG DATA

Nododd Cadeirydd y Cydbwyllgor Archwilio y cais am gymorth ar ddadansoddeg data. Holodd Archwilio Cymru ynghylch y gwerth a ddaw yn ei sgil a'r baich ychwanegol a fydd yn ei roi ar staff Heddlu Gogledd Cymru.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau eu bod yn cefnogi'r cais hwn mewn egwyddor ond bod rhai meysydd ymarferoldeb sydd angen eu hymchwilio ymhellach e.e. o ran diogelwch data.

Eglurodd Archwilio Cymru yr ymgwymerir y gwaith gan staff mewnol yn unig ac na ddefnyddir partneriaid/sefydliadau allanol gan Archwilio Cymru er mwyn cyflawni'r gwaith hwn. Eglurwyd bod Archwilio Cymru yn gweithio gyda'r GIG yng Nghymru eisoes.

Holodd Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio faint o waith ychwanegol fyddai i swyddogion. Mae'r ddogfen yn honni y bydd rhannu data cynyddol. Ymddengys bod hwn yn creu effeithlonrwydd i Archwilio Cymru ond mae'n faich ychwanegol ar Heddlu Gogledd Cymru. Os mai fel hyn y mae hi, holodd yr aelod a fyddai gostyngiad mewn ffioedd, a oedd allan am ymgynghoriad ar hyn o bryd. Gofynnwyd hefyd lle cedwid data o ystyried yr angen i sicrhau cyfrinachedd.

Nododd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau y bydd y sicrwydd data yn cymryd peth gwaith ac mae barn y Prif Swyddog Gwybodaeth wedi'i ofyn o ran rhannu gwybodaeth/data.

Gofynnodd y Cadeirydd am i'r papur hwn ddychwelyd i gyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Mawrth fel y gellir ateb cwestiynau a godir yn llawn.

GWEITHREDIAD 135	Archwilio Cymru i ddod â phapur pellach i gyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Mawrth. Mae cydweithiwr dadansoddeg data o Archwilio Cymru i fod yn bresennol hefyd er mwyn deall ymhellach pa weithrediadau fydd eu hangen.
---------------------	--

136. ADRODDIAD CYFREITHIOL

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r papur sy'n rhoi trosolwg o weithgarwch cyfreithiol o fewn yr Heddlu yn ystod y chwe mis blaenorol.

Gofynnodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i Gyfreithiwr yr Heddlu fod yn bresennol pan gyflwynir y papur nesaf. Byddai mewn gwell lle i ateb unrhyw gwestiynau a godir ac ychwanegu gwerth at unrhyw drafodaethau. Cadarnhaodd y Cydbwyllgor Archwilio y byddai hyn o fudd.

GWEITHREDIAD 136	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i wahodd Cyfreithiwr yr Heddlu i gyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf er mwyn trafod yr Adroddiad Cyfreithiol.
---------------------	---

137. MOESEG

Nododd aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariad a roddwyd gan Gadeirydd Dros Dro'r Pwyllgor Moeseg a Phennaeth yr Uned Amrywiaeth ar waith y Pwyllgor Moeseg a sut mae'r gwaith hwn yn symud ymlaen ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

Holodd aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio am aelodaeth y bwrdd. Buasent yn croesawu gweld yr aelodaeth bresennol i gael amcan o brofiadau ehangach a gweld a oes unrhyw aelodau'n arbenigo mewn technoleg.

Mae Cadeirydd Dros Dro'r Pwyllgor Moeseg wedi trafod aelodaeth gyda'r darpar Gadeirydd er mwyn sicrhau aelodaeth eang, amrywiol a chynhwysol. Fe hysbysir y darpar Gadeirydd am yr adborth o'r cyfarfod hwn.

GWEITHREDIAD 137a	Cadeirydd Dros Dro'r Pwyllgor Moeseg i drafod adborth gan y Cydbwyllgor Archwilio gyda'r Cadeirydd newydd.
----------------------	--

Gofynnodd Cadeirydd y Cydbwyllgor Archwilio am ddiweddariad pellach ar waith y Pwyllgor Moeseg ac am gynlluniau at y dyfodol unwaith y mae'r Cadeirydd newydd wedi cynefino â'r swydd. Gofynnodd i'r Arweinydd Llywodraethu o fewn y Cydbwyllgor Archwilio gael eu cyflwyno i'r Cadeirydd er mwyn rhannu profiadau.

GWEITHREDIAD 137b	Diweddariad pellach i'r Cydbwyllgor Archwilio ar waith y Pwyllgor unwaith y mae'r Cadeirydd newydd wedi cynefino â'r swydd. Trefnu cyfarfod rhwng y Cadeirydd newydd a'r Arweinydd Llywodraethu er mwyn rhannu profiadau.
----------------------	---

138. DIWEDDARIAD LLYWODRAETHU

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio waith y Bwrdd Llywodraethu hyd yma.

Hysbysodd y Prif Swyddog Cyllid fod gwaith yn symud ymlaen yn dda a diolchodd i aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio am eu cefnogaeth barhaus.

139. RHAGLEN WAITH AR GYFER 2020/21

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r rhaglen waith ddiweddaraf a gofynnodd am gynnwys Gwerth am Arian.

Gofynnodd aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio i'r Rhaglen Waith adlewyrchu risgiau'r sefydliad ac a yw'r rhaglen waith yn neilltuo amser i edrych ar y risgiau hyn, h.y. risgiau unigol a sut mae'r Pwyllgor yn derbyn sicrwydd yr adolygir risgiau statig.

Awgrymodd Arweinydd Risg y Cydbwyllgor Archwilio y trafodir hyn mewn gweithdy ar wahân lle gellid trafod risgiau strategol.

GWEITHREDIAD 139a	Prif Swyddog Cyllid i drefnu gweithdy i drafod risg a sut y gellid ymgorffori risgiau statig yn well i agenda'r cyfarfod.
----------------------	---

Nododd Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio bod Adroddiad at Wraidd y Mater Diogelwch Seiber wedi'i drefnu ar gyfer cyfarfod mis Gorffennaf. Gofynnodd a ellid ystyried symud yr eitem hon i gyfarfod mis Mawrth. Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i fynd a thrafod gyda chydweithwyr.

GWEITHREDIAD 139b	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i drafod symud eitem Adroddiad at Wraidd y Mater Diogelwch Seiber i gyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Mawrth.
----------------------	--

Gofynnodd y Cydbwyllgor Archwilio i'w Cylch Gorchwyl gael ei adolygu a'i feincnodi yn erbyn Cydbwyllgorau Archwilio eraill. Cytunodd y Prif Swyddog Cyllid i'r cais hwn, a hysbysodd bod y gwaith hwn ar y gweill ar hyn o bryd wrth baratoi drafft yn unol â chanllawiau CIPFA ar gyfer cyfarfod nesaf y Bwrdd Llywodraethu. Unwaith bydd y Bwrdd Llywodraethu'n cymeradwyo, byddant yn cael eu cyflwyno i gyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Mawrth/Gorffennaf.

GWEITHREDIAD 139	Prif Swyddog Cyllid i adolygu Cylch Gorchwyl y Cydbwyllgor Archwilio. Unwaith y cytunir arnynt yn y Bwrdd Cyd Lywodraethu fe gânt eu cyflwyno i gyfarfod Cydbwyllgor Archwilio mis Mawrth/Gorffennaf.
---------------------	---

140. **UNRHYW FATER ARALL**

UFA1 – Hoffai'r Cadeirydd, Aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio a'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau ddiolch i Simon Williams sef Prif Uwcharolygydd Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol am ei holl gymorth a'i gyfraniad i'r Cydbwyllgor Archwilio.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Archwilio ar 30 Mawrth 2021 am 9.30yb naill ai yn Ystafell Gynhadledd 1, Pencadlys yr Heddlu Bae Colwyn neu ar Microsoft Teams.

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO
COFNOD GWEITHREDIADAU o 30.07.2021

	Agored
	Wedi cau
	Wedi ei ohirio

Gweithrediadau newydd/agored o fis Mawrth 2020

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
	56a	Moeseq - Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i godi'r ddilema a dderbyniwyd ynghylch rhai sy'n cael eu hymosod yn rhywiol gyda'r Comisiynydd Dioddefwyr.	Wedi gohirio	Comisiynydd Heddlu a Throsedd	Y Prif Swyddog Cyllid wedi cydlynu gyda'r Prif Swyddog Gwybodaeth sy'n datgan bod hyn yn fater cenedlaethol sy'n cael ei ystyried yn ddiweddar gan yr ICO, GEG a'r llysoedd ac yn argymhell na ddylai CHTh beidio â bod yn rhan o'r mater ar y foment. 09/03/2020 - fel mater cenedlaethol, gall cynnwys y CHTh atal cynnydd. Gohirio hyd nes y bydd y darlun cenedlaethol yn gliriach. 02/06/20 - Wedi gohirio Yn disgwyl cynnydd cenedlaethol. 19/10/2020 - Cadarnhau na dderbyniwyd diweddariad pellach.	
	56b	Moeseq - Prif Swyddog Gwybodaeth i greu diagram llif syml o'r broses dilema foesegol a sut y'i gosodir o fewn Llywodraethu Heddlu Gogledd Cymru.	Ar unwaith	Swyddog Llywodraethu a Sicrwydd	28/11/2019 Swyddog Llywodraethu a Pholisi i ymgymryd â hyn. 04/03/2020 Gwnaiff Prif Uwcharolygydd Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol greu diagram llif syml o ran Dilemâu Moesegol a rhannu hyn yng nghyfarfod nesaf y CA. (Gall y diagram hwn	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
					<p>newid unwaith y penodir y Cadeirydd Annibynnol newydd - gweler gweithrediad 56c).</p> <p>09/09/2020 - copi drafft i'w rannu gyda'r Cydbwyllgor Archwilio ac yna'i gyflwyno i'r Pwyllgor Moeseg i'w gwblhau ac yna'i ail-rannu gyda'r Cydbwyllgor Archwilio.</p> <p>02/06/20 - Rhannwyd Siart Llif y Broses Dilemâu Moesegol gyda'r Cydbwyllgor Archwilio.</p> <p>30/07/2020 - Siart llif yn or-syml iawn ac nid yw'n esbonio'n llawn sut mae'r broses yn gweithio. Riportiodd Prif Uwcharolygydd Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol i'r Pwyllgor Moeseg, sydd gyda Chadeirydd ac aelodaeth newydd ar hyn o bryd. Bydd hyn yn cael ei drafod ymhellach ar ôl penodi Cadeirydd newydd</p> <p>23/09/2020 – Mae'r siart llif syml wedi'i rannu ac mae'n cynrychioli ein llif presennol o ran sut mae cyfyng-gyngor moesegol yn cyrraedd y Pwyllgor Moeseg a sut y cânt eu datrys a'u bwydo'n ôl i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth i lywio ymarfer/prosesau. Caiff y llif ei adolygu pan fydd y Cadeirydd Annibynnol yn dechrau ar ei gwaith. Gwnaed cynnydd gyda'r Cadeirydd Annibynnol yn pasio'r wythnos Fetio yn dechrau 21/09/20. Cais am gamau i'w cymryd i ganiatáu i'r Cadeirydd Annibynnol ddechrau ac adolygu prosesau. Cadeirydd Dros Dro Uwcharolygydd Simon Williams.</p> <p>11/01/2020 - Cadeirydd newydd wedi'i apwyntio a bydd yn cadeirio cyfarfod nesaf y Pwyllgor Moeseg</p> <p>11/02/2021 - Cytunwyd ar y broses ym mhwyllgor Moeseg mis Medi 2020 a'i rannu gyda</p>	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
					<p>Chadeirydd newydd y Pwyllgor Moeseg, wedi'i atodi.</p> <p>Awgrymu cau'r gweithrediad.</p>	
	59h	<p>Archwilio Mewnol - Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ddiweddarau'r Cydbwyllgor Archwilio ar ymweliad yr ICO i Heddlu Gogledd Cymru i adolygu eu cynllun gweithredu o ran RhDDC.</p>	<p>Pan mae ymweliad yr ICO wedi dod i ben</p>	<p>Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau</p>	<p>Cynhaliwyd adolygiad er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno'r GDPR ac mae'r gweithrediadau wedi cwblhau.</p> <p>28/11/2019</p> <p>Ail-agor. Gwnaiff y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau edrych ar yr adroddiad ac adrodd yn ôl i'r Cydbwyllgor Archwilio.</p> <p>04/03/2020</p> <p>Mae CCA wedi cyfarfod gyda Phennaeth Diogelwch Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth i drafod cynnydd o ran argymhellion archwiliad TIAA sy'n tarddu gan archwiliad RhDDC. Mae'r gweithrediadau wedi'u holrhain drwy eitem sefydlog Archwilio Mewnol hyd yma (mae angen i eiriad y gweithrediad gael ei ddiwygio gan mai ym mis Ionawr 2013 oedd adolygiad ymweliad diwethaf yr ICO).</p> <p>Mae dau weithrediad yn dal ar agor o ran Archwiliad Cydymffurfiaeth Archwiliad RhDDC Rhif PO FN27625. Rhoddir y sefyllfa ddiweddaraf isod: 237156 Bydd rhyddhau'r gweithrediad yn ddibynnol ar gyflawni'r Rhaglen Alluogi Genedlaethol (sydd ar hyn o bryd yn Brosiect o fewn Rhaglen Waith Trawsnewidiad Digidol) gyda gosod llawn i ddechrau wedi cwblhau Cynllun Arbrolfol Defnyddwyr Busnes a disgwyl i gymryd 12 mis arall.</p> <p>237154 Mae Safonau Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth wedi symud ymlaen gyda'r gwaith angenrheidiol gan greu Polisi Diogelu Data. Mae rhyddhau'r gweithrediad yn ddibynnol ar y swyddog Polisi yn cadarnhau'r ddogfen a grëir.</p> <p>Y cynnig yw cau'r gweithrediad hwn ar y cofnod gweithrediadau ac olrhain cynnydd drwy eitem</p>	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
					<p>agenda sefydlog Archwilio Mewnol. 09/03/2020 CCA i ystyried a ddylai'r tîm Safonau Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth gysylltu â'r ICO i edrych ar lwybrau posibl am sicrwydd o gydymffurfiaeth â RhDDC.</p> <p>02/06/2020 - Cyfarfod gyda'r Prif Swyddog Gwybodaeth a Phennaeth Safonau Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth wedi'i drefnu ar ôl CA mis Mawrth ond cafodd ei ganslo oherwydd Covid. Cyfarfod i gwblhau'r safbwynt ar y camau nesaf arfaethedig ar gyfer mis Mehefin.</p> <p>30/07/2020 Cynhaliwyd y cyfarfodydd uchod a thrafodwyd y posibilrwydd o wahodd yr ICO i'w archwilio. Consensws y tîm rheoli oedd, er ein bod yn cydnabod bod hwn yn faes hollbwysig, teimlwn ein bod yn canolbwyntio'n well ar ddatblygu ein rhaglen waith ein hunain ynghylch cydymffurfio yn hytrach na defnyddio adnoddau sy'n gysylltiedig ag archwiliad ICO ar ein cais. Gofynnodd y CA pryd y bydd yr holl waith yn cwblhau bod ICO yn cael gwahoddiad yn ogystal â rhoi cipolwg gwahanol ar fylchau sy'n bodoli.</p> <p>17/09/20 Trafodwyd arweinydd risg CAA a CA a chytunwyd i ddefnyddio archwiliad TIAA ar gyfer mis Medi fel llwybr cychwynnol ar gyfer rhoi sicrwydd pellach. Datblygodd CG gydag arweinydd archwilio o ganlyniad a defnyddir y canfyddiadau wedyn i bennu'r camau nesaf priodol.</p> <p>19/10/2020 Mae TIAA wedi cwblhau adolygiad archwilio mewnol o faterion. Gwnaiff y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau ddiweddarau aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio pan dderbyniwyd yr adroddiad adolygu.</p> <p>11/11/2020 Cytunir ar y camau nesaf gydag</p>	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
					<p>arweinydd Risg a Chyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau yn sefydlu cyfarfod. 20/11/2020</p> <p>Gwiriad RhG wedi'i gwblhau a'i rannu gydag arweinydd Risg CA yn dilyn cyfarfod CA mis Hydref 20. Derbyniwyd adroddiad drafft gyda phwyntiau o eglurder a chywirdeb yn cael eu holi ar hyn o bryd.</p> <p>10/12/2020 Archwiliad Sicrwydd Data Mewnol wedi'i gwblhau a'i raddio'n rhesymol. Bydd eglurder a geisir ar faterion a godwyd a'r drafft terfynol yn cael ei gyhoeddi fel sicrwydd sylweddol. Y camau nesaf yw rhannu hyn gydag arweinydd risg CA er mwyn cynyddu.</p> <p>09/02/2021 Trafododd CCA ac arweinydd risg CA archwiliad Sicrwydd Data TIAA o Sylweddol. Cytunwyd bod hyn yn rhoi sicrwydd ychwanegol ac y dylai'r camau nesaf fod: 1). Asesu risg cydymffurfio Diogelu Data a chynllun gweithredu cysylltiedig.</p> <p>02/03/2021 Crëwyd risg o Gydymffurfio Diogelu Data. O ystyried y camau lliniaru sydd ar waith ac archwiliad TIAA Sylweddol diweddar, nid yw gwahoddiad i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn rhan o'r cynllun gweithredu arfaethedig.</p>	
	91b	Archwilio Mewnol - Datganiadau Rheolwyr yr Heddlu i'w rhoi ar y Bwrdd Cyd Lywodraethu ac Agenda'r Cydbwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf.	Erbyn cyfarfod mis Gorffennaf.	Prif Swyddog Cyllid	<p>02/06/2020 Nid oes rhwymedigaeth i greu Datganiad Rheolwyr yr Heddlu yn ystod 2020/21. Edrychir ar y ddogfen fodd bynnag a bydd yn cael ei chreu ar gyfer cyfarfod mis Mawrth 2021.</p> <p>30/07/2020 PSC i ddiweddarau'r rhaglen waith i adlewyrchu newid rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Mawrth 2021.</p> <p>12/02/21 – Camau a ail-agorwyd i fonitro cynnydd.</p> <p>12.02.21 – Mae amserlenni'n golygu y bydd y FMS drafft yn cael ei gwblhau ar ôl y cyfarfod ym mis Mawrth. Y wybodaeth ddiweddaraf i'w rhoi</p>	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
					<p>i'r FMS i'w gynnwys yn y sesiynau cynefino Aelodau Newydd i Aelodau'r Pwyllgor, Agenda CA mis Gorffennaf neu'r ddau. Pennaeth yr Uned Cynllunio Strategol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd cyn y cyfarfod ym mis Mawrth.</p> <p>01.03.2021 - Fel rhan o'r broses gynllunio a arweiniodd at bennu cyllidebau, cwblhaodd pob ardal yn yr heddlu Gynllun Busnes yn nodi eu dealltwriaeth o'r galw, y capasiti a'r gallu presennol ac yn y dyfodol.</p> <p>Bydd y cynlluniau hyn ynghyd â chanlyniadau'r penderfyniadau a wneir wrth bennu'r gyllideb yn ffurfio ein cyflwyniad FMS eleni. Yn ogystal, mae dadansoddiad bwlg wedi'i wneud i'n galluogi i olrhain effaith ein penderfyniadau adnoddau. Mae rhagolygon ystadegol o dueddiadau galw allweddol wedi'u cwblhau i lywio cynllunio sefydliadol.</p> <p>Mae bron pob adran yn nodi tuedd gynyddol o alw ac er bod agweddau wedi'u hatal gan COVID mae eraill wedi cyflymu y tu hwnt i'n rhagamcanion gwreiddiol.</p> <p>Ar hyn o bryd rydym yn cwblhau dadansoddiad manylach ar effaith y pandemig ar alw'r heddlu a fydd yn rhan o'r ddogfen derfynol. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno i HMCIFRS yw 31 Mai 2021.</p>	
	102b	<p>Trosolwg Archwilio Mewnol - Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ymateb i'r CA yn ymwneud â'r rheswm dros ddiwygiadau dyddiad dyledus a sut y byddai mater RhDDC sy'n ymwneud â data sensitif a gedwir ar yriannau Rhwydwaith yn cael sylw drwy NEP a mudo i amgylchedd Cwmwl.</p>	Ar unwaith	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	<p>17/09/20</p> <p>E-bostiwyd Arweinydd Risg CA gan y CCA 31/07/20gyda rhesymau dros y diwygiadau dyddiad dyledus wedi'u hamlygu. Pwysleisiwyd bod yr angen i sicrhau bod dyddiadau priodol ar argymhellion TIAA yn rhesymol ac yn realistig cyn cytuno wedi'i bwysleisio i'r rhai sy'n cynnal archwiliadau gan y DFA a'r HoF.</p> <p>E-bostiodd CCA Arweinydd Risg CA ar 31/07/20 parth. RhDDC: "Er mwyn lliniaru'r mater GDPR y</p>	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
					<p>cyfeirir ato yn y pen draw, byddai angen i unrhyw ateb sicrhau mai dim ond data sy'n cydymffurfio â RhDDC sy'n cael ei fudo i'r Cwmwl (lle mae angen ei reoli wedyn mewn ffordd strwythuredig) a hefyd bod angen rheoli unrhyw ddata nad yw'n mudo yn briodol...</p> <p><i>Mae darparu adnoddau ar gyfer y ffrwd waith naill ai drwy dîm prosiect y NEP neu drwy ffrwd waith ar wahân yn cael ei drafod ar hyn o bryd gydag achos busnes ar y gweill."</i></p> <p><i>05.10.2020 - Holodd aelod o'r CA sut fyddai symud data sydd ddim yn cydymffurfio i'r cwmwl o gymorth wrth liniaru risg ac yn gadael yr Heddlu gyda data sydd ddim yn cydymffurfio ar y gyriant. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau fod data cydymffurfiaeth yn cael ei fudo i'r Cwmwl ond ei fod hefyd yn edrych ar faterion gwaddol er mwyn edrych ar y mater ymhellach. Pennaeth Cyllid ac Adnoddau i edrych i'r mater ymhellach a diweddarau'r Cydbwyllgor Archwilio.</i></p> <p>20/11/2020 – Diweddariad pellach ynghylch dull a anfonwyd drwy'r e-bost gan DFR at arweinydd Risg CA.</p> <p>10.12.2020 – e-bost wedi'i anfon at ARWEINYDD Risg CA ar liniaru risg. Aelod/Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i gytuno pa sicrwydd fydd yn cau'r cam gweithredu hwn.</p> <p>09/02/2021 Trafododd CCA ac arweinydd risg CA e-bost dyddiedig 10/12/20 am gyfnod.</p> <p>Cynlluniau NEP ar gyfer mudo data i ddarparu'r sicrwydd angenrheidiol sydd ei angen i gau camau gweithredu.</p>	
	103d	Diweddariad Risg - Risg a Pharhad Busnes Arwain at ddiwygio fformat yr	Ar unwaith	Arweinydd Risg a Pharhad Busnes	02/09/20 Diweddariad Arweinydd Risg a BC. Trafododd Arweinydd Parhad Risg a Busnes y mater hwn gyda'r Arweinydd Risg JC ar 28/08/20.	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
		adroddiad mewn ymgynghoriad ag Arweinydd Risg			<p>Cytunwyd bod yr Adroddiad Uchafbwyntiau Risg yn parhau i gael ei gyflwyno mewn dwy adran, h.y. Sesiwn Agored a Sesiwn Caeedig. Bydd y Sesiwn Agored yn parhau i ddogfennu'r holl Risgiau ar Gofrestr Risg yr Heddlu neu Gofrestr Risg COVID19 nad ydynt wedi'u negyddu. Dim ond drwy eithriad y bydd yr Adroddiad Sesiwn Caeedig yn adrodd am Risgiau, h.y. Risgiau Newydd, Risgiau Caeedig, Newidiadau Risg ac ati a fydd yn lleihau maint yr adroddiad Amlygu Risg cyffredinol.</p> <p>19/10/2020 - Bydd Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol yn symud hyn ymlaen gyda James a Neil.</p> <p>12/11/20 - Derbyniwyd adborth gan Rachel Barber a John Cunliffe sydd wedi'i ymgorffori i'r adroddiad risg ar gyfer cyfarfod y CA 10/12/20</p> <p>03/03/21 - Arweinydd Risg a Pharhad Busnes i ddiwygio fformat yr adroddiad mewn ymgynghoriad ag Arweinydd Risg Awgrymu cau'r gweithrediad.</p>	
	105a	Bwrdd Sicrwydd - Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes i ddod â rhestr o brofion Top Bwrdd i gyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Archwilio.	Cyfarfod mis Hydref	Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes	<p>Rydym yn cydnabod bod hon yn agwedd bwysig ar ein gwaith sicrwydd, a byddwn yn ceisio canolbwyntio arno mewn ystyr ystyrion unwaith y bydd gallu i wneud hynny ar ôl ymdrin â materion pwysig BC o ddysgu'r gwersi o COVID. Mae prosesau ar waith gyda pharhad busnes un pwynt cyswllt ar gyfer ymarferion pen bwrdd parhaus, ac ymarfer blynyddol ar lefel yr Heddlu cyfan, ond nid oes amserlen ffurfiol/fanwl ar waith ar hyn o bryd.</p> <p>Bydd amserlen profi lawn yn rhan o'n hymateb ond mae angen i ni roi ystyriaeth briodol iddi cyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Gydbwyllgor Archwilio. Byddaf yn anelu at gael y wybodaeth ddiweddaraf lawnach yng nghyfarfod nesaf y</p>	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
					<p>Pwyllgor yn manylu ar y rhestrau profi cyfredol ac arfaethedig.</p> <p>05.10.2020 - Blwyddyn ddigynsail ac mae llawer wedi'u profi mewn amser real. Adolygiad arall ddechrau'r flwyddyn nesaf. Diweddariad llawnach i'w roi yng nghyfarfod mis Rhagfyr 2020.</p> <p>12/11/20 Mae dau brawf parhad busnes wedi'u trefnu ers cyfarfod diwethaf y CA.</p> <ul style="list-style-type: none"> 10/11/20 Ymarfer Seiber Fforwm Cydnerth Lleol Gogledd Cymru - wedi'i ohirio oherwydd anawsterau technegol, i'w aildrefnu ar gyfer diwedd mis Tachwedd/dechrau mis Rhagfyr 2020 17/12/20 - Ymarfer parhad Busnes Ymadael â'r UE. Fersiwn wedi'i diweddarau o ymarfer Ymadael â'r UE a gynhaliwyd yn flaenorol ar 09/10/20 Mae papur opsiynau parhad busnes wedi'i baratoi ar gyfer grŵp tactegol Adfer Covid 19 13/10/20 er mwyn ystyried ymestyn cynlluniau parhad busnes pwrpasol i bob maes gan gynnwys meysydd risg isel. Bydd hyn yn hysbysu graddfa'r gwaith parhad busnes i'w ymgymryd. Bydd hefyd yn hysbysu'r amserlen profi ar gyfer 2021 a fydd yn cael ei chreu fel rhan o'r gwaith. <p>Yng ngoleuni problemau gallu o fewn y tîm sicrwydd, cytunwyd ar aelod o staff dros dro a fydd ar gael o'r Adran Cynllunio Gweithredol i gynorthwyo dros dro gyda'r gwaith parhad busnes.</p> <p>11.01.2020 – Cadeirydd ac Uwcharolygydd/Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol i drafod</p>	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
					gweithredu. 03.03.2021 Gweler y papur amgaeedig (Atodiad A).	
	118d	Archwilio Mewnol - Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ddiweddarau'r Cydbwyllgor Archwilio ar fesurau sydd mewn lle i liniaru yn erbyn bygythiadau diogelwch seiber ac a oes unrhyw bosibilrwydd am gwtogi amserlenni wrth weithredu.	Cyn cyfarfod mis Rhagfyr	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	Cyfarfodydd yn digwydd i roi diweddariad i'r Cydbwyllgor Archwilio cyn y cyfarfod nesaf. 10.12.2020 - E-bost wedi'i gylchredeg ar ddechrau'r wythnos. Dechrau gweithredu'r NEP yn gam sylweddol i'r sefydliad ac adroddiad at Wraidd y Mater ar Seibrddiogelwch a drefnwyd ar gyfer cyfarfod mis Gorffennaf. Gofynnodd arweinydd risg CA i hyn gael ei gymryd ymlaen i fis Mawrth gan fod amserlenni'n rhy hir ar hyn o bryd. 11/01/2021 - Ar yr agenda Awgrymu cau'r gweithrediad.	
10.12.20	130	Diweddariadau HMICFRS - Prif Uwcharolygydd Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol i sicrhau llai o ddefnydd o acronymau o fewn diweddariad HMICFRS yn y dyfodol.	Erbyn cyfarfod mis Mawrth	Prif Uwcharolygydd/Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol	Paratowyd yr adroddiad a'i gyflwyno i'r Cydbwyllgor Archwilio gyda llai o acronymau. Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	131a	Trosolwg Archwilio Mewnol - Adroddiad Rheolwyr - Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i gyfarfod gyda Chadeirydd y Cydbwyllgor Archwilio i drafod/symud adroddiad ymlaen ac osgoi dyblygu gydag adroddiad Archwilio Mewnol yn y dyfodol.	Cyn cyfarfod mis Mawrth 2021.	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau/Cadeirydd y Cydbwyllgor Archwilio	Pennaeth Cyllid ac Adnoddau i drafod hefo Ann. Seb i drefnu cyfarfod hefo Rachel i drafod 11/02/21 Cyfarfu CCA ac AM gyda Chadeirydd y CA gydag adborth yn canolbwyntio ar sicrhau bod yr adroddiad yn rhoi sicrwydd ychwanegol i'r CA. 02/03/21 ar yr agenda. Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	133	Rheoli'r Trysorlys - FY 20-21 - Diweddariad 6 mis Gofynnodd Aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio i	Haf 2021.	Prif Swyddog Cyllid	Prif Swyddog Cyllid i drafod gyda Aringclose o ran pwys fydd yn darparu'r hyfforddiant. 02/03/21 PSC wedi cydlynu gydag Aringclose, sydd wedi cytuno i gyflwyno CA Gogledd Cymru	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
		sesiwn datblygiad ar y maes gwaith hwn gael ei threfnu. Gwnaeth ofyn hefyd i'r Prif Swyddog Cyllid ei ymgorffori i'r sesiwn datblygiad i aelodau sydd wedi'i threfnu.			ar 11 Mai 2021.	
	135	Cai i Archwilio Cymru am gymorth ar Ddadansoddiadau Data - Archwilio Cymru i ddod â phapur pellach i gyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Mawrth a chydweithiwr dadansoddi data o Archwilio Cymru i fod yn bresennol hefyd i egluro ymhellach pa gamau y bydd angen eu cymryd.	Mawrth 2021	Swyddfa Archwilio Cymru	Cyflwyniad Archwilio Cymru i'w roi ar y G-drive er gwybodaeth i aelodau. Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	136	Adroddiad Cyfreithiol - Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i wahodd Cyfreithiwr yr Heddlu i gyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf er mwyn trafod yr Adroddiad Cyfreithiol.	Cyfarfod Gorffennaf 2021	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	11/01/21 – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau wedi hysbysu Cyfreithiwr yr Heddlu o'r angen i fynychu cyfarfodydd ac mae nodyn o hyn bellach yn y dyddiadur. Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	137a	Moeseq - Cadeirydd Dros Dro'r Pwyllgor Moeseq i drafod adborth gan y Cydbwyllgor Archwilio gyda'r Cadeirydd newydd.	ASAP	Cadeirydd Dros Dro'r Pwyllgor Moeseq	Ionawr 21 - Cadeirydd Dros Dro'r Pwyllgor Moeseq i drafod adborth gan y Cydbwyllgor Archwilio gyda'r Cadeirydd newydd. Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	137b	Moeseq - Diweddariad pellach i'r Cydbwyllgor Archwilio ar waith y Pwyllgor unwaith y mae'r Cadeirydd newydd wedi cynefino â'r swydd. Trefnu cyfarfod rhwng	ASAP	Cadeirydd Dros Dro'r Pwyllgor Moeseq	I fynychu cyfarfodydd CA yn y dyfodol (Gorffennaf) 09.03.21 – Yn ogystal â'r uchod, mae dyddiadau ar gyfer cyfarfod ar wahân rhwng cadeirydd y Pwyllgor Moeseq a'r aelodau CA priodol yn cael eu datblygu.	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
		y Cadeirydd newydd a'r Arweinydd Llywodraethu er mwyn rhannu profiadau.			Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	139a	Rhaglen Waith - Prif Swyddog Cyllid i drefnu gweithdy i drafod risg a sut y gellid ymgorffori risgiau statig yn well i agenda'r cyfarfod.	ASAP	Prif Swyddog Cyllid	Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau/Prif Swyddog Cyllid wedi trafod ac mae PA wedi gofyn i CCA drefnu gweithdy ddiwedd Ionawr/dechrau Chwefror. Pennaeth Cuddwybodaeth Busnes/Uwcharolygydd Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol i drafod gydag Arweinydd Risg CA a sut mae hyn yn cyd-fynd â'r rhaglen. Angen trafodaeth bellach gan efallai mai aelod newydd o'r CA fydd yr Arweinydd Risg. 03.03.2021 - Y Prif Swyddog Cyllid i drefnu gweithdy i drafod risg a sut y gellid ymgorffori risgiau statig yn well yn agenda'r cyfarfod. – Yn dilyn trafodaeth gyda John Cunliffe, cytunwyd y byddai'r Heddlu, ochr yn ochr ag Adolygiad Blynyddol Awch Risg, hefyd yn cynnal adolygiad blynyddol o'r Gofrestr Risg yn ogystal â'r risgiau a gaewyd yn ystod y 12 mis blaenorol. Digwyddodd hyn yng nghyfarfod yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar 23 Chwefror 2021, a rhoddwyd ystyriaeth i risgiau y gallai fod angen eu hadolygu'n barhaus er iddynt gael eu cau. Mae llwybr hefyd i oruchwylio risgiau statig drwy'r broses mapio risg. Byddai'r ddau hyn yn adrodd o bryd i'w gilydd i'r Cydbwyllgor Archwilio drwy'r adroddiad risg rheolaidd pan fo'n berthnasol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau i risgiau statig/hirdymor.	
	139b	Rhaglen Waith - Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i drafod symud eitem Adroddiad at Wraidd y Mater Diogelwch Seiber i gyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Mawrth.	Cyn cyfarfod mis Mawrth 2021.	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	Diogelwch Seiber ar agenda cyfarfod mis Mawrth Awgrymu cau'r gweithrediad.	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
	139c	Rhaglen Waith - Prif Swyddog Cyllid i adolygu Cylch Gorchwyl y Cydbwyllgor Archwilio. Unwaith y cytunir arnynt yn y Bwrdd Cyd Lywodraethu fe gânt eu cyflwyno i gyfarfod Cydbwyllgor Archwilio mis Mawrth/Gorffennaf.	Cyfarfod Mawrth/Gorffennaf 2021	Prif Swyddog Cyllid	Cylch Gorchwyl ar agenda cyfarfod y CRh ym mis Chwefror a bydd y Prif Swyddog Cyllid yn diweddarau wedi hynny. 02.03.21 Yng nghyfarfod y Bwrdd Cyd Lywodraethu ar 17 Chwefror, penderfynwyd y dylai Cylch Gorchwyl y CA gael ei gymeradwyo gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Felly, bydd y Cylch Gorchwyl yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol Strategol nesaf, a bydd yn cael ei gyflwyno i'r CA ym mis Gorffennaf 2021.	

Gweithrediadau caeedig ers y cyfarfod diwethaf - archifwyd ym mis Mawrth 2020 - ar gael ar gais

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
	22a	UFA - RHDDC - Prif Swyddog Gweithredol i edrych ar rannu gwybodaeth rhwng Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd o dan y RhDDC newydd.	Ar unwaith	PSG	Angen Cytundeb Rhannu Gwybodaeth rhwng Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Heddlu Gogledd Cymru. Pennaeth Safonau Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth yn gweithio ar hwn. ISA/MOU yn cael ei ddrafftio ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng SCHTh a HGC. Awgrymir cael un ddogfen i gyd-fynd â'r Protocol Plismona. Nid yw'r Prif Swyddog Gweithredol yn credu bod angen hyn gan fod rhannu gwybodaeth yn cael ei gynnwys yn y Protocol Plismona a deddfwriaeth oedd yn cynnwys gwaith y Comisiynydd ond mae gwaith yn mynd yn ei flaen rhwng y ddau sefydliad. Mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen. 09/10/2019 - Prif Swyddog Gwybodaeth/Pennaeth Safonau Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth yn parhau i gydlynu gyda Heddluoedd eraill i weld beth sydd angen/rhaid gwneud ond mae'r Protocol Plismona yn cynnwys trosglwyddo gwybodaeth rhwng SCHTh	Wedi cau

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
					<p>a Heddluoedd.</p> <p>04/03/2020 - Mae drafft cyntaf y Memorandwm Dealltwriaeth wedi'i dderbyn ac mae sylwadau a cheisiadau am ddiwygiadau wedi'u gwneud. Gwnaiff y PSG gysylltu gyda Phrif Swyddog Gwybodaeth yr Heddlu er mwyn cwblhau'r ddogfen hon.</p> <p>09/03/2020 - Gobeithio cwblhau'r ddogfen erbyn diwedd mis Mawrth.</p> <p>02/06/20 - Disgwyl am y ddogfen derfynol y mae gofyn amdani erbyn diwedd mis Mehefin. Cylchredir y ddogfen hon i aelodau'r CA pan fydd wedi'i chwblhau.</p> <p>07/07/2020 Rhannwyd gydag aelodau o'r CA.</p> <p>30/07/2020 Holodd aelod o'r CA os yw'r papur yn adolygu a gynhwysir cofnodion papur fel y gofelir hefyd yn RhDDC. Awgrymu cau'r gweithrediad.</p> <p>30/07/2020 Pan adolygir papur yn y dyfodol, iddo gynnwys cofnodion papur yn ogystal â digidol.</p>	
	42	Swyddfa Archwilio Cymru - Llythyrau Ymchwiliad Twyll - Yn y dyfodol, y Prif Swyddog Cyllid i gynnig ymateb o'r blynyddoedd blaenorol i'r Llythyrau Ymholiadau Twyll ar gyfer y ddwy flynedd ochr yn ochr mewn dogfen sengl er mwyn i'r Cydbwyllgor Archwilio allu cymharu'r ddau yn rhwyddach.	Gorffennaf 2020	PSC	<p>Cyfredol.</p> <p>08/06/2020 Dogfen yn cael ei chreu ar hyn o bryd a bydd yn cael ei chyflwyno i'r cyfarfod. Fel y gofynnwyd, rhoddir gwybodaeth am y ddwy flynedd yn yr un ddogfen i gynorthwyo cymharu.</p> <p>30/07/2020 - Ar yr agenda. Gweithrediad wedi cau.</p>	Wedi cau
	59b	Archwilio Mewnol - Archwilio Mewnol i wirio pa weithrediad sydd wedi'u gymryd yn erbyn yr argymhelliad Sicrwydd Data.	Cyfarfod mis Mawrth	Rheolwr Archwilio Mewnol	<p>Caewyd un o'r argymhellion ar Ddilyniant 2018/19. Bydd y ddau sydd ar ôl yn cael eu hasesu yn ystod dilyniant 2019/20.</p> <p>28/11/2019</p> <p>Bydd archwiliadau dilynol yn digwydd yn Chwefror/Mawrth a byddent yn adrodd am y canfyddiadau.</p> <p>04/03/2020</p>	Wedi cau

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
					Adolygiad dilynol archwilio mewnol yn cael ei ymgymryd yn yr wythnos yn dechrau 2 Mawrth. 03/06/2020 - Adolygwyd fel rhan o ddilyniant 2019/20 ac maent wedi cwblhau. Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	79b	Adroddiad Archwilio Mewnol ac Adroddiad Cynnydd - Archwiliad Mewnol i osod colofn ychwanegol ar gyfer sylwadau o fewn y tabl Nodiadau Cyfarwyddyd Cleientiaid.	Erbyn cyfarfod mis Mawrth	Rheolwr Archwilio Mewnol	Anfonwyd y SICA i'w gyfieithu cyn derbyn y cofnod gweithrediadau. Adroddiadau yn y dyfodol i'w diwygio'n unol â hynny a chysylltir â Rheolwyr am ymatebion. 02/06/20 - Amserlen fewnol wedi'i pharatoi gyda cholofn ychwanegol ar gyfer ymateb Rheolwyr. Cael ei adrodd yn fewnol drwy UDRh C&A - ceir fel rhan o'r papurau o dan eitem 102 cyfarfod mis Gorffennaf. Awgrymu cau'r gweithrediad.	Wedi cau
	89	Cofnod Gweithrediadau - Cofnod Gweithrediadau i gael ei ddiweddarau cyn y cyfarfod er mwyn edrych ar y gweithrediadau trwy eithriad yn y Cydbwyllgor Archwilio.	Erbyn cyfarfod mis Gorffennaf.	Cynorthwydd Personol	02/06/20 - Yr ysgrifenyddiaeth i gydlynu dilyniant cyfnodol ar weithrediadau. Awgrymu cau'r gweithrediad..	Wedi cau
	91a	Archwilio Mewnol - Swyddog Cyllid a Chyllidebau i gynnwys adroddiad cwmpasu/crynodeb gweithredol at gyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Archwilio.	Erbyn cyfarfod mis Gorffennaf.	Swyddog Cyllid a Chyllidebau	02/06/20 - Ychwanegu adran Rheolaeth Fewnol at Uwch Dîm Rheoli C&A fel eitem agenda sefydlog. Bydd adroddiadau cryno yn rhoi allbwn llawer byrrach ar gyfer y CA. Y bwriad yw parhau i rannu'r ddogfennaeth papur gwaith greiddiol gydag aelodau'r CA cyn y cyfarfod ei hun. Darparu fformat newydd o bapurau o dan eitem 102 o gyfarfod mis Gorffennaf. Awgrymu cau'r gweithrediad..	Wedi cau
	91c	Archwilio Mewnol - Y Cadeirydd i nodi o fewn Adroddiad Blynyddol y Cydbwyllgor Archwilio fod y CHTh a'r Prif Gwnstabl yn fodlon na ddefnyddiwyd yr holl ddyddiau a ddyrannwyd i Archwilio Mewnol a'u bod i'w cario i'r flwyddyn ariannol nesaf.	Erbyn cyfarfod mis Gorffennaf.	Cadeirydd y Cydbwyllgor Archwilio	Cynnwys y datganiad o fewn Adroddiad Blynyddol 2019/20. Awgrymu cau'r gweithrediad.	Wedi cau
	91d	Archwilio Mewnol - Archwilio Mewnol i	Ar unwaith	Archwilio Mewnol -	02/06/20 - Mae Nodiadau Cyfarwyddyd	Wedi cau

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
		ychwanegu colofn arall i'r tabl yn Atodiad 2 y Nodyn Cyfarwyddyd Cleientiaid i ystyried Gweithred Rheolwyr.		Rŵan yn Swyddog Trysorlys a Chyllidebau	Cleientiaid yn cael eu monitro bellach drwy Uwch Dîm Rheoli C&A a bydd y CA yn cael ei hysbysu o dan adran rheolaeth Fewnol yr agenda (dolenni at weithrediad 91a). Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	93a	Proses Rheoli Risg - Prif Uwcharolygydd Dros Dro i rannu swydd ddisgrifiad Risg a Pharhad Busnes gyda'r Cydbwyllgor Archwilio.	Ar unwaith	Prif Uwcharolygydd Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol	Rhannwyd y ddogfen gyda CA 10/03/2020 Awgrymu cau'r gweithrediad.	Wedi cau
	93b	Proses Rheoli Risg - Cadeirydd y Bwrdd Sicrwydd i sicrhau fod monitro parhaus o'r Fframwaith Rheoli Risg a chyflawni'r camau nesaf yn cael eu symud ymlaen drwy'r Bwrdd Sicrwydd.	Ar unwaith	Cadeirydd y Bwrdd Sicrwydd	02/06/20 - Cyflawni cynnydd HGC o ran fod yr agenda risg (gan gynnwys mapio sicrwydd risg, chwant risg, categoreiddio risg) yn cael ei harwain gan yr arweinydd risg sydd newydd ei benodi, ac a oruchwylir gan y Bwrdd Sicrwydd. Cadeirydd Bwrdd Sicrwydd i gyflwyno yng nghyfarfod mis Gorffennaf. Awgrymu cau'r gweithrediad.	Wedi cau
	93c	Proses Rheoli Risg - Cadeirydd y Bwrdd Sicrwydd i sicrhau fod diweddariadau cynnydd o ran cyflawni'r camau nesaf o ran y Fframwaith Rheoli Risg yn hysbysu'r Cydbwyllgor Archwilio'n barhaus.	Ar unwaith	Cadeirydd y Bwrdd Sicrwydd	02/06/2020 - Bydd yr Arweinydd Risg yn rhoi Adroddiad Risg yn gofalu am gynnydd cyflawni'r camau nesaf o ran y Fframwaith Rheoli Risgiau er mwyn i'r CA graffu. Mae hon yn eitem sefydlog ar yr agenda. Gwnaiff Cadeirydd y Bwrdd Sicrwydd gyflwyno yng nghyfarfod mis Gorffennaf. Awgrymu cau'r gweithrediad.	Wedi cau
	93d	Proses Rheoli Risg - Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ofyn i Gadeirydd y Bwrdd Sicrwydd i baratoi papur a mynd i gyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf.	Erbyn cyfarfod mis Gorffennaf.	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	02/06/2020 Gwahoddwyd Cadeirydd y Bwrdd Sicrwydd i ddod a pharatoi papur. Paratoi papur ac eitem agenda o Rôl a Chylch Gwaith y Bwrdd Sicrwydd ar gyfer agenda mis Gorffennaf. Awgrymu cau'r gweithrediad.	Wedi cau
	94a	Datganiad Llywodraethu Blynyddol - Ailedrych ar Gylch Gorchwyl y Bwrdd Cyd Lywodraethu er mwyn sicrhau gwahaniaethau gwahanol rhwng Byrddau Llywodraethu a Sicrwydd.	Ar unwaith	Prif Swyddog Cyllid	02/06/2020 - Trafodwyd ac edrychwyd ar y Cylch Gorchwyl yng nghyfarfod y Bwrdd Cyd Lywodraethu ym mis Mawrth 2020. Diweddarwyd y Cylch Gorchwyl i adlewyrchu'r newidiadau a gytunwyd yn y cyfarfod. (Cylchredwyd y fersiwn ddiweddaraf i CA 03/06/2020). Mae diben ac amcanion y cyfarfod	Wedi cau

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
					yn wahanol a nodweddiadol i'r rai'r Bwrdd Sicrwydd. Cylch Gorchwyl y Bwrdd Sicrwydd (cylchredwyd 03/06/2020). (Dalier sylw, paratowyd Cylch Gorchwyl y Bwrdd Sicrwydd gan ddefnyddio'r hen fformat a bydd yn cael ei fformatio yn unol â'r templed corfforaethol newydd faes o law.) Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	94b	Datganiad Llywodraethu Blynyddol - Prif Uwcharolygydd Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol i ddrafftio swydd ddisgrifiad Llywodraethu a'i rhannu gyda'r Cydbwyllgor Archwilio. Ei gosod ar agenda cyfarfod all-lein mis Mehefin.	Mehefin	Prif Uwcharolygydd Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol	02/06/2020 - Mae Swydd Ddisgrifiad ar gyfer y Swydd Llywodraethu yn cael ei ail-werthuso ar hyn o bryd ac felly ailedrychwyd arno'n ddiweddar. Rhannwyd y swydd ddisgrifiad diweddaraf gydag aelodau'r CA 08/06/2020. Awgrymu cau'r gweithrediad.	Wedi cau
	94d	Datganiad Llywodraethu Blynyddol - Llywodraethu i gael ei olrhain/craffu yng nghyfarfodydd y Bwrdd Cyd Lywodraethu gyda chrynodeb gweithredol yn cael ei greu ar gyfer cyfarfodydd y Cydbwyllgor Archwilio.	Erbyn cyfarfod mis Gorffennaf.	Prif Uwcharolygydd Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol	02/06/20 - Cylch Gorchwyl y Bwrdd Cyd Lywodraethu i ymgorffori'r agwedd hon o'r bwrdd. Diweddariad llywodraethu ar agenda mis Gorffennaf 2020. Awgrymu cau'r gweithrediad.	Wedi cau
	96	Cynllun Archwilio Mewnol - Prif Swyddog Cyllid i sicrhau fod y 14 o ddyddiau Archwilio Mewnol nas defnyddiwyd yn y Flwyddyn Ariannol hon i'w cario drosodd i 2020-2021.	Ar unwaith	Prif Swyddog Cyllid	Mae TIAA wedi rhoi bil am y dyddiau a weithiwyd yn 2019/20. Mae'r gyllideb sy'n weddill wedi cael ei dwyn ymlaen i'r flwyddyn ariannol newydd. Awgrymu cau'r gweithrediad.	Wedi cau
	97	Cynllun Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru - Pennaeth Cyllid ac Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio i drafod fformat cyfarfod mis Mehefin.	Cyn cyfarfod mis Mehefin.	Pennaeth Cyllid ac aelod o'r CA	02/06/20 - trafodwyd a chylchredwyd agenda ddrafft. Awgrymu cau'r gweithrediad.	Wedi cau
	99a	UFA - Adroddiad Blynyddol y Cydbwyllgor Archwilio - Pennaeth Cyllid i roi trosolwg i'r Cydbwyllgor Archwilio ar sut y mesurir Gwerth am	Ar unwaith	Pennaeth Cyllid	02/06/20 - Cynnig eitem a chyflwyniad ar gyfer agenda mis Gorffennaf 2020. Argymell eitem agenda mis Gorffennaf 2020. Awgrymu cau'r gweithrediad.	Wedi cau

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
		Arian o fewn Heddlu Gogledd Cymru.				
	99b	UFA - Blaengynllun Gwaith - Prif Swyddog Cyllid i sicrhau fod Blaengynllun Gwaith i'w gynnwys fel eitem agenda yng nghyfarfodydd y Cydbwyllgor Archwilio yn y dyfodol er mwyn galluogi aelodau'r Cydbwyllgor i adolygu a chipio gweithgarwch yn y dyfodol.	Ar unwaith	Prif Swyddog Cyllid	Ar yr agenda fel eitem sefydlog. Awgrymu cau'r gweithrediad.	Wedi cau
	99c	UFA - Bwrdd Cyd Lywodraethu Cynorthwydd Personol i ddiweddarau gwefan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd i adlewyrchu ailsefydlu'r Bwrdd Cyd Lywodraethu.	Ar unwaith	Cynorthwydd Personol	Gwefan wedi'i diweddarau i adlewyrchu ailsefydlu'r Bwrdd Cyd Lywodraethu. Awgrymu cau'r gweithrediad.	Wedi cau
	94c	Datganiad Llywodraethu Blynyddol - Rheolwr Llywodraethu Dros Dro i rannu Cynllun Dirprwyo drafft i'w rannu gyda'r Cydbwyllgor Archwilio am eu sylwadau.	Ar unwaith	Rheolwr Llywodraethu Dros Dro / Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio	03/06/2020 - mae drafft o Gynllun Dirprwyo'r Prif Gwnstabl wedi'i rannu eisoes 03/06/2020. Mae'r drafft ar hyn o bryd yn amodol ar adolygiad gan Brif Swyddogion yr Heddlu. 26/06/2020 - Rhannwyd drafft gyda'r Cydbwyllgor Archwilio. 30/07/2020 – Aelodau CA i anfon sylwadau ar y ddogfen erbyn diwedd mis Awst a phapur i'w gyflwyno gyda Chyfrifon terfynol ym mis Hydref. 11/08/2020 – Anfonwyd rhagor o e-bost at aelodau CA yn gofyn am sylwadau erbyn diwedd mis Awst. Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	102a	Trosolwg Archwilio Mewnol - Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau / Swyddog Cyllid a Chyllidebau i gynnwys y manylion y gofynnwyd amdanynt ar gyfer yr adroddiad cyfredol ac ar gyfer cyfarfodydd dilynol y Cydbwyllgor Archwilio.	Ar gyfer cyfarfod mis Hydref	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a Swyddog Cyllid a Chyllidebau	Ail-ysgrifennwyd yr adroddiad yn gyflawn gyda newidiadau a'i gyflwyno i aelodau CA ar 31/07/2020. Bydd yr adroddiad diwygiedig yn cael ei chyhoeddi ymhellach ymlaen. Argymhell cau'r gweithrediad hwn.	
	103a	Diweddariad Risgiau - Cynorthwydd Personol i roi adroddiad at wraidd y	Cyfarfod mis Hydref	Cynorthwydd Personol ac	Uwchraddio Gorchymyn a Rheoli wedi'i osod ar yr agenda	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
		mater Uwchraddio Gorchymyn a Rheoli ar agenda'r cyfarfod nesaf ac Arweinydd Risg a Pharhad Busnes i sicrhau bod swyddogion priodol yn bresennol i gyflwyno i'r Cydbwyllgor Archwilio.		Arweinydd Risg a Pharhad Busnes	<p>02/09/20</p> <p>Anfonwyd e-bost at CP i wahoddiad gael ei yrru at y Prif Uwcharolygydd Neill Anderson a Keith Williams i un neu'r ddau fynychu'r CA ar 5 Hydref i gyflwyno 'At Wraidd y Mater' Risg 54 i'r aelodau – Uwchraddio Gorchymyn a Rheoli.</p> <p>03/09/2020</p> <p>Gyrrwyd gwahoddiad i'r ddau. Awgrymu cau'r gweithrediad.</p>	
	103b	Diweddariad Risgiau - Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol DD i egluro geiriad ynghylch cau risgiau ac adrodd yn ôl i'r Cydbwyllgor Archwilio.	Ar unwaith	Prif Uwcharolygydd Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol	<p>02/09/20</p> <p>Mae Cau Risg wedi'i gynnwys yn ein Dogfen Fframwaith Mapio Rheoli Risg a Sicrwydd yr Heddlu fel a ganlyn:</p> <p>Cau risgiau</p> <p><i>Gellir cau risg pan fydd wedi'i reoli i lefel dderbyniol (y lefel darged fel arfer) neu fod yr amgylchiadau o'i gwmpas wedi gwella. Rhaid mynegi sicrwydd (tystiolaeth i gefnogi'r cau) yn y templed risg. Rhaid i'r UDRh neu'r Bwrdd Prosiect sy'n berchen ar y risg gymeradwyo cau a dyrannu gweithrediad i'r Arweinydd Risgiau er mwyn sicrhau y diweddarir ac y disodlir y risg o Gofrestr Risgiau'r Heddlu.</i></p> <p><i>Os oes risgiau agored pan gaeir y prosiect, yna cyfeirir y risgiau at yr UDRh perthnasol ar gyfer penderfyniadau ar reoli'r risg(iau) hwnnw/hynny yn y dyfodol.</i></p> <p>Ni ail-agorir risgiau sydd wedi cau. Os yw risg yn dod yn weithredol eto, rhaid ei gofnodi fel risg newydd.</p> <p>Mae'r Arweinydd Risg a Pharhad Busnes wedi adolygu'r cofnod hwn a'n proses bresennol o Gau Risg a bydd yn sicrhau</p>	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
					<p>bod gan risgiau y gofynnir amdanynt i'w cau sail resymegol gan y Perchennog Risg/Arweinydd sy'n amlwg yn bodloni un neu fwy o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Derbynnir y Risg • Mae'r Risg yn cael ei thrin, h.y. Mae rheolaethau wedi bod yn effeithiol a chyrraedd Lefel targed Risg • Mae'r Risg yn cael ei throsglwyddo • Mae'r Risg yn cael ei diweddu <p>Bydd y Ddogfen Fframwaith Mapio Sicrwydd yn cael ei diweddarau yn unol â hyn.</p> <p>05.10.2020 - Ceisiwyd eglurhad gan y Cadeirydd bod 4 o'r categorïau uchod yn cael eu gweithredu pe caeid y gweithrediad. Cadarnhaodd Pennaeth Cudd-wybodaeth nad nid fel hyn y byddai hi gan eu bod i gyd wedi integreiddio i'r Cynnydd Risg.</p> <p>Awgrymu cau'r gweithrediad.</p>	
	103c	Diweddariad Risgiau – Risg a Pharhad Busnes Gellid cynnwys arwain at ddiweddarau'r llinellau amser gwreiddiol a diwygiedig yn y diweddariad i'r Cydbwyllgor Archwilio nesaf.	Ar unwaith	Arweinydd Risg a Pharhad Busnes	02/09/20 Diweddariad Arweinydd Risg a BC. Mae'r diweddariad gweithredu hwn wedi'i gynnwys yn Adroddiad Uchafbwyntiau Risg CA. Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	105b	Bwrdd Sicrwydd - Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes i rannu camau gweithredu a log penderfyniadau'r Bwrdd Sicrwydd a drafft cyntaf y	Cyn gynted ag y mae ar gael	Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes	Wedi'i ddarparu ar wahân. Cyfarfod diwethaf y Bwrdd Sicrwydd oedd cyfarfod mis Gorffennaf 2020, gan fod cyfarfod mis Awst 2020 wedi'i ganslo oherwydd diffyg mynychwyr. Mae'r camau gweithredu a phenderfyniadau, a'r cylch	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
		Cylch Gorchwyl a adolygwyd gydag aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio.			gorchwyl wedi'u darparu. Y cyfarfod nesaf yw 09/09/20 lle bydd y cylch gorchwyl diwygiedig a ddarperir hefyd yn cael ei gyflwyno. 04.09.2020 – Cylch Gorchwyl a Log Penderfyniadau wedi'i rannu gydag aelodau. Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	105c	Bwrdd Sicrwydd - Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes i ddod â phapur diweddarau i gyfarfod mis Hydref o'r Cydbwyllgor Archwilio.	Cyfarfod mis Hydref	Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes	Ar yr agenda. Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	107a	Cynllun adfer Covid-19 - PGC/DD i roi eglurhad ar sut mae Heddlu Gogledd Cymru yn paratoi ar gyfer ail don y pandemig.	Ar unwaith	Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro	Mae Heddlu Gogledd Cymru yn benodol yn hytrach na'r Fforwm Cydnerth Lleol ehangach yn parhau i fod â strwythur gorchymyn strategol/Tactegol/Gweithredol wedi'i nodi ynghylch ymateb COVID. Y prif risg i HGC yw capasiti os bydd cyfraddau absenoldebau yn dechrau codi. Fel y cyfryw, rydym yn ceisio ymdrin ag absenoldebau drwy wneud ein hadeiladau'n ddiogel, gan wneud y mwyaf o ymbellhau cymdeithasol, pentyrru PPE, rhaglen frechu yn erbyn y FFLIW. Mae gennym dros 800 o'n staff o hyd sy'n gallu ac yn gweithio o gartref yn bennaf. Mae gennym gynlluniau ar draws swyddogaethau hanfodol megis Yr Ystafell Reoli, y Gwasanaeth Plismona Lleol a Drylliau Tanio sy'n caniatáu tynnu gwasanaeth yn ôl a hefyd defnyddio cymorth trawsweithredol. Gallwn barhau i recriwtio drwy ddysgu ar-lein sydd wedi'i ddatblygu. Mae gennym ddata rheoli manwl a oedd yn rhoi cipolwg ar unrhyw dynnu dŵr. Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	108a	Datganiad Cyfrifon - Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau/Prif Swyddog Cyllid/Pennaeth Cyllid i gyfarfod i sicrhau bod holl sylwadau aelodau'r	Ar unwaith	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau / Prif Swyddog Cyllid / Pennaeth Cyllid	17/09/20 – Cyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng CCA, HoF a PSC i ddatblygu dull gweithredu o amgylch Cyflwyniad, Adroddiad Naratif ac AGS i ddatblygu amserlenni ar gyfer cyhoeddi set ddrafft diwygiedig o gyfrifon. Cynyddodd amllder	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
		Cydbwyllgor Archwilio yn cael eu hystyried ar gyfer gweithredu ac adrodd yn ôl i gyd-aelodau'r Pwyllgor Archwilio eu trafod.			y diweddariadau i arweinydd Cyllid cynyddodd a diweddarwyd y dull a adroddwyd i' Bwrdd Cyd-lywodraethu ar 07/09/20, cyfrifon drafft a ddsbarthwyd ar 10/09/20 ac a adolygwyd wedyn ar 15/09/20 gyda chadeirydd Cyllid a'r CA. Adborth pellach ar y 15fed i'w adlewyrchu yn y Datganiad o Gyfrifon a ddsbarthwyd i CA mis Hydref. Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	108b	Datganiad Cyfrifon - Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau/Pennaeth Cyllid i gymryd sylwadau ymaith i geisio'u cynnwys yn y papur.	Ar unwaith	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau / Pennaeth Cyllid	17/09/20 Cyfrifydd rheolaeth ariannol yn cynyddu'r ymateb gyda'r bwriad o gylchredeg cyn CA Mis Hydref. Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	108c	Datganiad Cyfrifon - Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau/Pennaeth Cyllid i ymchwilio i weld a yw'r terfynau a bennwyd ar bryd y mae angen benthyca tymor byr ac adrodd yn ôl i'r Cyd-bwyllgor Archwilio.	Ar unwaith	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau / Pennaeth Cyllid	17/09/20 Cyfrifydd rheolaeth ariannol yn cynyddu'r ymateb gyda'r bwriad o gylchredeg cyn CA Mis Hydref. Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	108d	Datganiad Cyfrifon - Pawb i sicrhau bod papurau'n cael eu dosbarthu i gyd-aelodau'r Pwyllgor Archwilio wythnos cyn y cyfarfod. Eglurodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau fod cais y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cynnwys 100 a mwy o gwestiynau a oedd wedi'u trafod yn systematig. Nid oedd pob un ohonynt yn uniongyrchol berthnasol i Heddlu Gogledd Cymru ond roedd y themâu yn yr ymholiadau yn berthnasol ac yn rhoi rheswm dros oedi i feddwl mewn rhai ardaloedd.	Cyfarfod mis Hydref	Pawb	17/09/20 Diweddariad CCA: Mae newidiadau wedi parhau i ymddangos yn hwyr yn y broses ond mae'r tîm Cyllid yn ceisio sicrhau'r ffenestr fwyaf posibl sydd gan aelodau CA i adolygu'r wybodaeth berthnasol. Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	108e	Datganiad Cyfrifon - Cynorthwydd Personol i roi'r wybodaeth	Cyfarfod mis Hydref	Cynorthwydd Personol	Ymateb y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar agenda cyfarfod mis Hydref CA. Awgrymu cau'r	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
		ddiweddaraf am Ymateb y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Hydref.			gweithrediad.	
	109	Adolygiad Llywodraethu - Prif Uwcharolygydd Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio ar yr Atodiad a phrosiectau/targedau yn y cyfarfod nesaf.	Cyfarfod mis Hydref	Prif Uwcharolygydd Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol	Ar yr agenda. Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	110	Adroddiad Blynyddol y Cydbwyllgor Archwilio - Gofynnodd y Prif Swyddog Cyllid am adlewyrchu meysydd y mae angen mwy o sicrwydd arnynt o fewn y Rhaglen Waith Flynyddol.	Ar unwaith	Prif Swyddog Cyllid	Nodwyd Gwerth am Arian fel maes allweddol lle mae angen mwy o sicrwydd ar y CA ac mae hyn ar y Rhaglen Waith. Mae'r Rhaglen Waith bellach yn cael ei chyflwyno ar sail dreigl ym mhob cyfarfod CA, sy'n ei gwneud yn bosibl ychwanegu mewn meysydd wrth iddynt gael eu nodi. Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	111	Rhaglen Waith ar gyfer 2020/21 - Prif Swyddog Cyllid i ddiweddarau'r Rhaglen Waith gyda diwygiadau/ychwanegiadau wedi'u hawgrymu - Gwerthusiad y CA ac Adroddiad Blynyddol y CA yng nghyfarfod mis Mawrth 2021 a Datganiad Rheoli'r Heddlu i'w symud o fis Rhagfyr 2020 tan fis Mawrth 2021.	Erbyn cyfarfod mis Rhagfyr	Prif Swyddog Cyllid	Diweddarwyd y rhaglen waith hon fel y cytunwyd. Mae'r rhaglen waith bellach yn eitem reolaidd ar agenda'r CA, gan roi cyfle i aelodau a staff y CA gytuno ar ddiwygiadau ac ychwanegiadau yn ôl yr angen. Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	115	Diweddariad Sefydliad - SCHTh - Y Prif Swyddog Cyllid i gynnig y cyllid ychwanegol a dderbyniwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd fel eitem agenda At Wraidd	Erbyn cyfarfod mis Rhagfyr	Prif Swyddog Cyllid	Edrychir ar yr eitem hon yn y cyfarfod i'w gynnal ar 30 Mawrth 2021. 10/12/2020 Symudodd swyddogion yr ymarferiad At Wraidd y Mater i gyfarfod CA mis Mawrth.	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
		y Mater ym mis Rhagfyr.			Gweithrediad wedi cau.	
	118a	Archwilio Mewnol - Swyddog Cyllid a Chyllidebau i rannu canlyniadau'r asesiad ICO ar-lein gydag aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio (John Cunliffe).	Ar unwaith	Swyddog Cyllid a Chyllidebau	Derbyniwyd asesiad a bydd yn cael ei rannu gydag aelodau o'r CA. 10/11/2020 - Crëwyd adroddiadau yn dilyn cwblhau'r pecyn cymorth ICO a dderbyniwyd gan Safonau Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth. Rhannwyd gydag aelodau o'r CA 10/11/2020. Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	118b	Archwilio Mewnol - Swyddog Cyllid a Chyllidebau i rannu CBN Canllawiau Chwythu Chwiban NIAO gyda Chadeirydd newydd y Pwyllgor Moeseg.	Pan mae Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg yn ei swydd	Swyddog Cyllid a Chyllidebau	Gwnaiff y Swyddog Cyllid a Chyllidebau rannu CBN y Canllawiau Chwythu Chwiban pan mae'r Cadeirydd yn ei swydd. Ar 04/11/2020 nid oes neb yn y swydd. 10/11/2020 - Trosglwyddwyd y CBN a chopi o'r rhestr wirio wedi'i chwblhau at Gadeirydd dros dro y Pwyllgor Moeseg a'r CP. Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	118c	Archwilio Mewnol - Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ddiweddarau'r tabl o dan Atodiad 1 gyda Dyddiadau Dychwelyd Diwygiedig ar gyfer argymhellion archwiliad mewnol neilltuol.	Erbyn cyfarfod mis Rhagfyr	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	Sicrhau ei fod wedi'i ddiweddarau cyn y cyfarfod nesaf. 13/11/20 - Diweddarwyd dyddiadau hwyr ar 13/11/20 ac fe'u hadlewyrchir yn adroddiad yr IA. Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	118e	Archwilio Mewnol - Prif Swyddog Cyllid/Cyfarwyddwr Cyllid i gyflwyno Adroddiadau at Wraidd y Mater amlwg i'r Cydbwyllgor Archwilio fel y mae'n briodol - diweddarau'r Rhaglen Waith i adlewyrchu.	Erbyn cyfarfod mis Rhagfyr	Prif Swyddog Cyllid/Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	Rhaglen Waith wedi'i diweddarau bellach i adlewyrchu materion At Wraidd y Mater yn y dyfodol. Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	119a	Diweddariad Risgiau - Swyddog Risg a Pharhad Busnes i roi'r copi diweddaraf o'r Gofrestr Risg lawn i'r Cydbwyllgor Archwilio cyn bob cyfarfod o'r Cydbwyllgor Archwilio.	Cyn cyfarfod mis Rhagfyr	Swyddog Risg a Pharhad Busnes	12/11/20 Mae'r Risg yn manylu dogfennau ar gyfer bob risg ac mae'r gofrestr risgiau wedi'i diweddarau ar y gyriant a rennir a bydd yn cael ei ddiweddarau'n fisol o hyn ymlaen. Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	119b	Diweddariad Risg - Arweinydd Risg y	Cyn cyfarfod	Arweinydd Risg y	Trefnu cyfarfod cyn bob Cydbwyllgor Archwilio	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
		CA, Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes a Swyddog Risg a Pharhad Busnes i gysylltu er mwyn sicrhau y derbynnir mwy o sicrwydd gan y ddogfen yn y dyfodol.	mis Rhagfyr	CA, Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes a Swyddog Risg a Pharhad Busnes	er mwyn sicrhau y derbynnir sicrwydd pellach. 10/12/2020 - Trefnu cyfarfodydd a pharhaus i wella adroddiadau. Gweithrediad wedi cau.	
	119c	Diweddariad Risg - Swyddog Parhad Risg a Busnes i ddiweddarau tablau 1 a 2 a rhoi eglurhad pellach o ran Tabl 3 erbyn y cyfarfod nesaf.	Cyfarfod mis Rhagfyr	Swyddog Risg a Pharhad Busnes	12/11/20 Ceir mwy o eglurhad yn yr adroddiad risgiau ar gyfer CA 10/12/20 Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	120	Diweddariad Gwerth am Arian - Pennaeth Cyllid ac Adnoddau i ymchwilio sut y gellid adlewyrchu gwerth am arian yn well mewn papurau i'r Cydbwyllgor Archwilio yn y dyfodol ac ystyried ei ymgorffori i raglen waith Archwilio Mewnol 2021-22.	Ar unwaith	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	Diweddarau'r Rhaglen Waith i roi sicrwydd yr ystyrir Gwerth am Arian ac eitemau penodol pellach ar yr agenda yn y dyfodol. 10/12/2020 - wedi'i gynnwys bellach yn y rhaglen waith. Adroddiad Archwilio Cymru ar yr agenda a hefyd Adroddiad Gwerth am Arian wedi'i gynnwys yn yr adroddiad At Wraidd y Mater. Mae hyn yn dangos bod Gwerth am Arian ym meddyliau'r swyddogion. Gweithrediad wedi cau.	
	123a	Bwrdd Llywodraethu - Prif Swyddog Cyllid i osod eitem ar agenda'r Bwrdd Llywodraethu nesaf yn adlewyrchu pa Strwythurau Llywodraethu sydd eisoes mewn lle o fewn yr Heddlu.	Cyfarfod Nesaf y Bwrdd Cyd Lywodraethu	Prif Swyddog Cyllid	Mae eitem agenda wedi'i rhoi ar agenda'r Bwrdd Llywodraethu. Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	123b	Bwrdd Llywodraethu - Prif Swyddog Cyllid a Chyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i sicrhau fod cofnodion y Bwrdd Cyd Lywodraethu yn adlewyrchu geiriad priodol o ran y CBNs a gyflwynwyd i'r Bwrdd Cyd Lywodraethu a gynhaliwyd fwyaf diweddar.	Wedi cyfarfod nesaf y Bwrdd Cyd Lywodraethu	Prif Bennaeth Cyllid a Chyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	20/11/20 Cofnodion a adolygwyd gan DFR a'u geiriad wedi'u diwygio a'u cytuno gyda CFO. Awgrymu cau'r gweithrediad.	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
	123c	Adolygiad Llywodraethu Prif Swyddog Cyllid i ymgorffori Adroddiad Cynnydd Adolygiad Llywodraethu i raglen waith y Cydbwyllgor Archwilio.	Cyn cyfarfod mis Rhagfyr	Prif Swyddog Cyllid	Ar yr agenda. Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	124	Rhaglen Waith - Y Prif Swyddog Cyllid i ddiweddarau'r Rhaglen Waith i adlewyrchu newidiadau o'r ddau gyfarfod diwethaf a chreu rhaglen waith ar gyfer Sesiwn Gaeedig y Cydbwyllgor Archwilio.	Cyn cyfarfod mis Rhagfyr	Prif Swyddog Cyllid	Prif Swyddog Cyllid i ddatblygu rhaglen waith ar gyfer sesiwn Gaeedig. Closed session.	
	125a	Unrhyw Fater Arall - Gwaith TGCh - Prif Swyddog Cyllid i gynnwys eitem Cyrchu TGCh o fewn y rhaglen waith.	Cyn cyfarfod mis Rhagfyr	Prif Swyddog Cyllid	20/11/20 - Ar yr agenda at Wraidd y Mater ac ystyriaethau yn y rhaglen waith. Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	125b	Unrhyw Fater Arall - Gwaith TGCh - Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ymgynnull cyfarfod gydag aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio i drafod y cytundeb Cyrchu TGCh.	Cyn gynted â phosibl	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	20/11/20 - Cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer 26/11/20. Awgrymu cau'r gweithrediad.	

Allwedd Talfyridau	
PG	Prif Gwnstabl
PSG	Prif Swyddog Gweithredol (SCHTh)
PSC	Prif Swyddog Cyllid (SCHTh)
CCA	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau (HGC)
Pennaeth Cyllid	Guto Edwards
Pennaeth Caffael	Patricia Strong
HMICFRS	Gwnaeth Arolygaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub (HMICFRS) Ei Mawrhydi
CA	Cydbwyllgor Archwilio
HGC	Uned Fetio Heddlu Gogledd Cymru
SCHTH	Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd
CP	Cynorthwydd Personol i'r PSG a'r PSC

CHTh	Comisiynydd Heddlu a Throsedd
ASP	Adran Safonau Proffesiynol (HGC)
TIAA	Archwilio Mewnol
SAC	Swyddfa Archwilio Cymru

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

Teitl:	Gweithred 105a diweddariad i amserlen arbrofol Parhad Busnes						
Awdur:	James Sutton, Pennaeth Cudd-wybodaeth/Cynllunio Strategol/Sicrwydd						
Diben yr adroddiad:	Rhoi diweddariad i'r Cydbwyllgor Archwilio ar amserlen arbrofol Parhad Busnes.						
Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)	Penderfyniad Trafodaeth Sicrwydd X Gwybodaeth						
Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:	<p>Mae'r canlynol yn rhan o Ddrafft Fframwaith Parhad Busnes. Mae hyn yn parhau fel drafft ac mae'n amodol ar ymgynghoriad pellach. Bydd y Fframwaith Parhad Busnes yn cynnwys holl weithdrefnau parhad busnes a thempledi perthnasol. Mae arweinydd risg y Cydbwyllgor Archwilio wedi'i ymgynghori ac wedi rhoi adborth.</p> <p>Cynllunio Amserlen Cynnal ac Adolygu</p> <p>Cynhelir Adolygiad o'r Cynllun ar ddwy lefel:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adolygiad a sicrwydd ansawdd adrannol • Archwilio mewnol yr Heddlu <p><u>Adolygiad Adrannol</u></p> <p>Mae Arweinwyr Gwasanaeth a Phenathiaid Adrannau yn gyfrifol am gynnal eu Cynllun Parhad Busnes a dylent sicrhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bod Rheoli Parhad Busnes yn eitem sefydlog ar yr agenda ar gyfer Cyfarfodydd Tîm Uwch Reoli. • Cynhwysir Rheoli Parhad busnes ym mhroses cynefino ffurfiol yr Uned Parhad Busnes neu'r Adran. • Dylai Rheoli Parhad Busnes gael ei unioni â'r trefniadau Rheoli Risg. • Yr enwebir Pwynt Cyswllt Parhad Busnes Adrannol. • Bod Pwynt Cyswllt Parhad Busnes yn adolygu cylchrediad y Cynllun Parhad Busnes yn rheolaidd yn ôl yr angen. Dylid cael ei adolygu'n aml fel y cyfarwyddir gan y Bwrdd Sicrwydd ar sail ar gyfradd risg y Cynllun Parhad Busnes. • Anfonir Cynlluniau Parhad Busnes ac adroddiadau Ymarfer eu hanfon ymlaen at Gydlynnydd Parhad Busnes yr Heddlu. <p><u>Amserlen Adolygu</u></p> <p>Cynhelir adolygiadau Cynllun Busnes Parhad ffurfiol adrannol ar amllder ar sail risg (aseswyd gan eu sgorau Dadansoddiad Effaith Busnes), e.e. Difrifol, Uchel, Canolog ac Isel; gyda hyd dilysrwydd ar sail hyd cynyddol cyfatebol.</p> <table border="1" style="width: 100%; margin-top: 10px;"> <thead> <tr> <th style="text-align: left;">Gradd Risg y Cynllun</th> <th style="text-align: left;">Amllder Adolygiad Cynllun</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Difrifol</td> <td>12 mis nesaf</td> </tr> <tr> <td>Uchel</td> <td>18 mis</td> </tr> </tbody> </table>	Gradd Risg y Cynllun	Amllder Adolygiad Cynllun	Difrifol	12 mis nesaf	Uchel	18 mis
Gradd Risg y Cynllun	Amllder Adolygiad Cynllun						
Difrifol	12 mis nesaf						
Uchel	18 mis						

Canolig	2 flynedd
Isel	2 flynedd

Bydd Cadarnhad o Adolygiad sydd wedi digwydd yn derbyn y cynllun diweddaraf gan y Cydlynnydd Parhad Busnes i'w gynnwys yng nghronfa Cynllun Parhad Busnes yr heddlu ar SharePoint.

Archwilio Mewnol

Bydd archwilio mewnol yn digwydd ar sail unswydd gan TIAA, gan gwmni allanol. Byddant yn craffu ac yn adrodd ar Gynlluniau Parhad Busnes adrannol unigol dethol.

Dilysu a Phrofi

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd profi ac ymarfer ein cynlluniau. Mae cynllunio a chofnodion ysgrifenedig ein cynlluniau o werth cyfyngedig heb eu dilysu drwy arbrofi a phrofi straen. Waeth pa mor dda mae Cynllun Parhad Busnes wedi'i lunio a'i feddwl, rhaid ei roi ar waith er mwyn sicrhau ei effeithiolrwydd. Mae ymarfer yn caniatáu gwerthuso'r cynllun, nodi unrhyw fylchau neu wendidau. Mae'n rhoi cyfle i bersonél allweddol ymarfer ac ymgyfarwyddo gyda'r prosesau Parhad Busnes.

Mae'r Heddlu, drwy'r Bwrdd Sicrwydd, wedi cyfarwyddo i **Amserlen Brofi** gael ei rhoi mewn lle. Bydd amlder profi Cynlluniau Busnes Parhad ar sail eu gradd risg (asesir gan eu sgorau Dadansoddiad Effaith Busnes).

Cynhelir Profion wedi'u Blaengynllunio ar ddwy lefel:

- Prawf Byr Adrannol (Gwiriad sydyn)
- Prawf Ymarfer a Chraffu Llawn

Prawf Byr Adrannol (Gwiriad sydyn)

Mae hwn yn fath o brawf y bydd y mwyafrif o adrannau yn gyfarwydd â nhw. Mae gofyn i adrannau unigol gynnal 'taith dywys' bwrdd gwaith gyda nifer o'u staff, cymaint ag sy'n ymarferol yn ddelfrydol. Mae angen cynnal y math hwn o brawf **o leiaf unwaith bob blwyddyn**.

Mae'r ymarfer gwiriad sydyn adrannol o'r Cynllun Parhad Busnes o fudd i ddod â'r Cynllun Parhad Busnes at sylw staff. Bydd yn eu hatgoffa ei fod yn bodoli, lle caiff ei gadw, lle cedwir copïau caled, a pha gamau sy'n angenrheidiol pan weithredir. Mae hefyd yn gyfle i nodi unrhyw newidiadau neu ddiweddariadau angenrheidiol yn y Cynllun Parhad Busnes.

Dylai rheolwyr adran neu Bwyntiau Cyswllt Unigol Parhad Busnes ystyried y staff unigol sy'n cymryd rhan, gan sicrhau nad yw adrannau mwy yn benodol yn defnyddio'r 'un wyneb'au'. Dylent dargedu'r bobl hynny sydd â chyfrifoldebau allweddol, e.e. goruchwylwyr ac arweinwyr tîm. Ni ddylai gymryd dim mwy nag awr, ond gall fod yn llai.

Cadarnheir fod y Prawf Byr wedi digwydd drwy gwblhau'r ffurflen Gwiriad Sydyn a'i chyflwyno i'r Cydlynnydd Parhad Busnes.

Prawf Ymarfer a Chraffu Llawn

Mae'r Prawf Ymarfer a Chraffu Llawn yn un a oruchwylir gan y Cydlynnydd Parhad Busnes sy'n cynnwys ymarfer manylach ac ymwithiol o'r cynllun adrannol. Bydd yn ceisio craffu'r cynllun, yn cwestiynu'r bobl hynny fyddai'n rhan o'i weithrediad, yn herio tybiaethau ac yn nodi bylchau.

Mae canlyniadau'r Prawf Llawn wrth gwblhau adroddiad manylach gyda Gweithrediadau i'w dilyn. Mae hyn yn caniatáu craffu allanol y Cynllun Parhad Busnes a'r cyfle am gynnal trywydd archwilio'r Gweithrediadau.

Bydd gofyn cael Prawf Llawn ar amlder ar sail risg (aseswyd gan eu sgorau Dadansoddiad Effaith Busnes), h.y. Difrifol, Uchel, Canolog ac Isel.

Gall prawf llawn ddigwydd fel hyn:

- Senario ymarfer ffurfiol gyda llinell amser a chyfraniadau.
Gall hon fod yn adran unigol neu'n gyfuniad o adran(nau) arall/eraill sydd â pherthnasedd i'r llall/lleill, yn enwedig os oes cyd-ddibyniaeth.
- Taith dywys craffu gan y Cydlynnydd Parhad Busnes gyda'r Pennaeth Busnes neu' Pwynt Cyswllt Unigol Parhad Busnes. Neu adolygiad cymheiriaid gan reolwr adran amherthnasol arall o bosib, a oruchwylir gan y Cydlynnydd Parhad Busnes.
- Ymarfer ffurfiol ar lefel yr Heddlu – adrannau lluosog.
Gellir targedu grŵp o weithgareddau neu adrannau cyd-ddibynnol, neu gall fod yn thematig o ran y bygythiad, e.e. ymosodiad TG, pandemig, tân, ayyb.

Dilysu Digwyddiad Byw


Mae digwyddiadau byw hefyd yn fath arall o ddilysu Cynlluniau Parhad Busnes, yn rhai hynny sy'n ddigwyddiadau neu'n ymyriadau bywyd go iawn, lle gweithredir y cynllun. Bydd gweithredu'r Cynllun Parhad Busnes yn cyfrannu at brawf llawn, ar yr amod yn eu bod yn mynd drwy ôl-drafodaeth strwythuredig gydag unrhyw wersi a ddysgwyd yn cael eu dal a'u hadrodd yn ffurfiol er budd adolygiad cynllun.

	Amllder Ymarfer	
Gradd Risg y Cynllun	Gwiriad sydyn	Prawf Ymarfer a Chraffu Llawn
Difrifol	Blynyddol	Bob 2 flynedd
Uchel	Blynyddol	Bob 3 blynedd
Canolig	Blynyddol	Bob 4 blynedd
Isel	Blynyddol	Bob 4 blynedd

Rheolir yr Amserlen Brofi ar y cyfan gan y Bwrdd Sicrwydd, gyda Chydlynnydd y Parhad Busnes, gan weithio gyda Phwyntiau Cyswllt Unigol Parhad Busnes.

Dylai bod rhyw fath o arsylwad gwrthrychol bob amser i unrhyw brawf ynghyd â sesiwn ôl-drafod ffurfiol. Dylai staff sy'n cymryd rhan fod yn ymwybodol ei fod yn brawf ar y troeon cyntaf y cânt eu cynnal. Ond efallai y bydd profion dirybudd yn cael eu cynnal unwaith y bydd rhywfaint o ymgyfarwyddo.

	<p>Nid yw'n angenrheidiol profi cynllun cyfan. Weithiau gellir a dylid profi rhannau o gynllun.</p> <p>Gallai ymarfer gynnwys cau systemau neu gau adeiladau. Os gwneir hyn, yna dylai cyfleusterau a swyddogaeth gael eu rhoi ar waith, er mwyn sicrhau nad yw gweithdrefn brofi yn dod yn argyfwng ei hun neu'n diffygio ar ddarparu gwasanaeth.</p> <p>Cyhoeddir adroddiadau Digwyddiadau a Phroffion ar SharePoint gyda mynediad cyffredinol oni bai y gofynnir am gyfyngiadau.</p> <p>Egwyddorion Sylfaenol cynlluniau profi</p> <p>Mae nifer o egwyddorion sylfaenol y glynir atynt wrth greu a gweithredu amserlen profi cynlluniau parhad busnes. Gwneir hyn yn unol â Safon Parhad Busnes ISO22301. Y rhain yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhaid i'r profion fod ar sail senarios priodol sydd wedi'u cynllunio'n iawn gyda nod ac amcanion wedi'u diffinio'n glir. • Wedi'u cymryd dros amser, rhaid iddynt ddilysu holl drefniadau parhad busnes y sefydliad. • Dylai'r rhaglen ymarfer fod yn ddatblygiad o fathau o ymarfer, gyda phob un yn adeiladu ar wersi'r ymarfer blaenorol, gan ddod i benllanw gyda phrawf llawn o'r Cynllun Parhad Busnes. • Dylid lleihau ar yr aflonyddwch i weithrediadau busnes. • Dylid creu adroddiadau ar ôl ymarferiadau. • Dylent gael eu hadolygu a dylid nodi gwelliannau. • Dylent gael eu cynnal mewn egwylion wedi'u cynllunio ac wedi newid sylweddol o fewn y sefydliad neu ei amgylchfyd gweithredol.
Argymhellion:	Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio i nodi'r adroddiad
Effaith Cofrestr Risgiau:	Mae'n cyfrannu at nifer o risgiau gan gynnwys risg y Pandemig.
Goblygiadau Sicrwydd:	Bydd gwelliannau i amserlen brofi'r Heddlu ar gyfer cynlluniau parhad busnes yn rhoi sicrwydd ychwanegol.
Effaith Cydraddoldeb:	Dim
Gwybodaeth wedi'i Heithrio o Ddadleniad:	Nag oes



Cydbwyllgor Archwilio 30.03.21

Diweddariad Sefydliadol y SCHTh

1. Diweddariadau

Cynhaliwyd cyfarfod blaenorol y Cydbwyllgor Archwilio (CA) ar 10 Rhagfyr 2020. Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i'r CA ar faterion SCHTh o bwys ers hynny.

2. Mater o ddadlennu gwybodaeth

Toc cyn cyfarfod mis Rhagfyr 2020 o'r Panel Heddlu a Throsedd, daeth mater difrifol o ddadlennu gwybodaeth i'r amlwg o ran adroddiad y CHTh i'r panel. Mae'r materion hyn wedi'u rheoli a'u hymdrin gyda phwyntiau dysgu priodol yn cael eu hadlewyrchu arnynt. Roeddwn yn teimlo ei bod yn bwysig diweddarau'r CA ar y mater hwn. Ychwanegir atodiad at yr adroddiad hwn yn amlinellu pam y digwyddodd a pha gamau sydd wedi'u cymryd er mwyn sicrhau nad yw'n digwydd eto.

3. Triniaeth â Chymorth Heroin

Bydd y CA yn cofio o ddiweddariadau blaenorol bod y CHTh wedi cynnal cynhadledd ar 2 Tachwedd a gododd ymwybyddiaeth am Driniaeth â Chymorth Heroin a chefnogaeth am gynllun pilot yng Ngogledd Cymru. Trafododd Bwrdd Cynllunio Ardal Gogledd Cymru'r mater hwn yn eu cyfarfod Bwrdd diweddaraf. Cytunodd i gomisiynu astudiaeth dichonolrwydd annibynnol y mae SCHTh yn fodlon i'w gefnogi.

4. Eich Cymuned, Eich Dewis

Caeodd y bleidlais gyhoeddus ar gyfer cynllun 'Eich Cymuned, Eich Dewis' yn ddiweddar. Bydd aelodau o'r CA yn cofio bod y CHTh yn cyfrannu £30,000 o gyllid ac mae Heddlu Gogledd Cymru yn cyfrannu £30,000 o gyllid sydd wedi'u hatafael gan droseddwr drwy'r Ddeddf Enillion Trosedd. Mae grwpiau cymunedol ledled Gogledd Cymru yn ymgeisio am y cyllid.

Hon yw wythfed flwyddyn y cynllun sy'n cael ei drefnu gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned (PACT). Roedd ymateb gwyb i'r cyfnod o bleidleisio cyhoeddus gyda thros 32,000 o bleidleisiau'n cael eu derbyn. Mae'r grwpiau llwyddiannus wedi cael eu hysbysu ac maent wedi cael eu gwahodd i ddiwyddiad cyflwyno rhithiol sydd i'w gynnal yn ystod y prynhawn ar 25 Chwefror

SWYDDOGOL

5. Naloxone

Ar ddechrau 2020, cafodd deuddeg o swyddogion HGC a'r CHTh Arfon Jones eu hyfforddi gan Uwch Nyrs o Uned Camddefnyddio Sylweddau a Lleihau Niwed Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o ran defnyddio Naloxone Trwynol yn ddiogel. Rhannwyd darpariaeth o Naloxone Trwynol i'w defnyddio mewn cynllun peilot yn Sir y Fflint.

Mae'r cynllun peilot yn parhau o hyd a bydd yn cael ei werthuso faes o law. Fodd bynnag rwyf yn falch o allu diweddarau'r CA bod y chwistrell drwynol wedi achub bywydau dau o ddiodefwr gorddos cyffuriau yn Sir y Fflint yn ddiweddar.

Atodiad 1 – Mater o Ddadlennu Gwybodaeth

Cefndir a Chyd-destun

Mae rhaid i'r Prif Gwnstabl roi gwybodaeth i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) am ymchwiliadau i drosedd difrifol. Mae hyn er mwyn ei gynorthwyo i ddwyn y Prif Gwnstabl yn atebol yn unol ag adrannau 2(5) ac 11 (5) Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011. Mae'r Bwrdd Gweithredol Strategol yn cyfarfod bob chwarter. Caiff ei gadeirio gan y CHTh a hwn yw'r fforwm a ddefnyddir i ddwyn y Prif Gwnstabl yn atebol. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn paratoi dogfen cyflawniad yn erbyn meysydd blaenoriaeth y CHTh ar gyfer y cyfarfodydd hyn. Fel arfer, bydd y ddogfen hon yn cynnwys manylion ymgyrchoedd penodol, gan gynnwys manylion troseddwr a dioddefwyr.

Ar sail y wybodaeth a geir o fewn y ddogfen cyflawniad hon, mae'r SCHTh yna'n paratoi adroddiad ar ran y CHTh i hysbysu'r Panel Heddlu a Throsedd am waith y CHTh a SCHTh. Cyhoeddir yr adroddiad hwn (ar wefan SCHTh a gwefannau'r chwe Awdurdod Lleol) saith diwrnod cyn y cyfarfod.

Wrth baratoi'r adroddiad ar gyfer cyfarfod Panel mis Rhagfyr, tynnodd SCHTh enw troseddwr euog ond gwnaeth gynnwys manylion faint o droseddau roedd wedi pledio'n euog iddynt a'r Llys lle cafodd ei ddedfrydu. Roedd y rhain i gyd yn gyhoeddus eisoes. Oherwydd gwall / diofalwch dynol, roedd cyswllt teuluol rhwng y troseddwr a'r dioddefwr hefyd yn parhau o fewn yr adroddiad. I fod yn glir, ni enwyd y dioddefwyr yn yr adroddiad (nid yw'r manylion hyn erioed wedi'u rhannu gyda'r CHTh).

Toc cyn cyfarfod mis Rhagfyr o'r Panel cysylltodd newyddiadurwr lleol â ni. Ar sail y wybodaeth a roddwyd yn adroddiad y CHTh, roeddent yn gallu adnabod y troseddwr ac felly'n gallu gwneud y cyswllt teuluol gyda'r dioddefwyr. Nid oes tystiolaeth i awgrymu bod rhywun arall wedi gallu gwneud y cyswllt hwn cyn y tynnwyd y ddogfen.

Gweithred

- Tynnwyd yr adroddwyd hwn ar unwaith o wefannau SCHTh a Chyngor Conwy (yr Awdurdod sy'n cynnal y Panel). Tynnwyd yr adroddiad o wefannau'r awdurdodau lleol eraill hefyd erbyn y bore canlynol.
- Cyfeiriwyd y mater at Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (SAYH). Ar 5 Chwefror cadarnhaodd SAYH na fyddent yn gweithredu ymhellach ac fe wnaethant gyfeirio'r mater yn ôl at y Panel. Rwyf i fod i gyfarfod gydag aelodau o Is-bwyllgor Cwynion y Panel ym mis Mawrth (dyddiad i'w gadarnhau).
- Gwnaeth SCHTh hunangyfeirio'r mater at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cadarnhau na fyddant yn gweithredu a'u bod "yn deall mai digwyddiad ar ei ben ei hun oedd hwn a ellir ei briodoli i wall dynol i raddau". Fodd bynnag, maent wedi argymhell ein bod yn ymchwilio achosion y digwyddiad hwn er mwyn sicrhau ei bod yn deall pam a sut y digwyddodd a pha

SWYDDOGOL

fesurau y gallwn eu rhoi mewn lle er mwyn ei atal rhag digwydd eto. Yn benodol, maent yn argymhell:-

- Sicrhau bod mesurau gwirio a dilysu priodol mewn lle wrth anfon data personol tu allan i'r sefydliad;
 - Sicrhau bod staff yn ymwybodol o fesurau ataliol presennol ac y dilynir y rhain yn rheolaidd a chyson drwy'r sefydliad drwyddo draw;
 - Parhau i fonitro'r digwyddiad hwn er mwyn sicrhau ei fod yn wir yn ddigwyddiad ar ei ben ei hun ac y gallwn weithredu ar unwaith pan ddarganfyddwn wybodaeth bellach sy'n newid asesiad y Swyddog Comisiynydd Gwybodaeth o'r digwyddiad;
 - Cynnal ymwybyddiaeth am ddiogelu data ymysg staff drwy ddefnyddio nodion atgoffa rheolaidd fel negeseuon e-bost/cylchlythyrau staff, cyfarfodydd tîm mewnwyd staff, posteri ac arbedwyr sgrin ayyb.
- Gwnaeth SCHTh a HGC ysgrifennu ar wahân i'r Barnwr gan eu hysbysu am y toriad data. Ar adeg yr ysgrifennwyd, ni dderbyniwyd ymateb.
 - Daeth Heddlu Gogledd Cymru i'r casgliad, ar ôl ystyried yn ofalus, ei fod er budd gorau y dioddefwyr eu hysbysu o'r dadleniad cyn gynted ag y bo gwyliau'r Nadolig wedi darford a bod yr asiantaethau sy'n gallu cynnig cymorth mewn sefyllfa i wneud hynny.

Camau Nesaf

- Ymdrin â'r pedwar argymhelliad gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac adrodd yn ôl yn unol â hynny.
- Ystyried unrhyw bwyntiau dysgu eraill tu hwnt i'r hai hynny a nodwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.
- Ychwanegu cydymffurfiaeth Diogelu Data i gofrestr risg SCHTh a rhoi adroddiad i'r CA gydag adroddiad sy'n crynhoi'r rheolaethau mewn lle er mwyn lliniaru yn erbyn y risg.

Awdur yr Adroddiad:	Stephen Hughes, Prif Weithredwr
----------------------------	--

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

30 Mawrth 2021

Diweddariad Sefydliadol

Adroddiad gan Bennaeth Cyllid ac Adnoddau, Heddlu Gogledd Cymru

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi Diweddariad Sefydliadol lefel uchel i Heddlu Gogledd Cymru. Amlygir y prif faterion a digwyddiadau sy'n effeithio'r sefydliad am y cyfnod o 20.11.20 tan 03.03.21.

Dadansoddir y materion a'r digwyddiadau rhwng y pedwar categori Cyllid; Pobl, Dysgu ac Arloesedd; Gweithredol a Chyhoeddus / Cymunedol.

2. Cyllid

- Mae manylion sefyllfa cyllid 2021-22 wedi'i gadarnhau bellach gyda Grant Craidd Gwastad ynghyd â £4.3m o gyllid Uplift wedi'i gadarnhau ar 17 Rhagfyr. Yn ei dro gwnaeth y Panel Heddlu a Throsedd gadarnhau cynnydd o £14.94 yn y praesept. Mae hyn yn rhannol wedi'i anelu at liniaru pwysau ariannol sy'n gysylltiedig gyda rhaglen Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys.
- Bydd cyflwyno'r cynlluniau ariannol – sy'n cynnwys £2.9m o arbedion effeithlonrwydd wedi'u gwneud yn iawn gan £2.6m o dwf – i'r deiliaid cyllideb dirprwyol yn awr yn dod y ffocws cyn i'r flwyddyn ariannol newydd ddechrau.
- Ar ben cyllid Covid-19 a gadarnhawyd yn flaenorol, cyhoeddwyd cyllid pellach gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Llywodraeth Cymru yn y drefn honno. Bydd HGC yn derbyn £597k fel ei ddyraniad o gronfa genedlaethol £60m. Ceir manylion ynghylch cyllid pellach yn gysylltiedig â'r gwaith adfer disgwylidiedig.
- Mae'r amcanestyniadau refeniw blwyddyn lawn diweddaraf yn parhau i adlewyrchu tanwariant Refeniw o £1.4m. Mae amcanestyniadau cyfalaf hefyd yn dangos tanwariant sylweddol ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n rhychwantu nifer o gynlluniau.

3. Pobl, Dysgu ac Arloesedd

- Derbyniwyd manylion am Gyfnod 2 Uplift fel rhan o'r setliad cyllid ysgrifenedig a dderbyniwyd ar 17.01.21. Cadarnhaodd hyn ddyraniad o 61 swyddog i HGC (gyda 3 o'r rhain yn benodol mewn perthynas â'r Uned Trosedd Trefnedig Rhanbarthol (ROCU)). Mae dyrannu'r swyddogion hyn wedi bod yn thema allweddol y broses gynllunio flynyddol.
- Yn dilyn hysbysu am absenoldebau o Fae Colwyn yn gysylltiedig â Covid yn CA mis Rhagfyr, mae absenoldebau staff oherwydd Covid-19 wedi parhau i ddilyn y darlun rhanbarthol a chenedlaethol ehangach. Mae argymhellion a dderbyniwyd gan y swyddogion amgylcheddol wedi symud ymlaen.
- Mae opsiynau'r strategaeth Cyrchu TGCh wedi symud ymlaen drwy strwythur Llywodraethu'r heddlu ers y CA diwethaf. Rhoddir diweddariad cryno yn y sesiwn gaeedig.
- Mae'r rhaglen Trawsnewidiad Digidol yn parhau i ddatblygu gan ennill tir ledled nifer o ffrydiau gwaith a chan weithio'n agos gyda rhaglen hyblygrwydd yr Heddlu.
- Yn ystod mis Ionawr, cynhaliwyd diwrnod Creu Gweledigaeth Cymru Gyfan o ran cydweithredu a oedd yn cynnwys holl brif swyddogion. Y canlyniad oedd strategaeth wedi'i diweddarau a blaenoriaethu meysydd allweddol.

4. Gweithredol

- Aeth Cymru i rybudd lefel 4 cyn y Nadolig ac mae'n parhau ar y lefel hwnnw ar adeg yr ysgrifennwyd hwn.

- Wrth i Gymru fynd i'r lefel hon, ymgwymerwyd â chynnydd parhaol i orfodi gan arwain at gynnydd sylweddol mewn lefelau hysbysu am Hysbysiadau Cosb Penodedig.
- Mae lefelau Cyfarpar Diogelu Personol wedi parhau'n gryf (wedi ymadael â'r UE) ar hyn o bryd gyda chyflenwad drwy lwybrau caffael cenedlaethol.
- Mae rheoli absenoldebau gweithredol oherwydd cyfyngiadau ar wyliau blynyddol ac oedi mewn hyfforddiant yn parhau'n feysydd sy'n cael eu rheoli i leihau unrhyw effaith ar gyflawni gwasanaeth.
- Mae'r cyfyngiadau cymdeithasol diweddaraf wedi arwain at lefelau trosedd a digwyddiadau'n lleihau'n gyffredinol yn ystod y cyfnod. Er mae cynllunio ar gyfer dychwelyd at lefelau 'arferol' yn parhau.
- Mae ymateb uniongyrchol wedi dangos gwelliannau mewn amserau presenoldeb yn ystod cyfnodau'r cyfyngiadau symud.
- O ran yr effaith ar Heddlu Gogledd Cymru, aeth trosglwyddo o'r UE heibio heb ddim o bwys gyda Phorthladd Caergybi yn gweld gostyngiad mawr mewn symudiad nwyddau.

5. Cyhoeddus / Cymunedol

- Mae cyfyngiadau cymdeithasol wedi arwain at gynnydd cyfnodol mewn dulliau cysylltu ar-lein. Mae'r defnydd cynnar o wasanaethau Ar-lein Unigol yn parhau i gael eu monitro.
- Mae canlyniadau arolwg dioddefwyr sy'n cynnwys cyfnod y cyfyngiadau symud cyntaf a'r cyfnod atal byr yn amlygu na fu effaith sylweddol ar ansawdd y gwasanaeth a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod hwnnw.
- Mae boddhad dioddefwyr trosedd casineb yn parhau i fod yn faes ffocws er bod lefelau wedi sefydlogi ac yn gwella mewn rhai ardaloedd.
- Fel y crybwyllwyd yn adroddiad SCHTh, yn dilyn dadleniad anawdurdodedig drwy'r Panel Heddlu a Throsedd mae HGC wedi adlewyrchu hefyd ar ei broses rheoli gwybodaeth.

6. Argymhellion

Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio i nodi adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau.




Cydbwyllgor Archwilio

Dyddiad y Cyfarfod: 30 Mawrth 2021

Teitl:	Arolygaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi
Awdur:	Prif Arolygydd David Cust
Diben yr adroddiad:	Diweddariad Gwybodaeth
Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)	<input type="checkbox"/> Penderfyniad <input type="checkbox"/> Trafodaeth <input type="checkbox"/> Sicrwydd <input checked="" type="checkbox"/> X Gwybodaeth
Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:	<p>Mae gan Heddlu Gogledd Cymru nifer o orchwylion yn weddill gan Arolygaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS) sy'n cynnwys canfyddiadau o Adolygiadau Cenedlaethol Thematig ac Arolwg Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu (PEEL).</p> <p>Ar hyn o bryd mae gan HGC 16 Maes i'w Gwella (AFI). Mae 7 yn benodol i HGC o'n harolwg PEEL a daw'r 9 sy'n weddill o adolygiadau thematig cenedlaethol.</p> <p>Mae gan HGC 59 o Argymhellion o adolygiadau thematig cenedlaethol plismona.</p> <p>Torrir hyn i lawr ymhellach i 35 sydd angen gweithredu pellach o fewn yr heddlu er mwyn bodloni. Mae 9 newydd gael eu cwblhau ac yn disgwyl adolygiad gan HMICFRS er mwyn cau.</p> <p>Mae'r 24 sy'n weddill gydag asiantaethau ar hyn o bryd. Mae'r asiantaethau'n cynnwys y Coleg Plismona neu'r Gweithgor Cudd Cenedlaethol (adolygiad heddlu cudd). Ar hyn o bryd nid oes angen dim gan yr heddlu o ran y rhain.</p> <p>O'i gymharu â heddluoedd eraill, mae hyn yn isel ac mae'n gosod Heddlu Gogledd Cymru mewn sefyllfa dda'n genedlaethol.</p> <p>Digwyddodd Arolwg HMICFRS o ran Cudd-wybodaeth Sensitif o bell ar 22 Chwefror. Roedd yr adborth yn gadarnhaol ac rydym yn disgwyl argymhellion thematig.</p> <p>Gwnaeth tîm yr Arolwg Gwarchod Plant adolygu Heddlu Gogledd Cymru ymhellach ar 22 Mawrth er mwyn asesu ein cynnydd tuag at fodloni ein meysydd gwelliant sy'n weddill.</p>
Argymhellion:	Amherthnasol
Effaith cofrestr risgiau:	Amherthnasol
Goblygiadau sicrwydd:	Amherthnasol
Effaith Cydraddoldeb:	Amherthnasol
Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddadleniad:	

Cydbwyllgor Archwilio
Dyddiad y Cyfarfod: 30 Mawrth 2021

Teitl:	Adroddiad Rheoli Mewnol
Awdur:	Anne Matthews, Swyddog Cyllid a Chyllidebau Seb Phillips, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau
Diben yr adroddiad:	Rhoi trosolwg i'r Cydbwyllgor Archwilio am weithgarwch Rheoli Mewnol o fewn yr Heddlu
Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)	<input type="checkbox"/> Penderfyniad <input type="checkbox"/> Trafodaeth <input checked="" type="checkbox"/> Sicrwydd <input type="checkbox"/> Gwybodaeth
Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:	<p>Mae'r adroddiad yn crynhoi gweithgarwch rheoli Mewnol allweddol o ran:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Statws argymhelliad o Archwiliadau TIAA blaenorol • Ymateb rheolwyr o ran Nodiadau Briffio Cleientiaid a Rhybuddion Twyll • Archwiliadau TIAA yn y cyfnod • Nodiadau Briffio Cleientiaid a Rhybuddion Twyll wedi'u rhannu yn y cyfnod • Statws presennol Cynllun Archwilio Mewnol 2020/21 • Cynllun Archwilio Mewnol 2021/2022
Argymhellion:	Dim
Effaith Cofrestr Risg:	Mae canfyddiadau rheoli TIAA, Nodiadau Briffio Cleientiaid a Rhybuddion Twyll wedi cael eu hystyried i'w hadlewyrchu ar Gofrestr Risg yr Heddlu.
Goblygiadau Sicrwydd:	Mae'r adroddiad hwn yn uniongyrchol berthnasol at Weithgarwch Rheoli Mewnol yn rhoi Sicrwydd yn Heddlu Gogledd Cymru.
Effaith Cydraddoldeb:	Dim
Gwybodaeth wedi'i Heithrio o Ddadleniad:	Amherthnasol – Holl gynnwys yn y Sesiwn Agored



**HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE**

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

ADRODDIAD RHEOLI MEWNOL – 30 Mawrth 2021

ADRODDIAD COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD A PHRIF GWNSTABL GOGLEDD CYMRU

1. CYFLWYNIAD

Diben yr adroddiad hwn yw cynnig diweddariad ar Weithgarwch Rheoli Mewnol ers y Cydbwyllgor Archwilio diwethaf. Mae'n seiliedig ar wybodaeth a dderbyniwyd ac a gofnodwyd erbyn 01/03/2021. Y nod yw ychwanegu papurau TIAA a dderbyniwyd gan y CA gyda golwg ar roi sicrwydd ychwanegol.


Disgwylir bod gweithgarwch pellach wedi digwydd erbyn cyfarfod mis Mawrth o'r CA ei hun, a bydd diweddariad ar lafar ar sail eithriadol yn y cyfarfod.

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar weithgarwch rheoli Mewnol allweddol o ran:

- Statws argymhelliad o Archwiliadau TIAA blaenorol
- Ymateb rheolwyr o ran Nodiadau Briffio Cleientiaid a Rhybuddion Twyll
- Archwiliadau TIAA yn y cyfnod
- Nodiadau Briffio Cleientiaid a Rhybuddion Twyll wedi'u rhannu yn y cyfnod
- Statws presennol Cynllun Archwilio Mewnol 2020-21
- Cynllun Archwilio Mewnol 2021-22

2. STATWS ARGYMHELLIAD ARCHWILIADAU TIAA

Amlinellir y sefyllfa ar argymhellion Archwilio Mewnol 2020/21 ar 01/03/2021 isod, gyda'r nifer o argymhellion sydd heb eu cyflawni yn dringo o'r lefelau a welwyd mewn adroddiadau blaenorol oherwydd bod nifer o archwiliadau wedi'u cwblhau'n ddiweddar:



Mae symudiad ers cyfarfod diwethaf y CA fel yr isod:

- 16 argymhelliad heb eu cyflawni newydd wedi'u derbyn gydag un wedi'i weithredu.
- Gweithredwyd a chaewyd 1 argymhelliad heb ei gyflawni yn ystod yr archwiliad dilynol.
- Caewyd 20 argymhelliad a weithredwyd yn ystod yr archwiliad dilynol.
- Caewyd 3 argymhelliad a weithredwyd yn ystod archwiliadau pensiynau/credydwyd.
- Caewyd 2 argymhelliad na ystyriwyd yn briodol bellach yn ystod yr archwiliad dilynol.

Mae'r argymhellion a gariwyd ymlaen yn parhau i gael eu monitro a'u dilyn yn rheolaidd.

Amlinellir dadansoddiad o'r 1 argymhelliad a weithredwyd ar 01/03/2021 isod:

Crynodeb Statws – Gweithredwyd	Categori	Nifer
Gweithredwyd ar neu cyn y dyddiad dyledus gwreiddiol	Cat 1	1
Gweithredwyd ar neu cyn y dyddiad dyledus diwygiedig 1af	Cat 2	0
Gweithredwyd ar neu cyn yr 2il ddyddiad dyledus diwygiedig	Cat 3	0
Gweithredwyd ar neu cyn y 3ydd dyddiad dyledus diwygiedig	Cat 4	0
Gweithredwyd ar neu cyn y 4ydd dyddiad dyledus diwygiedig	Cat 5	0
Gweithredwyd ar neu cyn y 5ed dyddiad dyledus diwygiedig	Cat 6	0
Gweithredwyd ar ôl y dyddiad dyledus gwreiddiol a/neu diwygiedig	Cat 7	0
		1

Amlinellir dadansoddiad o'r 23 argymhelliad heb eu cyflawni ar 01/03/2021 isod hefyd:

Crynodeb Statws – Argymhellion Heb eu cyflawni	Categori	Nifer
Nifer yr Argymhellion – dal ar y dyddiad dyledus gwreiddiol	Cat 1	16
Nifer yr Argymhellion – dyddiad dyledus diwygiedig 1af	Cat 2	3
Nifer yr Argymhellion – 2il ddyddiad dyledus diwygiedig	Cat 3	1
Nifer yr Argymhellion – 3ydd dyddiad dyledus diwygiedig	Cat 4	1
Nifer yr Argymhellion – 4ydd dyddiad dyledus diwygiedig	Cat 5	0

Nifer yr Argymhellion – 5ed dyddiad dyledus diwygiedig	Cat 6	0
Nifer Argymhellion – Hwyr	Cat 7	2
		23

Mae pwyslais ar geisio sicrhau bod y dyddiadau cau cychwynnol a osodwyd yn briodol ac yn realistig (er mwyn sicrhau nad yw diwygio dyddiadau'n digwydd wrth gwrs) wedi bod yn nodwedd argymhellion adolygu diweddar.

Ceir dadansoddiad o'r 23 argymhelliad heb eu cyflawni a sut maent yn cyfateb i bob archwiliad ar Atodiad 1.

Ceir y sefyllfa ddiweddaraf a diweddariad o ran y 23 argymhelliad heb eu cyflawni yn Atodiad 2.

3. YMATEB RHEOLWYR O RAN NODIADAU BRIFFIO CLEIENTIAID (CBNs) a RHYBUDDION TWYLL

Dangosir y statws presennol ar CBNs a Rhybuddion Twyll isod:

Math	Dim cofnod	Angen Gweithredu	Penderfyniadau Agored
CBNs – 19016 i 21002	28	0	0
Rhybuddion Twyll	14	0	0

4. Archwiliadau TIAA yn y cyfnod

Rhodddwyd chwe archwiliad TIAA yn y cyfnod. Mae dau archwiliad yn gwbl berthnasol i gynnwys sydd i'w weld mewn man arall ar agenda'r CA mis Mawrth:

- Sicrwydd Data – Arweiniodd yr archwiliad at ganfod sicrwydd Difrifol a thrafodaeth bellach o ran y camau nesaf sy'n gysylltiedig â gweithred 59h y CA.
- Rheoli Risg – Arweiniodd yr archwiliad hwn at ganfod sicrwydd Rhesymol. Tra mai ond 2 argymhelliad oedd ar Radd Blaenoriaeth lefel 3, mae'r archwiliad yn atgyfnerthu'r angen am ddatblygiad parhaus fframwaith rheoli risg HGC.

Adlewyrchir manylion pellach yr archwiliadau a ymgymerwyd ynghyd a'r canfyddiadau cysylltiedig yn adroddiad SICA TIAA.

5. Nodiadau Briffio Cleientiaid a Rhybuddion Twyll a rannwyd yn y cyfnod

Adolygwyd a datblygwyd Nodiadau Briffio Cleientiaid a Rhybuddion Twyll a dderbyniwyd yn y cyfnod gan y tîm rheoli.

Roedd Trosedd Seiber yn thema yn y Rhybuddion Twyll yn enwedig. Roedd i'w weld yn 3 o'r 4 rhybudd a dderbyniwyd yn y cyfnod. Mae safle HGC o ran Bygythiadau Diogelwch Seiber yn amodol ar adolygiad at wraidd y mater a chyflwyniad yn y CA mis Mawrth.

6. STATWS PRESENNOL CYNLLUN 2020-21

Ceir y manylion o ran cynnydd y cynllun yn adroddiad SICA ond y pwyntiau allweddol i'w hamlygu yma yw:

- Mae'r cynllun ar y ffordd i gael ei gwblhau yn y Flwyddyn Ariannol hon.
- Mae gweithgarwch yr archwiliad yn awr yn dechrau craffu'r prosesau a'r rheolaethau mewn lle o ganlyniad i Covid.

O ran y pwynt bwled olaf byddem yn gofyn i'r CA nodi y gellir cael sicrwydd o'r canfyddiadau hyd yma gyda dim argymhellion newydd yn dod i'r amlwg o ganlyniad i arferion a gyflwynwyd o ganlyniad i Covid.

7. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2021-22

Mae TIAA wedi paratoi cynllun drafft ar gyfer Blwyddyn Ariannol 21-22 ar sail asesiad risg sy'n ystyried ffactorau risg cenedlaethol, diwydiannol ac yn benodol i Ogledd Cymru.

Yn ei dro, mae'r cynllun drafft wedi'i adolygu gan y CCA, PSC, Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Cyllideb. Cynigiwyd nifer o newidiadau gan ystyried y sefyllfa risg bresennol i'r Heddlu. Bydd y risgiau canlynol o gofrestr risg yr Heddlu i gyd yn cael eu cynnwys yn y rhaglen archwiliad. Yn benodol:

Archwiliad TIAA	Gofrestr Risg yr Heddlu	Cofrestr Risg COVID-19
Rheoli Newid	46 Trawsnewidiad Digidol	-
Rheolaeth AD – Strategaeth	47 Gallu Integreiddio Swyddogion Uplift	-
Pensiynau – Bwrdd Pensiynau Cymru Gyfan	71 Pensiynau	-
Pensiynau	71 Pensiynau	-
Diogelu Data	Cydymffurfiaeth Diogelu Data NEWYDD	-
Sicrwydd Data	Cydymffurfiaeth Diogelu Data NEWYDD	-
Rheoli'r Trysorlys	14 Risg o golli arian a fuddsoddwyd ar y farchnad arian	-
Lles a Strategaeth	53 Trawma mechnïol	CV09/20 Iechyd Meddwl – Lles staff sy'n hunan ynysu
Diogelwch Seiber	60 Bygythiadau Diogelwch Seiber	-
Adolygiad Seilwaith	5 Buddsoddiad mewn seilwaith TG	-
Iechyd a Diogelwch	-	CV13/20 Iechyd a Diogelwch Gweithio o'r Cartref
Datblygu Sefydliadol	-	CV10/20 Cyflwyno diwylliant ac ethos ar staff o bell sydd newydd eu recriwtio

Cyflwynir y cynllun drafft o ganlyniad gan TIAA i'r Pwyllgor Archwilio ei ystyried ac i roi adborth.

8. MATERION ERAILL O BWYS

Mae'r adroddiad hwn wedi'i ddiweddarau yn unol â gweithrediad 131a ar y Cofnod Gweithrediadau.

Rydym wedi ystyried adborth a dderbyniwyd gan aelodau'r CA. Rydym wedi diweddarau'r adroddiad hwn i ddangos lle mae argymhellion o ran cofrestr risg yr heddlu a sut maent yn cael eu monitro tra maent yn parhau i fod heb eu cyflawni. Mae felly'n rhoi sicrwydd i aelodau'r CA o ran gweithgarwch Rheoli Mewnol.

Os oes gan aelodau'r CA unrhyw awgrymiadau o ran gwella priodoldeb y fformat a pherthnasedd y cynnwys, ystyrir hyn gan yr awduron.

Atodiad 1

Rhif	ID	Gwasanaeth	Swydd	Blwyddyn	Maes Risg	Math	Monitir argymhellion drwy	Cyswllt â'r Gofrestr Risg
001 002	244671 244672	Archwilio Mewnol	Diogelwch Seiber	2019	Risg Cydymffurfiaeth	Presennol	Bwrdd Cyd Lywodraethu Chwarterol	60 Risg Seiber
003	237156	Archwiliad TGCh	Archwiliad Cydymffurfiaeth RhDDC Rhif PO FN27625	2018	Risg Gweithredol	Presennol	Bwrdd Cyd Lywodraethu Chwarterol	Cydymffurfiaeth Diogelu Data Newydd
004	242655	Archwilio Mewnol	Adolygiad ar y cyd – Hafan Ar-lein Unigol	2019	Risg Gweithredol	Presennol	Bwrdd Cyd Lywodraethu Chwarterol	46 Trawsnewidiad Digidol
005	244459	Archwilio Mewnol	Llywodraethu – Cyfathrebiadau Corfforaethol	2019	Risg dan Gyfarwyddyd	Presennol	Bwrdd Cyd Lywodraethu Chwarterol; Adolygiad Cyflawniad Misol	-
006	247498	Archwilio Mewnol	Treuliau a thaliadau ychwanegol 20/21	2020	Risg dan Gyfarwyddyd	Presennol	Bwrdd Cyd Lywodraethu Chwarterol	-
007	247346	Archwilio Mewnol	Datblygu Sefydliadol 20/21	2020	Risg dan Gyfarwyddyd	Presennol	Bwrdd Cyd Lywodraethu Chwarterol; Bwrdd Sicrwydd.	-
008	247494	Archwilio Mewnol	Gwrth Dwyll 20/21 – Caffael Atal Twyll	2020	Risg dan Gyfarwyddyd	Presennol	Bwrdd Cyd Lywodraethu Chwarterol	-
009	248258	Archwilio Mewnol	Sicrwydd Data 20/21	2020	Risg dan Gyfarwyddyd	Newydd	Bwrdd Cyd Lywodraethu Chwarterol; IS&C	Cydymffurfiaeth Diogelu Data Newydd
010 011	248586 248588	Archwilio Mewnol	Rheoli Risg ar y Cyd 20/21 – Lliniaru'r Rheolaethau	2020	Risg dan Gyfarwyddyd	Newydd	Bwrdd Cyd Lywodraethu Chwarterol; Cyfarfodydd adrannol	-
012 013 014 015 016 017 018	249421 249422 249423 249424 249425 249426 249427	Archwiliad TGCh	Adolygiad Prosiect ar y Cyd 20/21 – Office 365	2020	Risg dan Gyfarwyddyd	Newydd	Bwrdd Cyd Lywodraethu Chwarterol; Bwrdd Trawsnewidiad Digidol	46 Rhaglen Trawsnewidiad Digidol
019 020 021 022 023	249469 249470 249471 249472 249473	Archwilio Mewnol	Rheolaeth y Fflyd 20/21 – Defnyddio Tanwydd	2020	Risg dan Gyfarwyddyd	Newydd	Bwrdd Cyd Lywodraethu Chwarterol; Adroddiadau targed misol i gyfarfodydd Timau Uwch Reoli; Grŵp defnyddwyr Cerbydau chwarterol sy'n adrodd i gyfarfodydd Bwrdd Adnoddau Cyllid Strategol chwarterol.	-

Atodiad 2 – Ymateb Diweddaraf Rheolwyr o ran Argymhellion Heb eu Cyflawni

Rhif	ID	Swydd	Argymhelliaid	Blaenoriaeth	Swyddog Cyfrifol	Dyddiad Dyledus	Dyddiad Dyledus Diwygiedig	Ymateb Diweddaraf
001	244671	Diogelwch Seiber	Gweithredu swyddogaeth canfod ymyrraeth a gwarchod ymyrraeth.	2	Swyddfa Rheoli Rhaglen PMO HGC/TGCh HGC	31/07/2021	31/03/2022	<p>12/11/2020 – Wedi derbyn diweddariad gan Reolwr y Rhaglen</p> <p>Oherwydd oedi Covid-19, mae hyn wedi effeithio ar ein parodrydd i gychwyn y Cynllun Peilot Technoleg sydd wedi effeithio ar gynnydd. Mae dyddiadau diwygiedig yn awr mewn lle:</p> <p>Cynllun Peilot Technoleg i'w gwblhau erbyn diwedd mis Tachwedd 2020</p> <p>Cynllun Peilot Busnes i'w gwblhau ym mis Chwefror 2021</p> <p>Cyflwyniad llawn, dros y 12 mis nesaf. Disgwylir y dyddiad cwblhau i fod ym misoedd Chwefror/Mawrth 2022</p>
002	244672	Diogelwch Seiber	Swit Microsoft Enterprise Mobility and Security ar gael i Heddlu Gogledd Cymru drwy'r Rhaglen Alluogi Genedlaethol i ddwyn pwysau er mwyn gwella diogelwch seiber.	2	Swyddfa Rheoli Rhaglen PMO HGC/TGCh HGC	31/07/2021	31/03/2022	<p>02/02/2021 – Wedi derbyn diweddariad gan Reolwr y Rhaglen</p> <p>Mae llinellau amser ein lleoli wedi'u cadarnhau bellach. Ond bydd ein penderfyniad i ddefnyddio Microsoft Enterprise Mobility and Security Suite yn dibynnu ar Lasbrint yr NEP a'n gofynion mewnol ni ein hunain am hysbysu gyda Lumension. Fe wnawn ni adolygu hyn wrth i ni weithredu'r NEP dros y ddwy flynedd nesaf tan 2022.</p>
003	237156	Archwiliad Cydymffurfiaeth RhDDC Rhif PO FN27625	Cyflwyno proses adolygu i leihau'r risgiau ynghylch cadw data sensitif i yriannau rhwydwaith.	3	Rheolwr Rhaglen, Swyddfa'r Rhaglen Gorfforaethol	31/03/2020	31/03/2022	<p>02/02/2021 – Wedi derbyn diweddariad gan Reolwr y Rhaglen</p> <p>Dim ond yn dechrau deall rheolaethau RhDDC a sut y gwnawn lanhau a rheoli data o Yriannau Grŵp i Strwythur Sharepoint newydd yr NEP gyda rheolaethau ac amddiffyniadau awtomatig priodol. Cynnig model gyda Phwynt Cyswllt Unigol a fydd yn gyfrifol am ddata o fewn eu hadran / maes busnes ac a fydd yn derbyn cyngor ar sut orau i reoli a chynnal RhDDC / MOPI ac yn cael ffenest amser orfodol ar gyfer mudo data i ffwrdd o Yriannau Data. Bydd y broses hon yn cael ei chynorthwyo fel rhan o drosglwyddiad strwythuredig ar gyfer bob maes busnes.</p>
004	242655	Adolygiad ar y cyd – Hafan Ar-lein Unigol	Dadansoddiad manteision manwl i'w gwblhau gan bob heddlu unwaith mae'r Hafan Ar-lein Unigol wedi'i gweithredu'n llawn i benderfynu ar y manteision sy'n codi o ddefnyddio Hafan Ar-lein Unigol.	2	Rheolwr Prosiect	30/10/2020	28/02/2021	<p>01/03/2021 – Diweddariad gan Reolwr y Prosiect</p> <p>Mae Dadansoddwyr Busnes yr Heddlu'n casglu data ar hyn o bryd. Mae bob heddlu'n gwneud hyn ar wahân ac nid oes elfen gydweithredol ar waith.</p> <p>Mae gen i gyfarfod gyda'r Dadansoddwyr Busnes ar 02/03/2021 i drafod cynnydd. Byddwn yn gweld os oes unrhyw dueddiadau neu fanteision y gallwn eu hamlygu ar hyn o bryd. Byddwn hefyd yn gweld os oes angen casglu data ychwanegol i'w ddadansoddi. Os felly, byddai angen ymestyn y dyddiad dyledus.</p>

Rhif	ID	Swydd	Argymhelliad	Blaenoriaeth	Swyddog Cyrifol	Dyddiad Dyledus	Dyddiad Dyledus Diwygiedig	Ymateb Diweddaraf
005	244459	Llywodraethu – Cyfathrebiadau Corfforaethol	Creu Adroddiad Blynyddol Ymgysylltu fel y cynlluniwyd.	2	PSG, SCHTH	30/09/2021		23/02/2021 – Diweddariad gan y Prif Swyddog Gweithredol Mae argymhelliad yn parhau ar y gweill i'w gwblhau erbyn y dyddiad gwreiddiol.
006	247498	Treuliau a thaliadau ychwanegol 20/21	Anfon nodyn atgoffa at staff a rheolwyr llinell fod angen cyflwyno derbynneb gyda hawliadau treuliau. Nid yw hawliadau i'w cymeradwyo heb dderbynneb neu fod eglurhad rhesymol pam nad oes derbynneb i gefnogi'r gwariant.	2	Rheolwr Cyflogres a Phensiynau	31/03/2021		23/02/2021 – Wedi derbyn diweddariad gan Reolwr CG Rydym wedi diweddarau ffurflen dreuliau Hunanwasanaeth AD sydd rŵan yn rhoi neges glir i'r hawlydd ar eu cyfrifoldebau o ran y dderbynneb. Mae'r Rheolwr Cyflogres a Phensiynau'n gweithio ar yr angen i wybod pa un fydd yn cael ei anfon allan cyn diwedd y flwyddyn ariannol.
007	247346	Datblygu Sefydliadol 20/21	Adolygu'r Polisi Dysgu a Datblygu a'i ddiweddarau yn ôl yr angen.	3	Pennaeth Hyfforddiant a Datblygiad	31/01/2021	31/03/2021	23/02/2021 – Diweddariad gan Bennaeth Hyfforddiant a Datblygiad Mae cwblhau'r gwaith yn mynd rhagddo erbyn diwedd mis Mawrth. Mae'r Polisi Dysgu a Datblygu wedi'i adolygu a'i ddiweddarau ar y cyd â'r gweithdrefnau cysylltiedig am gymorth ariannol, safonau asesu a sicrwydd ansawdd. Mae'r cynnwys diweddaraf wedi'i ailfformatio i unioni â Fframwaith Sicrwydd yr Heddlu. Mae wedi'i drefnu i gael ei osod yn y Bwrdd Sicrwydd ar 16 Mawrth. Mae hefyd wedi'i gylchredeg i Unsain a'r Ffederasiwn am adborth. Byddaf yn cyflwyno diweddariad pellach ar ôl 16 Mawrth.
008	247494	Gwrth Dwyll 20/21 – Caffael Atal Twyll	Llofnodi Datganiad Caethwasaeth Fodern a Masnachu Pobl yr Heddlu fel ei fod wedi'i adolygu a'i ddiweddarau'n flynyddol a'i ddangos ar y wefan.	3	Datblygwr Cynnwys Digidol / Rheolwr y Prosiect	30/11/2020	31/03/2021	08/02/2021 Wedi derbyn diweddariad gan y Rheolwr Prosiect Mae Rheolwr y Wefan i fod i ddychwelyd i'r wefan yn fuan a byddwn yn gallu cynorthwyo'r Datblygwr Cynnwys Digidol. Dyddiad gweithredu argymhelliad wedi'i ymestyn i 31/03/2021
009	248258	Sicrwydd Data 20/21	Adolygu'r Weithdrefn Diogelwch Gwybodaeth / Toriadau Data Personol a'i ddiweddarau yn ôl yr angen.	3	Pennaeth IS&C	31/03/2021		23/02/2021 Wedi derbyn diweddariad gan Bennaeth Safonau Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth A ydy'r ddogfen wedi'i hadolygu gan Safonau Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth ac fe gododd rai ymholiadau ynghylch gwaredu rhai eitemau data'n ddiogel – a oes unrhyw newidiadau? Anfonwyd yr ymholiadau hyn at yr Adran Gyfleusterau (rheolwr amgylcheddol a chadwraeth) cyn y Nadolig, gydag e-bost dilynol yr wythnos ddiwethaf. Unwaith y derbynir yr ymateb hwn, fe ddiweddarir y ddogfen.

Rhif	ID	Swydd	Argymhelliad	Blaenoriaeth	Swyddog Cyfrifol	Dyddiad Dyledus	Dyddiad Dyledus Diwygiedig	Ymateb Diweddaraf
010	248586	Rheoli Risg Cydweithredol 20/21 – Lliniaru'r Rheolaethau	Mae'r Heddlu'n cytuno ac yn dilyn un broses Rheoli Risg sydd wedi'i manylu o fewn fframwaith/dogfen bolisi ledled yr Heddlu. Mae hyn i gynnwys y Gofrestr Risg Covid-19 sydd ar wahân a'r broses rheoli.	3	Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes/Sicrwydd	31/03/2021		01/03/2021 – Wedi derbyn diweddariad gan yr Arweinydd Llywodraethu a Pholisi Gwaith ar y gweill i adolygu'r broses rheoli risg rheoli prosiectau gyda golwg ar ddod â hi yn unol â phroses rheoli risg yr Heddlu.
011	248588	Rheoli Risg Cydweithredol 20/21 – Lliniaru'r Rheolaethau	Ymgymryd â chyfarfod rheolaidd (o leiaf yn chwarterol) rhwng yr holl gynrychiolwyr risg (rheolwyr) er mwyn trafod risg a rheoli risg ledled yr Heddluoedd a symud tuag at ymdriniaeth fwy cyson.	2	Holl Arweinwyr Risg yr Heddlu	31/03/2021		01/03/2021 – Wedi derbyn diweddariad gan yr Arweinydd Llywodraethu a Pholisi Yn y broses o gytuno ar ddyddiad gyda HDC, Heddlu Dyfed Powys a Gwent, gyda'r gobaith y trefnir y cyfarfod cyntaf ym mis Ebrill.
012	249421	Adolygiad Prosiect ar y Cyd 20/21 – Office 365	Pennu a dogfennu mynediad ar sail rôl i bob cymhwysiad i bob swyddog ac aelod o staff yn y tri Heddlu. Mae bob maes busnes i bennu'r cymwysiadau a'r lefelau mynediad angenrheidiol ar gyfer bob rôl.	2	Uwcharolygydd, UDRh, Gwasanaethau Corfforaethol	31/03/2022		Ymateb Rheolwyr: Gall datrysiaid IAM roi mynediad ar sail rôl i geisiadau sy'n defnyddio'r Cyfarwyddiadur Gweithredol i ganiatáu mynediad. Ni ellir cynnwys unrhyw gymhwysiad nad yw'n defnyddio'r dull hwn yn y datrysiaid awtomatig ond a ellir gael ei ddogfennu ar gyfer y broses. Wedi cyflwyno'r cynnyrch hyfwr sylfaenol sy'n angenrheidiol gan yr NEP, a fydd yn rhoi mynediad sylfaenol ar sail rôl, bydd yr ymdriniaeth yn nodi a datblygu'r rolau mynediad hyn fel rhan o gyflwyno'r tîm cynyddol ar gyfer MS365. Bydd yr ymdriniaeth hon yn gweld nodi rolau o fewn bob tîm, a ellir eu cynnwys mewn rolau mynediad presennol neu'n cynnwys creu un newydd.
013	249422	Adolygiad Prosiect ar y Cyd 20/21 – Office 365	Darparu cymorth ychwanegol pan mae swyddogion sy'n ymuno ac sydd ynghlwm ag unedau cydweithredol ag sydd efallai â mynediad at gymwysiadau nad ydynt eisoes wedi'u profi am gysondeb gyda Windows 10.	2	Uwcharolygydd, UDRh, Gwasanaethau Corfforaethol	31/03/2022		Ymateb Rheolwyr: Yn gynyddedig yn yr ymdriniaeth i gyflwyno MS365 a'r tîm dylunio NEP yn gynyddraddol yw cyfnod paratoi. Nodir Pwynt Cyswllt Unigol o fewn tîm i gael ei fudo gyntaf a phrofi'r holl gymwysiadau er mwyn sicrhau nad oes problemau.
014	249423	Adolygiad Prosiect ar y Cyd 20/21 – Office 365	Gweithredu prosesau er mwyn sicrhau bod newidiadau dylunio'r Rhaglen Alluogi Genedlaethol yn y dyfodol yn gallu cael eu profi a'u gweithredu'n llawn o dan fusnes fel arfer.	2	Uwcharolygydd, UDRh, Gwasanaethau Corfforaethol	31/03/2022		Ymateb Rheolwyr: Mae perchnogaeth a phrosesau cynnal a chadw a chymorth o dan adolygiad ar hyn o bryd gyda'r nod i'r holl brosesau fod mewn lle erbyn mis Ebrill 2021. Bydd rheoli newidiadau dylunio yn cyd-fynd â phrosesau rheoli newid busnes presennol.

Rhif	ID	Swydd	Argymhelliad	Blaenoriaeth	Swyddog Cyfrifol	Dyddiad Dyledus	Dyddiad Dyledus Diwygiedig	Ymateb Diweddaraf
015	249424	Adolygiad Prosiect ar y Cyd 20/21 – Office 365	Gweithredu fframwaith llywodraethu gwybodaeth priodol er mwyn rheoli defnyddio apiau grym.	2	Uwcharolygydd, UDRh, Gwasanaethau Corfforaethol	31/03/2022		Ymateb Rheolwyr: Datblygwr gweithdrefn Systems Operating (SysOps) ar gyfer cymwysiadau MS365 gan gynnwys PowerApps. Mae rheolau busnes yn cael eu sefydlu ar hyn o bryd ar gyfer bob cymhwysiad. Mae Asesiad Effaith Diogelu Data (DPIA) sy'n gofalu am y datrysiad NEP wedi'i greu. Adolygir yr angen am DPIA penodol ar gyfer PowerApps wrth greu SysOps.
016	249425	Adolygiad Prosiect ar y Cyd 20/21 – Office 365	Ymgymryd ag adolygiad gwireddu manteision 12 i 18 mis ar ôl cwblhau prosiect Office 365 yr NEP.	2	Uwcharolygydd, UDRh, Gwasanaethau Corfforaethol	30/09/2023		Ymateb Rheolwyr: I'w gynnal gan y Swyddfa Rheoli Prosiect
017	249426	Adolygiad Prosiect ar y Cyd 20/21 – Office 365	Adolygu'r cofrestrau asedau gwybodaeth yn y tri Heddlu a'u diweddarau wedi gweithredu Office 365 a SharePoint.	3	Uwcharolygydd, UDRh, Gwasanaethau Corfforaethol	30/09/2022		Ymateb Rheolwyr: Mae Perchnogaeth Asedau Gwybodaeth o dan adolygiad fel rhan o'n gwaith Rheolau Busnes. Cwblheir creu SysOps cyn dechrau'r cyflwyno llawn ym mis Ebrill 2021. Bydd y cyflwyno yn gynyddrannol gyda gwasanaethau yn cymryd perchnogaeth am eu data a gedwir ar gymwysiadau Microsoft wrth iddynt ymuno.
018	249427	Adolygiad Prosiect ar y Cyd 20/21 – Office 365	Adolygir y rhestr o gymwysiadau a brofir ar Windows 10 gan Heddluoedd Gwent a De Cymru a manylion yr heriau technegol a wynebwyd a'r datrysiadau a weithredwyd gan y ddau Heddlu gan Heddlu Gogledd Cymru. Mae hyn gan y gall y dogfennau hyn fod o ddefnydd i nodi problemau posibl ac i'r Heddluoedd eraill eu rhoi ar wait.	2	Uwcharolygydd, UDRh, Gwasanaethau Corfforaethol	31/01/2021		01/03/2021 – Derbyniwyd diweddariad gan Reolwr y Prosiect Mae rhywfaint o wybodaeth wedi dod drwyddo ond mae'n anghyflawn. Cysylltwyd â Heddlu De Cymru eto.
019	249469	Rheolaeth y Fflyd 20/21 – Tanwydd	Neges i gael ei chyhoeddi i hysbysu holl Swyddogion a Staff yr Heddlu y dylid ond prynu Diesel Premiwm a thanwydd Di-blwm Premiwm a Di-blwm Uwch os yw'n gwbl angenrheidiol yn weithredol neu fe fydd yn cael ei wahardd gan Reolwyr y Fflyd. Mae hyn er mwyn sicrhau y cedwir gwerth am arian ac i arddangos defnydd effeithiol o arian cyhoeddus.	2	Y Rheolwr Fflyd	01/05/2021		Ymateb Rheolwyr: Nid yw HGC yn berchen ar unrhyw gerbydau sydd angen Tanwydd Premiwm. Mae defnydd presennol tanwydd Premiwm ar gyfartaledd yn 1% o gyfanswm y tanwydd a brynir. Mae tîm Gweinyddol y Fflyd yn herio defnyddio Tanwydd Premiwm rŵan, ac mae enghreifftiau lle mae rhesymau dilys am ddefnyddio tanwydd premiwm. (E.e. nid oedd diesel safonol ar gael). Rwyf yn credu fodd bynnag bod unigolion penodol a all fod yn defnyddio tanwydd premiwm yn aml (gan nodi ein bod ond yn cofnodi data o ran y cerbyd). Gwnaiff Rheolwr y Fflyd baratoi neges i atgoffa holl staff i beidio defnyddio tanwydd premiwm fel yn ol yr argymhelliad. Gwnânt hefyd anfon adroddiad misol at bob UDRh ynghylch defnyddio tanwydd premiwm. Bydd tîm gweinyddol y Fflyd yn parhau i herio bob trafodiad. Bydd tîm y Fflyd hefyd yn cyhoeddi'r data hwn fel Dangosydd Cyflawniad Allweddol (KPI) lefel uchel yn y Grŵp Defnyddwyr Cerbydau yn chwarterol, fel y gellir craffu tueddiadau a phatrymau.

Rhif	ID	Swydd	Argymhelliad	Blaenoriaeth	Swyddog Cyfrifol	Dyddiad Dyledus	Dyddiad Dyledus Diwygiedig	Ymateb Diweddaraf
020	249470	Rheolaeth y Fflyd 20/21 – Tanwydd	Ymgymerir ag adolygiad o brisiau 'Safle Disgownt Tanwydd Diesel'. Os yw'n berthnasol, atgoffir holl ddefnyddwyr cerbydau am yr angen i sicrhau bod holl Gardiau Allstar yn cael eu taro yn hytrach na rhoi pin ar gyfer bob trafodiad i gyflawni'r pris Disgownt am Danwydd Diesel.	2	Y Rheolwr Fflyd	01/05/2021		Ymateb Rheolwyr: Mae tîm y Fflyd wedi bod yn targedu adrannau unigol er mwyn annog prynu tanwydd o safleoedd diesel lle ceir disgownt ac o safleoedd lle ceir cost is. Mae posteri wedi cael eu gosod hefyd ym mhob gorsaf sy'n cael eu diweddarau ar hyn o bryd. Bydd tîm y Fflyd yn darparu data misol ar gyfer bob UDRh a wnaiff grynhoi os nad yw eu cerbydau wedi defnyddio'r fenter diesel gyda disgownt neu lle gellid fod wedi defnyddio gorsaf danwydd arall. Bydd tîm y Fflyd hefyd yn cyhoeddi'r data hwn fel Dangosydd Cyflawniad Allweddol (KPI) lefel uchel yn y Grŵp Defnyddwyr Cerbydau yn chwarterol, fel y gellir craffu tueddiadau a phatrymau. Dylid nodi nad yw rhai gorsafoedd Diesel lle ceir disgownt ar gael fel gwasanaeth dydd a nos.
021	249471	Rheolaeth y Fflyd 20/21 – Tanwydd	Diwygio Polisi Defnydd yr Heddlu o Gerbyd i gynnwys y datganiadau a amlinellir yng nghorff yr adroddiad er mwyn gwneud y gweithdrefnau'n fwy cadarn.	3	Y Rheolwr Fflyd	01/04/2021		Ymateb Rheolwyr: Mae Rheolwr y Fflyd yn adolygu'r Polisi ar hyn o bryd, a bydd yn cynnwys yr argymhelliad hwn.
022	249472	Rheolaeth y Fflyd 20/21 – Tanwydd	Nodyn atgoffa i gael ei anfon at holl ddefnyddwyr cerbydau'r Heddlu bod rhaid darparu darlleniadau Odometr i staff gorsafoedd petrol wrth ddefnyddio cerdyn tanwydd Allstar. Mae angen i uwch weithiwr priodol anfon y nodyn atgoffa hwn er mwyn rhoi iddo gael mwy o sylw. Mae angen ystyried y posibilrwydd o enwi adrannau tramgwyddus.	3	Y Rheolwr Fflyd	01/05/2021		Ymateb Rheolwyr: Rwyf yn credu ei bod yn anochel y bydd rhai gwallau yn y data, gan fod y gyrrwr yn darparu gwybodaeth am filltiroedd ar lafar ac yna mae derbynnydd arian yn cofnodi'r data hwn i'r system. Mae gan dîm Gweinyddol y Fflyd broses i lanhau'r data a geir gan All-star er mwyn sicrhau bod ein cofnodion cerbydau a thrafodion yn gywir. Gan y defnyddir y data hwn i benderfynu cynnodau gwasanaeth mae'n amlwg bod nifer fach o unigolion sy'n dewis peidio rhoi milltiroedd wrth brynu tanwydd. Gwnaiff Rheolwr y Fflyd baratoi neges at bob UDRh, gan amlinellu'r angen i lenwi'r data, a chynnwys eithriadau mewn adroddiad misol. Gwnaiff tîm gweinyddol y Fflyd herio hefyd unrhyw drafodion lle mae'r milltiroedd wedi'u rhoi fel 0.
023	249473	Rheolaeth y Fflyd 20/21 – Tanwydd	Atgoffa holl Swyddogion ei bod ond yn dderbyniol cael tanwydd mewn gwasanaethau nad ydynt yn 'Safleoedd Tanwydd Diesel Disgownt' yn ystod gofynion gweithredol ac mai prin iawn y dylid gwneud hyn.	3	Y Rheolwr Fflyd	01/05/2021		Ymateb Rheolwyr: Mae tîm y Fflyd wedi bod yn targedu adrannau unigol er mwyn annog prynu tanwydd o safleoedd diesel lle ceir disgownt ac o safleoedd lle ceir cost is. Mae posteri wedi cael eu gosod hefyd ym mhob gorsaf sy'n cael eu diweddarau ar hyn o bryd. Bydd tîm y Fflyd yn darparu data misol ar gyfer bob UDRh a wnaiff grynhoi os nad yw eu cerbydau wedi defnyddio'r fenter diesel gyda disgownt neu lle gellid fod wedi defnyddio gorsaf danwydd arall. Bydd tîm y Fflyd hefyd yn cyhoeddi'r data hwn fel Dangosydd Cyflawniad Allweddol (KPI) lefel uchel yn y Grŵp Defnyddwyr Cerbydau yn chwarterol, fel y gellir craffu tueddiadau a phatrymau. Dylid nodi nad yw rhai gorsafoedd Diesel lle ceir disgownt ar gael fel gwasanaeth dydd a nos.

Atodiad 3 – Categori Argymhellion

Mae "**Blaenoriaeth**" yn cyfeirio at yr amserlen gweithredu i'w mabwysiadu:

Disgrifiad	Blaenoriaeth
AR FRYS – Mater Rheoli Sylfaenol y dylid gweithredu ar unwaith.	1
PWYSIG – Mater rheoli y dylid gweithredu arno ar y cyfle cyntaf.	2
RHEOLAIDD – Mater rheoli sylfaenol y dylid gweithredu arno.	3

Mae "**Categori**" yn cyfeirio at ddyddiadau diwygiadau fel yr isod:

Disgrifiad	Categori
Argymhellion – dal ar y dyddiad dyledus gwreiddiol	1
Argymhellion – dyddiad dyledus diwygiedig 1af	2
Argymhellion – 2il ddyddiad dyledus diwygiedig	3
Argymhellion – 3ydd dyddiad dyledus diwygiedig	4
Argymhellion – 4ydd dyddiad dyledus diwygiedig	5
Argymhellion – 5ed dyddiad dyledus diwygiedig	6
Argymhellion – Hwyr	7

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru

Adroddiad Sicrwydd Rheoliadau Mewnol Cryno (SICA)

2020/21

Mawrth 2021

Adolygiad Sicrwydd Rheoliadau Mewnol Cryno (SICA)


Cyflwyniad

- Mae'r adroddiad rheolaeth sicrwydd cryno hwn yn cynnig diweddariad i'r Cydbwyllgor Archwilio ar faterion yn ymwneud â Llywodraethu, Risg a Rheolaeth Fewnol ac ar gynnydd ein gwaith fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru ar 3 Mawrth 2021. Cafodd y cyfnod sy'n cael sylw gan yr adroddiad sicrwydd rheolaethau cryno ei effeithio'n sylweddol gan bandemig COVID 19.

Llywodraethu sy'n dod i'r amlwg, Risg a Materion yn Ymwneud â Rheoli Mewnol

- COVID 19 yw'r digwyddiad mwyaf sylweddol diweddaraf i gael effaith strategol a gweithredol ar y trefniadau Llywodraethu, Risg a Rheolaeth Fewnol cyfoes. Mae'n amlwg bod a bydd nifer o gyfnodau mewn perthynas â symud drwy'r pandemig. Gall y darlun lleol a chenedlaethol waethygu ynghyd â gwella. Mae gan bob cam oblygiadau gwahanol ar gyfer y trefniadau Llywodraethu, Risg a Rheolaeth Fewnol. Fodd bynnag, nid yw'r ffordd mae sefydliadau wedi newid i ffyrdd diwygiedig o weithio o anghenraid â chysylltiad uniongyrchol â'r darlun lleol neu genedlaethol.

Mae'r diagramau yn y tabl isod yn dynodi asesiad o'r darlun lleol a/neu genedlaethol presennol. Ond mae hefyd yn asesu sut mae'r sefydliad wedi addasu i ffyrdd newydd o weithio (y 'normal newydd') o leiaf i'r dyfodol agos.



3. Mae ystod o faterion gweithredol sy'n codi o bandemig COVID 19 sy'n effeithio ar y trefniadau Llywodraethu, Risg a Rheolaeth Fewnol. Ceir enghreifftiau wedi'u crynhoi yn Atodiad A. Yn ystod cyfnod COVID 19 byddai'n ddoeth i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru gymharu'r polisiâu, y gweithdrefnau a'r prosesau rheolaeth fewnol sydd mewn grym yn ystod y pandemig gyda'r rhai a oedd yn weithredol cyn i'r pandemig ddechrau. Dylai'r materion a nodwyd gael eu hasesu o ran risg er mwyn codi ymwybyddiaeth o ble mae'r gwendidau posibl a allai fodoli fel bod modd gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch derbyn risgiau o'r fath.

Fframwaith Reoli Mewnol

Archwiliadau a gwblhawyd ers adroddiad diwethaf SICA i'r Cydbwyllgor Archwilio

4. Mae chwe archwiliad o 2020/21 wedi'u cwblhau ers y cyfarfod blaenorol. Mae'r tabl isod yn gosod manylion o'r adroddiadau sydd wedi eu cwblhau ers y cyfarfod blaenorol o'r Cydbwyllgor Archwilio.

Archwiliadau a gwblhawyd ers adroddiad blaenorol SICA

Adolygiad	Gwerthusiad	Dyddiadau Allweddol			Niferoedd Argymhellion			
		Drafft wedi'i gyhoeddi	Derbyniwyd Ymatebion	Cyhoeddi drafft terfynol	1	2	3	OEM
Sicrwydd Data	Difrifol	4 Rhagfyr 2020	9 Rhagfyr 2020	10 Rhagfyr 2020	-	-	1	-
Rheoli Risg Cydweithredol – Lliniaru'r Rheolaethau	Rhesymol	15 Rhagfyr 2020	29 Rhagfyr 2020	7 Ionawr 2021	-	-	2	1
Credydwy	Difrifol	1 Chwefror 2021	19 Chwefror 2021	11 Chwefror 2021	-	-	-	-
Prosiect ar y Cyd – Office 365	Rhesymol	18 Tachwedd 2020	16 Chwefror 2021	17 Chwefror 2021	-	6	1	-
Rheolaeth y Fflyd – Tanwydd	Rhesymol	4 Chwefror 2021	16 Chwefror 2021	18 Chwefror 2021	-	2	3	-
Dilyniant	Amherthnasol	1 Mawrth 2021	2 Mawrth 2021	2 Mawrth 2021	-	-	-	-

Symud ymlaen gyda gweithredu argymhellion blaenoriaeth 1

5. Nid ydym wedi gwneud argymhellion Blaenoriaeth 1 (h.y. materion rheoli sylfaenol y dylid gweithredu arnynt ar unwaith) ers yr adroddiad SICA Blaenorol. Ceir mwy o wybodaeth yn Atodiad D.

Dangosyddion achosion gwraidd

6. Datblygwyd y dangosyddion gwraidd achos (RCI) gan TIAA i roi cyfeiriad treigl strategol ar gyfer asesiad llywodraethu teithio, risg a rheolaeth ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a phrif gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru. Caiff pob argymhelliad a wneir ei ddadansoddi i sefydlu achos sylfaenol y mater sy'n arwain at yr argymhelliad (RCI). Mae angen ystyried y dadansoddiad dros gyfnod parhaus, yn hytrach nag ar sail unigol bob chwarter. Mae canrannau, yn hytrach na nifer wirioneddol yr adolygiadau/argymhellion a wneir yn caniatáu nodi'r cyfeiriad teithio yn fwy effeithiol. Mae saeth tuag i lawr yn arwydd o leihad cadarnhaol mewn risg mewn perthynas â'r RCI penodol. Ni chwblhawyd gwaith archwilio yn Chwarter 1 yn y fformat adrodd newydd felly ni ellir darparu dadansoddiad ar gyfer y chwarter hwn. Ni wnaed argymhellion yn Chwarter 2.

DAG – Cyfeiriad Asesiad Teithio

Dangosyddion Achosion Gwraidd	Chwarter 1 (2020/21)	Chwarter 2 (2020/21)	Chwarter 3 (2020/21)	Chwarter 4 (2020/21)	Cyfeiriad Teithio yn y Tymor Canolig	Arsylwad Archwiliad
Cyfarwyddwyd						
Fframwaith Llywodraethu	Amherthnasol	Amherthnasol	67% (2)	15% (2)		Mae'r canran wedi gostwng. Fodd bynnag mae'r nifer o argymhellion wedi parhau'r un fath.
Lliniaru Risg	-	-	-	-	Amherthnasol	Dim argymhellion i'w cymharu
Cydsyniad Rheolaeth	-	-	33% (1)	85% (11)		Mae'r canran wedi cynyddu wrth i'r nifer o argymhellion gynyddu hefyd.
Cyflawni –						
Monitro Cyflawniad	-	-	-	-	Amherthnasol	Dim argymhellion i'w cymharu
Cyfngiadau Ariannol	-	-	-	-	Amherthnasol	Dim argymhellion i'w cymharu
Gwytnwch	-	-	-	-	Amherthnasol	Dim argymhellion i'w cymharu

Cynnydd yn erbyn Cynllun Blynyddol 2020/21

7. **COVID-19:** Cynnydd yn erbyn gwaith wedi'i gynllunio ar gyfer y chwarter sydd wedi'i effeithio gan COVID. Yng nghanol mis Mawrth, pan oedd maint ac effaith bosibl COVID 19 yn dod yn amlwg, cytunwyd â Heddlu Gogledd Cymru y byddai'r gwasanaeth archwilio mewnol yn cael ei ddarparu o bell. Trwy hynny, lleihawyd ar yr angen i gael mynediad corfforol i swyddfeydd/safleoedd Heddlu Gogledd Cymru ac i gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Roedd oedi cychwynnol mewn dechrau gwaith maes ond rydym yn fodlon fod y cynllun ar y gweill i'w gael ei gyflawni erbyn 31 Mawrth 2021. Yn dilyn trafodaethau gyda'r uwch reolwyr yn Heddlu Gogledd Cymru, cytunwyd y gall peth gwaith gael ei ymgymryd ar y safle fel sy'n ofynnol ac yn amodol ar yr asesiadau risg priodol.
8. Mae ein cynnydd yn erbyn y Cynllun Blynyddol ar gyfer 2020/21 wedi ei osod yn Atodiad C.

Newidiadau i Gynllun Blynyddol 2020/21

9. Byddwn yn parhau i adolygu'r Cynllun Blynyddol a, lle y bo'n briodol, yn tynnu sylw at feysydd lle argymhellir gwaith archwilio mewnol er mwyn gallu darparu pennaeth Barn Archwilio ddiamod ar gyfer 2020/21.

Twyll/Anghysondebau

10. Nid ydym wedi clywed am dwyll neu anghysondebau yn y cyfnod ers i'r adroddiad cryno diwethaf gael ei gyhoeddi.

Materion Eraill

11. Rydym wedi cyhoeddi nodiadau briffio a thwyll ac anghysondebau ers y Pwyllgor Archwilio diwethaf, i'w gweld yn Atodiad E: Mae'r camau a gymerwyd gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a phrif gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru wedi'u crynhoi isod:

Camau a gymerwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a'r Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru mewn ymateb i rybuddion a gyhoeddwyd gan TIAA

Nodiadau Briffio	Ymateb Rheolwyr
Sicrhau bod Geiriad ar Geisiadau Swydd yn Adlewyrchu Rheolau Diwygiedig y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd	Mae rheolwyr wedi cydlynu ymatebion ar gyfer Cyfarfod y CA

Rhybudd Twyll	Ymateb Rheolwyr
Galwadau Ffôn Twyllodrus o ran Atal Rhif YG	Mae rheolwyr wedi cydlynu ymatebion ar gyfer Cyfarfod y CA
Rhybudd Ffug am Frechiad COVID-19 gan y GIG	
Sgiâm Peiriant Parcio	
Negeseuon E-bost Twyllodrus: COVID-19 Ffug	

12. Rydym wedi adolygu canllawiau diweddar a gyhoeddwyd gan Fwrdd Ymgynghorol Safonau Archwilio Mewnol o ran archwilio mewnol yn ystod pandemig COVID-19. Mae'r canllawiau'n anelu i gynorthwyo penaethiaid archwilio mewnol ac archwilwyr mewnol unigol wrth barhau i fodloni eu cyfrifoldebau personol a phroffesiynol ar gyfer cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus (PSIAS) y DU. Gallwn gadarnhau cydymffurfiaeth barhaus gyda'r safonau proffesiynol yn ystod y cyfnod hwn.

Cyfrifoldeb/Ymwrthodiad

13. Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei baratoi'n unswydd ar gyfer defnydd y rheolwyr ac ni ddylid ei ddyfynnu neu gyfeirio ato yn llawn neu yn rhannol i drydydd parti heb ganiatâd ysgrifenedig blaenorol. Mae'r materion a godir yn yr adroddiad hwn o reidrwydd yn ddatganiad manwl o'r holl wendidau sy'n bodoli neu'r holl welliannau y gellid eu gwneud. Ni dderbynnir cyfrifoldeb i unrhyw drydydd parti gan nad yw'r adroddiad wedi cael ei baratoi, na'i fwriadu ar gyfer unrhyw bwrpas arall. Nid yw TIAA yn derbyn nac yn rhoi unrhyw ddyletswydd gofal i unrhyw barti eraill a fydd yn derbyn yr adroddiad hwn. Yn benodol, ni fydd yn ymwadu unrhyw gyfrifoldeb am golled, niwed neu wariant o unrhyw natur, sy'n cael ei achosi ar ddibynnu ar ein hadroddiad.

Covid 19 – Ystyriaethau Llywodraethu, Risg a Rheoli yn ystod y cam 'cyfyngiadau symud'

Maes	Sicrwydd posibl gan Archwilio Mewnol.
<p>Llywodraethu: Mae cyflymder yr angen i ymateb i COVID 19 wedi effeithio'n sylweddol ar y seilwaith llywodraethu strategol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Penderfyniadau brys a wneir am resymau gweithredol brys a fyddai fel arfer wedi mynd drwy adolygiad a chymeradwyaeth y Bwrdd • Ymestyn contractau caffael • Amharu ar wybodaeth reoli a dderbynnir gan y Bwrdd • Angen gweithredol am ollyngiad rheoli i'r cynllun dirprwyo a'r rheoliadau ariannol • Symud i weithio o bell am resymau gweithredol adweithiol, yn hytrach nag fel rhan o strategaeth a gynlluniwyd ymlaen llaw 	<p>COVID-19 Rheolaeth Ariannol: Adolygiad o lywodraethu ariannol a gwneud penderfyniadau yn dilyn ymyrraeth busnes a achoswyd gan Covid-19, gan gynnwys asesu'r atebolrwydd am wariant ychwanegol ar weithgarwch sy'n gysylltiedig â Covid-19.</p>
<p>Rheoli Risg: Dyma'r marcwyr sy'n gwahaniaethu rhwng pandemig COVID 19 o'r rhan fwyaf o gynlluniau cyd-nerthu/adfer busnes:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nid oedd cyflymder amharu'n fawr ar fusnes fel arfer yn caniatáu paratoi ar y lefel arferol • Rhyngwladol yn ogystal â'r DU gyfan, nid lleol • Lefel ymyrraeth y Llywodraeth • Hyd a difrifoldeb • Symud at drefniadau gweithio o bell yn y tymor canolig gan staff a chyflenwyr • Effaith ganlyniadol ar yr holl risgiau strategol blaenorol 	<p>Trefniadau ailddechrau 'Busnes fel Arfer': Asesiad lliniaru risg wedi'i dargedu ar ôl y digwyddiad i nodi unrhyw fylchau anfwriadol yn y fframwaith rheoli risg.</p>
<p>Rheoli Mewnol: Mae COVID 19 wedi amlygu sawl peth negyddol a chadarnhaol. Yr agweddau cadarnhaol yw cyflwyno busnes digidol yn hwylus. Cydnabyddir bod nifer o ofynion o ran y Llywodraeth a/neu ganllawiau rheoleiddio wedi'u cyhoeddi ar fyr rybudd ac roedd llawer o'r rhain heb yr ymgynghori arferol ac yn debyg. Mae'r canlynol angen eu cynnwys hefyd, er ar sail negyddol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflenwyr a chontractwyr yn methu â darparu gwasanaethau o dan contract • Mwy o ddigideiddio a gyflwynwyd ar fyr rybudd yn cynyddu risgiau llywodraethu gwybodaeth • Cyfaddawd dros dro o wahanu dyletswyddau yn effeithiol oherwydd absenoldebau staff a/neu weithio o bell ac ati. • Twyllwyr sy'n ceisio manteisio ar amhariad COVID • Gohirio a/neu ail-flaenoriaethu gwasanaethau: • Newid sydyn ac arwyddocaol mewn patrymau galw am wasanaethau 	<p>Fframwaith Rheoli Toriadau i Fusnes COVID-19: Adolygu'r amgylchedd rheoli mewn perthynas â dylunio polisi a phroses neu ailgynllunio dros dro, gan ystyried y risg uwch o dwyll a newidiadau i ffyrdd o weithio.</p> <p>Atebolrwydd am arian COVID-19 ychwanegol: Ailedrych ar y fframwaith rheoli ar gyfer pryd y mae taliadau argyfwng yn symud i wasanaethau tymor hwy – yn enwedig lle mae symiau mawr yn cael eu buddsoddi.</p>

Crynodebau gweithredol a chynlluniau gweithredu rheoli

Mae'r Crynodebau Gweithredol a'r Cynlluniau Gweithredu Rheolwyr canlynol wedi'u cynnwys yn y papurau a roddir i'r Cydbwyllgor Archwilio ac nid ydynt felly wedi'u cynnwys yn yr Atodiad hwn.

Adolygiad	Gwerthusiad
Sicrwydd Data	Difrifol
Rheoli Risg Cydweithredol – Lliniaru'r Rheolaethau	Rhesymol
Credydwyr	Difrifol
Prosiect ar y Cyd – Office 365	Rhesymol
Rheolaeth y Fflyd – Tanwydd	Rhesymol
Dilyniad	Amherthnasol

Cynnydd yn erbyn y Cynllun Blynyddol

System	Chwarter Arfaethedig	Statws Cyfredol	Sylwadau
Cydweithio – Cymru Gyfan			
Rheoli Risg – Lliniaru'r Rheolaethau	2	Cyhoeddwyd adroddiad terfynol ar 7 Ionawr 2021	Cyflwynwyd i CA Mawrth 2021
Fetio Contractwyr	2	Cyhoeddwyd adroddiad terfynol ar 4 Medi 2020	Cyflwynwyd i CA Hydref 2020
Adolygiad Prosiect ar y cyd – Office 365 (fel rhan o'r Rhaglen Alluogi Genedlaethol)	2	Cyhoeddwyd adroddiad terfynol ar 17 Chwefror 2021	Cyflwynwyd i CA Mawrth 2021
Rheolaeth Gyllidol Ar y Cyd	3	Cyhoeddwyd adroddiad drafft ar 22 Rhagfyr 2020	Heddlu sy'n arwain = De Cymru
Caffael	3	Cyhoeddwyd adroddiad drafft ar 14 Ionawr 2021	Cytunwyd y bydd Gogledd Cymru yn cael ei ystyried ar wahân o'r archwiliad cydweithredol sy'n canolbwyntio ar yr Uned Caffael ar y Cyd sy'n cael ei sefydlu yn Ne Cymru.
Cynllunio Adnoddau Strategol	3	I fod i ddechrau ar 1 Mawrth 2021	Gwaith maes yn mynd ymlaen
Adolygiad Prosiect ar y Cyd – Camau Cynnar Gyda'n Gilydd (Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod, prosiect ACE)	4	Wedi canslo	Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi penderfynu peidio cyfranogi yn yr adolygiad hwn gan nad yw'r prosiect yn cael ei ariannu bellach. Opsiwn arall - mae Diogelwch Seiber Pensiynau wedi'i awgrymu.
Cysylltu ag Archwiliad Cymru	1-4		Mynychu cyfarfodydd Grŵp Ymarferydd Heddlu
Gogledd Cymru'n Unig			
Llywodraeth – Gweithio ar y cyd	1	Wedi canslo	Wedi canslo ar gais Rheolwyr
Gwrth Dwyll – Caffael Atal Twyll	1	Cyhoeddwyd adroddiad terfynol ar 13 Tachwedd 2020	Cyflwynwyd i CA Rhagfyr 2020
Datblygu Sefydliadol	1	Cyhoeddwyd adroddiad terfynol ar 6 Tachwedd 2020	Cyflwynwyd i CA Rhagfyr 2020
Pensiynau	2	Cyhoeddwyd adroddiad terfynol ar 10	Cyflwynwyd i CA Rhagfyr 2020

System	Chwarter Arfaethedig	Statws Cyfredol	Sylwadau
		Tachwedd 2020	
Treuliau a thaliadau ychwanegol	2	Cyhoeddwyd adroddiad terfynol ar 11 Tachwedd 2020	Cyflwynwyd i CA Rhagfyr 2020
Adolygiad Seilwaith	2	Wedi'i gynllunio ar gyfer 1 Rhagfyr 2020	Gwaith maes yn mynd ymlaen
Sicrwydd Data	2	Cyhoeddwyd adroddiad terfynol ar 10 Tachwedd 2020	Cyflwynwyd i CA Mawrth 2021
Rheoli Contractau	2	Wedi canslo	Wedi canslo ar gais Rheolwyr
Rhanbarth y Dwyrain – Uned Reoli	2 4	Gwaith safle wedi dechrau ar 15 Chwefror 2021	Gwaith maes yn mynd ymlaen
Eiddo y Codir Tâl Amdano	2	Wedi'i gynllunio ar gyfer diwedd mis Ebrill 2021	Wedi'i ohirio oherwydd pandemig Covid 19
Rheoli'r Trysorlys	3	Cyhoeddwyd adroddiad terfynol ar 24 Awst 2020	Cyflwynwyd i CA Rhagfyr 2020
Cyfriflyfr Cyffredinol	3	Cyhoeddwyd adroddiad terfynol ar 4 Tachwedd 2020	Cyflwynwyd i CA Rhagfyr 2020
Cyflogres	3	Cyhoeddwyd adroddiad terfynol ar 13 Tachwedd 2020	Cyflwynwyd i CA Rhagfyr 2020
Credydwyr	3	Cyhoeddwyd adroddiad terfynol ar 11 Chwefror 2021	Cyflwynwyd i CA Mawrth 2021
Rheolaeth y Ffilyd – Tanwydd	3	Cyhoeddwyd adroddiad terfynol ar 18 Chwefror 2021	Cyflwynwyd i CA Mawrth 2021
Strategaeth Rheoli'r Ffilyd	4	Gohiriwyd i 2021-22	
Rheoli'r Ffilyd – Atgyweirio	4	Wedi'i gynllunio ar gyfer 8 Mawrth 2021	Dyddiau i'w defnyddio o archwiliadau a ganslwyd
Caffael	4	Wedi'i gynllunio ar gyfer 24 Mawrth 2021	
Rheoli Newid TGCh	4	Cynlluniwyd ar gyfer 11 Ionawr 2021	Cyhoeddwyd RhPB
Dull cydweithiol	1-4	Gweler uchod	

System	Chwarter Arfaethedig	Statws Cyfredol	Sylwadau
Dilyniad	4	Cyhoeddwyd adroddiad terfynol ar 2 Mawrth 2021	Cyflwynwyd i CA Mawrth 2021
Wrth gefn	1-4		
Cynllunio Blynyddol	1		
Adroddiad Blynyddol	4		
Rheolwyr	1-4		

ALLWEDD:

I'w ddechrau		Gwaith safle wedi dechrau		Cyhoeddwyd adroddiad drafft		Cyhoeddwyd adroddiad terfynol
--------------	--	---------------------------	--	-----------------------------	--	-------------------------------

Argymhellion Blaenoriaeth 1 – Diweddariad Cynnydd

Argymhelliad	Blaenoriaeth	Rheolwyr Sylwadau	Gweithrediad Amserlen	Swyddog Cyfrifol Swyddog	Camau gweithredu hyd yma (ac unrhyw risg sy'n bodoli)	Lliniaru Risg
Nid oes argymhellion Blaenoriaethau 1						

ALLWEDD:

Graddau Blaenoriaeth 1

1	AR FRYS	Mater rheoli sylfaenol y dylid cymryd camau yn ei erbyn ar unwaith.
---	---------	---

Lliniaru Risg

WEDI'I GLIRIO	Mae gwaith archwilio mewnol yn cadarnhau bod camau a gymerwyd yn ymdrin â'r amlwgriad i risg.	I'W GWBLHAU AR AMSER	Rheoli'r mater y dylid cymryd camau yn ei erbyn ar unwaith.	AGORED	Dyddiad Targed heb ei gyrraedd ac mae'r risg yn dal i fodoli
---------------	---	----------------------	---	--------	--

Sesiynau briffio ar ddatblygiadau mewn Llywodraethu, Risg a Rheoli

TIAA yn cyhoeddi nodiadau briffio rheolaidd i grynhoi datblygiadau newydd ym maes Llywodraethu, Risg, Gwrth-Dwyll a allai gael effaith ar ein cleientiaid. Mae'r rhain yn cael eu rhannu gyda chleientiaid ac ar gael drwy ein Porth Cleientiaid Ar-lein. Ceir rhestr gryno isod o'r CBN a'r Rhybuddion Twyll hynny a gyhoeddwyd dros y tri mis diwethaf a all fod yn berthnasol i Heddlu Gogledd Cymru isod. Gellir cael unrhyw gopiâu o CBNs ar gais oddi wrth eich tîm TIAA.

Crynodeb o Nodiadau Briffio Cleientiaid Diweddar (CBN)

Cyf CBN	Pwnc	Statws	Sylwadau TIAA
21002	Sicrhau bod Geiriad ar Geisiadau Swydd yn Adlewyrchu Rheolau Diwygiedig Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd		Angen Gweithredu Cyflogwyr i ystyried eu hymdriniaeth i ymholi am wybodaeth cofnodion troseddol er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud mewn ffordd sy'n sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r ddeddfwriaeth newydd.

Crynodeb o Rybuddion Twyll diweddar

Cyf	Pwnc	Statws	Sylwadau TIAA
Chwefror 2021	Galwadau Ffôn Twyllodrus o ran Atal Rhif YG		Angen Gweithredu Mae'r rhybudd hwn yn rhoi gwybodaeth a chyngor i weithwyr am dwyll a throsedd economaidd, a'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ef. Anfonwch fanylion unrhyw sgiâm lle mae'r galwr yn honni eu bod o CThEM at eu tîm gwe-rwydo phishing@hmrc.gov.uk . Os ydych wedi dioddef twyll neu drosedd seiber, dylech hysbysu Action Fraud drwy ffonio 0300 123 2040, neu fynd ar: https://reporting.actionfraud.police.uk/ . Os ydych yn meddwl bod eich cardiau banc wedi'u peryglu, cysylltwch â'ch banc ar unwaith.
Ionawr 2021	Rhybudd Ffug am Frechiad COVID-19 gan y GIG		Angen Gweithredu Mae'r rhybudd hwn yn rhoi gwybodaeth a chyngor i staff am dwyll a throsedd economaidd, a'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ef. Os ydych chi wedi dioddef twyll neu drosedd seiber, dylech roi gwybod i Action Fraud trwy ffonio 0300 123 2040, neu ewch ar https://reporting.actionfraud.police.uk/ . Os ydych wedi rhoi eich manylion banc a'ch bod yn meddwl eich bod wedi colli arian, cysylltwch â'ch banc ar unwaith.

Cyf	Pwnc	Statws	Sylwadau TIAA
- ✓ A yw'r awdurdod yn darparu cyfres briodol o adroddiadau i'r tîm arweinyddiaeth sy'n caniatáu iddo nodi a chywiro risgiau sy'n dod i'r amlwg i'w strategaeth gyllidebol a chynaliadwyedd ariannol?
- ✓ A yw'r adroddiadau'n ymdrin â gwybodaeth sy'n edrych yn ôl ac ymlaen o ran cyflawniad ariannol a gweithredol?
- ✓ A oes mecanweithiau mewn lle i adrodd ar gyflawniad partneriaethau cyflawni sylweddol yr awdurdod fel data monitro cytundebau?
- ✓ A yw'r adroddiadau'n cael eu rhoi i'r tîm arweinyddiaeth mewn modd amserol ac mewn fformat addas?
- ✓ A yw'r tîm arweinyddiaeth yn fodlon gyda'r adroddiadau mae'n ei dderbyn a chyda'i allu i ddefnyddio'r adroddiadau hyn i gymryd camau priodol?

O Mae'r tîm arweinyddiaeth yn monitro elfennau ei fantolen sy'n peri risg sylweddol i'w gynaliadwyedd ariannol

Cwestiynau Allweddol

- ✓ A yw'r awdurdod wedi nodi elfennau ei fantolen sydd fwyaf hanfodol i'w gynaliadwyedd ariannol?
 - ✓ A yw'r awdurdod wedi rhoi mecanweithiau addas ar waith i fonitro'r risg sy'n gysylltiedig â'r elfennau hanfodol hyn o'i fantolen?
 - ✓ A yw'r awdurdod yn gweithredu i liniaru unrhyw risgiau a nodir?
 - ✓ A yw'r awdurdod yn hysbysu am ddefnydd anfwriadol o'i gronfeydd wrth gefn i'r tîm arweinyddiaeth mewn modd amserol?
 - ✓ A yw monitro risgiau mantolen wedi'i integreiddio i brosesau adrodd cyfrifon rheoli'r awdurdod?
-

Adran 7 Adrodd Ariannol Allanol

P Mae gan y Prif Swyddog Cyllid gyfrifoldeb personol am sicrhau bod y cyfrifon statudol a ddarperir i'r awdurdod lleol yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig

Cwestiynau Allweddol

- ✓ A yw PSC yr awdurdod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran paratoi'r datganiadau ariannol blynyddol?
- ✓ A yw'r cyfrifoldebau hyn wedi'u cynnwys yn nisgrifiad rôl, amcanion personol a mecanweithiau rheoli cyflawniad perthnasol eraill y PSC?
- ✓ A baratowyd datganiadau ariannol yr awdurdod hyd yma mewn pryd ac yn unol â gofynion y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig?

Q Mae cyflwyno'r ffigurau alldro terfynol ac amrywiadau o'r gyllideb yn caniatáu i'r tîm arweinyddiaeth wneud penderfyniadau ariannol strategol

Cwestiynau Allweddol


- ✓ A yw tîm arweinyddiaeth yr awdurdod yn cael cyfres addas o adroddiadau ar alldro ariannol yr awdurdod ac ar amrywiadau sylweddol o'r gyllideb?
 - ✓ A gyflwynir y wybodaeth yn yr adroddiadau hyn yn effeithiol?
 - ✓ A yw'r adroddiadau hyn yn canolbwyntio ar wybodaeth sydd o ddiddordeb ac sy'n berthnasol i'r tîm arweinyddiaeth?
 - ✓ A yw'r tîm arweinyddiaeth yn teimlo bod yr adroddiadau'n ei gefnogi wrth wneud penderfyniadau ariannol strategol?
-



Cydbwyllgor Archwilio

Dyddiad y Cyfarfod: 30/03/2021

Teitl:	Bwrdd Cyd Lywodraethu
Awdur:	Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid
Diben yr adroddiad:	Diweddariad
Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)	<input type="checkbox"/> Penderfyniad <input type="checkbox"/> Trafodaeth <input type="checkbox"/> Sicrwydd <input checked="" type="checkbox"/> X Gwybodaeth
Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:	<ul style="list-style-type: none">• Annog adolygiad o'r Llawlyfr Llywodraethu, gyda'r nod o gwblhau'r gwaith erbyn mis Gorffennaf 2021• Pennaeth Gwybodaeth Rheolwyr i baratoi adolygu gweithredu'r strwythur llywodraethu newydd ym mis Gorffennaf 2021• Trafod drafft cyntaf y Datganiad Llywodraethu Blyneddol• Cylch gorchwyl y Cydbwyllgor Archwilio i gael ei gymeradwyo gan y CHTh a'r Prif Gwnstabl, gyda'r nod o gwblhau'r gwaith erbyn mis Gorffennaf 2021.
Argymhellion:	<ul style="list-style-type: none">• Bod aelodau'r Cyd Bwyllgor Archwilio yn nodi gwaith y Bwrdd Cyd Lywodraethu.• Aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio i fod yn ymwybodol fod ganddynt wahoddiad sefydlog i fynychu'r Bwrdd Cyd Lywodraethu, ac y darperir papurau a chofnodion cyfarfodydd iddynt ar gais.
Effaith cofrestr risgiau:	Mae'r ffordd y rheolir risg yn rhan annatod o lywodraethu da a chaiff ei ystyried o fewn y Fframwaith Llywodraethu.
Goblygiadau sicrwydd:	Mae'r Bwrdd Cyd Lywodraethu yn goruchwyllo newidiadau i drefniadau sicrwydd yn dilyn yr Adolygiad Llywodraethu a ymgwymerwyd yn 2019/20. Mae'r Bwrdd Cyd Lywodraethu yn goruchwyllo unrhyw newidiadau yn y dyfodol i'r Llawlyfr Llywodraethu.
Effaith Cydraddoldeb:	Dim
Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddadleniad:	Dim



CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

30 Mawrth 2021

Bwrdd Cyd Lywodraethu

Adroddiad gan Brif Swyddog Cyllid y Comisiynydd
Heddlu a Throsedd



1. Cefndir

- 1.1. Ffurfiwyd y Bwrdd Cyd Lywodraethu yn 2014 er mwyn dogfennu trefniadau llywodraethu Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Heddlu Gogledd Cymru.
- 1.2. Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod pedair gwaith y flwyddyn, ac mae rhaglen waith wedi'i pharatoi.
- 1.3. Estynnir gwahoddiad sefydlog i aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio i'r cyfarfod. Aeth Cadeirydd y Cydbwyllgor ar 17 Chwefror 2021 a rhoddwyd sylwadau gan aelod o'r Cydbwyllgor.

2. Argymhellion

- 2.1. Bod aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio yn nodi gwaith y Bwrdd Cyd Lywodraethu.
- 2.2. Aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio i fod yn ymwybodol fod ganddynt wahoddiad sefydlog i fynychu'r Bwrdd Cyd Lywodraethu, ac y darperir papurau a chofnodion cyfarfodydd iddynt ar gais. Dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol yw:
 - 17 Mehefin 2021 am 2yh
 - 26 Awst 2021 am 2yh
 - 28 Hydref 2021 am 2yh

3. Gwaith y Bwrdd Cyd Lywodraethu

- 3.1. Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Chwefror 2021, trafodwyd y canlynol:

3.1.1. Annog adolygiad o'r Llawlyfr Llywodraethu

- Ychwanegwyd y Cod Llywodraethu Corfforaethol at y Llawlyfr Llywodraethu yn ddiweddar. Serch hynny, caiff ei adolygu yn unol ag adolygiad cyffredinol o'r llawlyfr cyfan.
- Mae angen i'r Rheoliadau Ariannol gael eu hadolygu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r Cod Rheolaeth Ariannol newydd.

- Mae angen adolygu'r Cynllun Caniatâd a'r Gorchmynion Sefydlog er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben.
- Bwriedir cyflwyno'r Llawlyfr Llywodraethu Diweddaraf i'r Cydbwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf 2021, at ddibenion sicrwydd.

3.2.2. Annog adolygiad o'r Strwythur Llywodraethu

Cyflwynwyd y Strwythur Llywodraethu newydd yn ystod 2020/21. Gan fod hyn yn ddiweddar iawn, hysbysodd y Pennaeth Gwybodaeth Rheolwyr y byddai'n adolygu'r Strwythur Llywodraethu ym mis Gorffennaf 2021 fel "cipdrem" ar y broses, ac er mwyn sicrhau fod y strwythur yn parhau'n addas i'r diben.

3.2.3 Drafft Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Roedd y wybodaeth o fewn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i ddiweddarau gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a'r Prif Swyddog Cyllid. Fodd bynnag, nodwyd y byddai angen diweddariadau pellach cyn y gellid cyflwyno drafft i'r Cydbwyllgor Archwilio ym mis Mawrth 2021.

Arsylwodd Cadeirydd y Cydbwyllgor Archwilio bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn ailadroddus er ei fod yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol. Nid yw'n adlewyrchu'r gwaith da sy'n digwydd o fewn SCHTh a'r heddlu. Argymhellodd i'r fformat gael ei newid fel y gellir cyflwyno'r ddogfen yn well wrth gadw'r holl wybodaeth bwysig.

3.2.4 Cylch Gorchwyl y Cydbwyllgor Archwilio

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid bapur i'r cyfarfod, yn cynnwys:

- Cylch Gorchwyl Cydbwyllgor Archwilio Gogledd Cymru, wedi'i ddiweddarau i ymgorffori argymhellion sy'n codi o gyfarfodydd y CA ac mewn manau eraill;
- Cymhariaeth o Gylch Gorchwyl Cydbwyllgorau Archwilio sefydliadau tebyg eraill (neu'r hyn sydd gyfwerth).

Rhannwyd y ddogfen hon gydag aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio.

Cafwyd trafodaeth ynghylch a ddylai'r Cylch Gorchwyl gael ei ehangu tu hwnt i'r cwmpas braidd yn draddodiadol a geir ar hyn o bryd, a phwy ddylai benderfynu hyn. Argymhellwyd y dylai'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl gymeradwyo'r Cylch Gorchwyl ar y cyd (efallai mewn cyfarfod o'r Bwrdd Gweithredol Strategol).

Bwriedir cyflwyno'r Cylch Gorchwyl diweddaraf i'r Cydbwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf 2021.

3.2.5 Cod Rheolaeth Ariannol CIPFA

Rhoddodd Pennaeth Cyllid y Bwrdd Cyd Lywodraethu ddiweddariad, a geir yn agenda'r Cydbwyllgor Archwilio ar gyfer 30 Mawrth 2021.

3.2.6 Cylch Gorchwyl Heddlu Gogledd Cymru

Fel rhan o'r Adolygiad Llywodraethu, mae cylch gorchwyl holl gyfarfodydd mewnol yn cael eu hadolygu. Mae hyn bellach yn gyflawn ar gyfer holl fyrddau lefel strategol, gan eithrio'r Cydbwyllgor Archwilio.

Yn y dyfodol, pan adolygir y Cylch Gorchwyl, bydd hyn yn digwydd yn gydlynol, er mwyn sicrhau yr osgoir gorgyffwrdd a bylchau mewn llywodraethu.

3.2.7 Diweddariad Archwiliad

Rhoddodd y Swyddog Cyllid a Chyllideb ddiweddariad ar argymhellion archwiliad mewnol ac allanol, a nodiadau briffio cleientiaid.

3.2.8 Diweddariad Sicrwydd

Rhoddodd y Pennaeth Rheoli Gwybodaeth ddiweddariad ar gynnydd. Nododd y Prif Swyddog Cyllid pan weithredir argymhellion yr adolygiad llywodraethu, dylid ymgorffori hyn yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3.3 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 17 Mehefin 2021.

4. GOBLYGIADAU

4.1	Cydraddoldeb	Mae'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gweithredu gan dalu sylw i'r egwyddorion a sefydlwyd yn y Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd.
4.2	Ariannol	Mae'r ffordd y rheolir cyllid yn rhan annatod o lywodraethu da. Ystyrir polisiau ariannol a monitro systemau ariannol a pherfformiad o fewn y Fframwaith Llywodraethu.
4.3	Cyfreithiol	Mae'n ofyniad cyfreithiol cyhoeddi Datganiadau Llywodraethu Blynyddol ar ran y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl ochr yn ochr â'r Datganiadau Cyfrifon bob blwyddyn. Un o ddibenion y Bwrdd Cyd Lywodraethu yw cofnodi gweithgareddau llywodraethu corfforaethau undyn (a sicrhau y caiff unrhyw bryderon sylw) fel bod y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol yn

		cael eu paratoi'n gywir ac yn amserol.
4.4	Cymunedol a Gwerth Cymdeithasol	Caiff polisiâu amgylcheddol, canlyniadau ac ymgysylltiad (a monitro'r rhain) eu hystyried o fewn y Fframwaith Llywodraethu. Mae hyn yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2017.
4.5	Risg	Mae'r ffordd y rheolir risg yn rhan annatod o lywodraethu da a chaiff ei ystyried o fewn y Fframwaith Llywodraethu.
4.6	Cynllun Heddlu a Throsedd	Mae'r amcanion yn y Cynllun Heddlu a Throsedd yn sylfaenol bwysig i'r ddwy gorfforaeth undyn. Ystyrir y ffordd y caiff hyn ei fonitro o fewn y Fframwaith Llywodraethu.

Awdur yr Adroddiad

Kate Jackson

Prif Swyddog Cyllid, SCHTh

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

Teitl:	Diweddariad Adolygiad Parodrwydd Risg
Awdur:	James Sutton, Pennaeth Cudd-wybodaeth/Cynllunio Strategol/Sicrwydd
Diben yr adroddiad:	Rhoi diweddariad i'r Cydbwyllgor Archwilio ar adolygiad blynyddol Parodrwydd Risg yr Heddlu.
Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)	Penderfyniad Trafodaeth Sicrwydd X Gwybodaeth
Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:	<p><u>Ymdriniaeth</u></p> <p>Crëwyd ac ymgynghorwyd ar y parodrwydd risg flwyddyn yn ôl, ac roedd yn ddogfen llywodraethu newydd i'r Heddlu. Mae'n ffurfio rhan o'r Fframwaith Rheoli Risgiau a Mapio Sicrwydd. Dyma'r tro cyntaf iddo gael ei adolygu, ac ymdriniwyd ag ef fel a ganlyn:</p> <ol style="list-style-type: none"> Sefydlu ffynhonnell y gellir cyfeirio ati ar gyfer terminoleg risg <p><u>Meysydd Risg</u></p> <p>Crëwyd y meysydd risg llynedd o feysydd risg cyffredinol a ddefnyddid ledled Heddluoedd eraill gyda meysydd risg ychwanegol yn cael eu hychwanegu yn ystod y broses ymgynghori. Eleni mae ffynhonnell y gellir cyfeirio ati ar gyfer set o gategorïau risg cyffredinol yn tarddu o Lyfr Oren y Trysorlys.</p> <p>Manteision defnyddio Categorïau Risg y Llyfr Oren yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'n gynhwysfawr ac yn rhoi digon o gwmpas i gynnwys unrhyw faes risg y byddai'r Heddlu ei angen Mae wedi'i gyrchu'n annibynnol Gellir ei egluro a'i ailadrodd ar gyfer unrhyw adolygiad yn y dyfodol Mae'n caniatáu i unrhyw fylchau mewn maes risg gael eu nodi fel rhan o'r broses adolygu Gellir ei aildefnyddio ar gyfer categoreiddio risgiau ar y gofrestr risg gorfforaethol <ol style="list-style-type: none"> Mapio'r meysydd parodrwydd risg presennol yn erbyn Categorïau Risg y Llyfr Oren <ul style="list-style-type: none"> Mae'r holl feysydd parodrwydd risg wedi'u mapio'n llwyddiannus yn erbyn categori risg unigol Mae rhai categorïau risg sydd heb faes risg wedi'u mapio yn eu herbyn sy'n nodi rhai bylchau posibl yn y parodrwydd risg sydd wedi'u hystyried.

	<p>3. Adolygu'r meysydd risg a'r lefelau risg sydd wedi'u mapio</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adolygiad wedi'i ymgymryd gan y Cyfarwyddwr Cyllid, Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol, Arweinydd Risg a Pharhad Busnes ac Arweinydd Sicrwydd. • Ymgynghoriad gydag Arweinydd Risg y Cydbwyllgor Archwilio • Ymgynghoriad gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth am gytundeb terfynol • Cyflwyno i'r Cydbwyllgor Archwilio er gwybodaeth • Diweddarau'r Fframwaith Rheoli Risgiau a Mapio Sicrwydd gyda'r parodrwydd risg diwygiedig <p><u>Newidiadau</u></p> <p>Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ychwanegu 'Awyddus' i'r lefelau risg • Newid Cyllid i Reolaeth Ariannol • Newid Diogelwch TG i Ddiogelwch TG a Seiber • Newid cydymffurfiaeth RhDDC i gydymffurfiaeth Diogelu Data/RhDDC • Newid Lefel Risg Diogelwch TG a Seiber o Syml i Wrthwynebol • Ychwanegu Meysydd Risg ar gyfer: <ul style="list-style-type: none"> – Unioniad Cynllunio Strategol – Llywodraethu Mewnol – Rheoli'r Trysorlys – Cadwyn Gyflenwi Foesegol – Dibynadwyedd y Gadwyn Gyflenwi – Rheoli Contractau – Lefelau a Rheoli Adnoddau – Parhad gwasanaeth TGCh – Rhannu gwybodaeth yn fewnol – Rhannu gwybodaeth mewn partneriaeth – Moeseg Cudd-wybodaeth Artiffisial – Diogelwch Safle <p>Mae geiriad y Meysydd Risg ychwanegol yn destun adolygiad pellach.</p>
Argymhellion:	Dim
Effaith Cofrestr Risgiau:	Dim
Goblygiadau Sicrwydd:	Mae'r parodrwydd risg yn rhoi sicrwydd bod yr Heddlu yn gallu defnyddio risg yn gyson fel rhan o'i brosesau gwneud penderfyniadau allweddol.
Effaith Cydraddoldeb:	Dim
Gwybodaeth wedi'i Heithrio o Ddadleniad:	Nag oes

Parodrwydd Risg 2021

Lefelau'r Risg

Dywedir mai 'AGORED' yw parodrwydd risg presennol HGC. Mae'r Prif Gwnstabl yn barod i ystyried yr holl opsiynau a dewis yr un sydd fwyaf tebygol o arwain at gyflawniad llwyddiannus, gan leihau'r risg sy'n weddill cyn belled â phosibl. Bydd hefyd yn darparu lefel budd busnes derbynol. Mae'r safle hwn yn syrthio'n foddhaol o fewn y weledigaeth gyffredinol o wneud Gogledd Cymru'r lle mwyaf diogel yn y DU.

Lefel Risg	Disgrifiad
Gwrthwynebol	Mae osgoi risg ac ansicrwydd yn amcan sefydliadol allweddol.
Syml	Dewis opsiynau cyflawni busnes diogel iawn sydd â risg hanfodol isel a dim ond y potensial am wobwr gyfyngedig.
Gochelgar	Dewis opsiynau cyflawni diogel sydd â risg isel yn weddill ac efallai mai dim ond potensial cyfyngedig am wobwr.
Agored	Parod i ystyried holl opsiynau cyflawni a dewis yr un sydd fwyaf tebygol o arwain at gyflawniad llwyddiannus wrth ddarparu lefel gwobr derbynol hefyd (a gwerth am arian ayyb.)
Awyddus	Awyddus i fod yn arloesol a dewis opsiynau sy'n cynnig gwobrwyon busnes uwch o bosib, er y risg cynhenid mwy.

Parodrwydd Risgiau

Categori Risg	Maes Risg	Lefel Risg
Strategaeth	Unioniad Cynllunio Strategol Bydd gennym broses cynllunio sy'n sicrhau bod adnoddau a buddsoddiadau'n cael eu hunioni'n strategol, gyda llywodraethu llym a thystiolaeth lawn i gefnogi penderfyniadau.	Gochelgar
Llywodraethu	Partneriaethau / Cydweithrediadau Rydym yn barod i gymryd risg wrth ddilyn datblygiadau partneriaethau / cydweithrediadau sydd â'r posibilrwydd o gyflawni mwy o fuddion.	Agored
	Llywodraethu Mewnol Fe wnawn sicrhau y gwneir penderfyniadau mewn modd strwythuredig gyda thystiolaeth y mae pawb yn ei ddeall ac yn cymryd rhan ynddo.	Gochelgar
Gweithrediadau	Diogelwch Cyhoeddus Byddwn yn gweithredu i osgoi neu liniaru risgiau a allai effeithio ar ddiogelwch cyhoeddus.	Gwrthwynebol
	Staff/Swyddogion – Twyll a Llygredd Nid oes chwant gennym am unrhyw dwyll neu lygredd a droseddir gan ein swyddogion neu staff.	Gwrthwynebol

Categori Risg	Maes Risg	Lefel Risg
	<p>Profiad / Boddhad Cyhoeddus Mae profiad/boddhad cyhoeddus yn bwysig iawn i ni. Mewn amgylchfyd cyfnewidiol rydym yn barod i fod yn arloesol a meddwl ymlaen. Rydym yn barod i gymryd rhai risgiau ar yr amod bod budd gweithredol/ariannol.</p>	Gochelgar
Cyfreithiol	<p>Cydymffurfiaeth (Cyfreithiol / Swyddfa Gartref / SAYH / AHEM) Fe wnawn roi ystyriaeth ddyledus i ganllawiau, argymhellion a rheoliadau anstatudol sy'n ystyried amgylchiadau lleol ac anghenion cyhoedd Gogledd Cymru wrth wneud ein penderfyniadau.</p>	Gochelgar
	<p>Cydymffurfiaeth â Diogelu Data/RhDDC Gwnawn sicrhau bod yr Heddlu'n bodloni holl anghenion y Ddeddf Diogelu Data wrth gydnabod bod busnes plismona dal angen ei ymgymryd yn effeithlon.</p>	Gochelgar
Ariannol	<p>Rheoli Ariannol Mae angen i ni sicrhau bod adnoddau'n cael eu hunioni i amcanion strategol, bod gennym gyllideb gytbwys a chynaliadwy a'u bod yn darparu Gwerth am Arian mewn cyflawni gwasanaethau.</p>	Gochelgar
	<p>Rheoli'r Trysorlys – Yr angen i gynllunio, trefnu a rheoli cronfeydd a chyfalaf gweithio er mwyn gwneud y defnydd gorau posibl o'r cronfeydd, cynnal hylifedd mewn ffordd ddiogel.</p>	Gwrthwynebol
Masnachol	<p>Cadwyn gyflenwi foesegol a dibynadwy Fe wnawn sicrhau, drwy brosesau caffael llym, yr edrychir ar ystyriaethau moesegol a dibynadwyedd moesegol yn llawn ar gyfer holl gadwyni cyflenwi.</p>	Gochelgar
	<p>Rheoli contractau Fe wnawn adolygu'r contractau mwyaf gwerthfawr/hanfodol er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi gwerth am arian ac yn parhau'n addas i'r diben.</p>	Gochelgar
Pobl	<p>Llesiant Staff a Swyddogion Mae iechyd a diogelwch ein staff yn bwysig tuag at gyflawni plismona effeithiol ac effeithlon yng Ngogledd Cymru. Fe wnawn ddarparu'r offer (asesiadau risg; asesiad risg dynamig; hyfforddiant; ac offer) i staff i gymryd risgiau rheoledig a derbyniol.</p>	Gochelgar
	<p>Lefelau a Rheoli Adnoddau Fe wnawn fynd ati i fonitro a rheoli lefelau adnoddau mewn rolau rheng flaen er mwyn sicrhau bod lefelau staffio dymunol yn cael eu cynnal er diogelwch y cyhoedd a staff.</p>	Gochelgar

Categori Risg	Maes Risg	Lefel Risg
Technoleg	Parhad gwasanaeth TGCh ar gyfer Swyddogaethau Hanfodol yr Heddlu Os yw TGCh yn cynorthwyo Swyddogaethau Hanfodol yr Heddlu, fe wnawn sicrhau bod mesurau mewn lle er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth pan mae aflonyddwch.	Gwrthwynebol: CAD/Life X Syml: RMS
Gwybodaeth	Rhannu gwybodaeth yn fewnol Fe wnawn sicrhau y darperir canllawiau i staff er mwyn sicrhau y rhennir gwybodaeth mewn modd fel na rennir gwybodaeth gyfyngedig. Gwneir hyn wrth sicrhau yr ymglymerir â busnes yr heddlu yn effeithiol ac effeithlon.	Gochelgar
	Rhannu gwybodaeth mewn partneriaeth Gwnawn roi cytundebau rhannu gwybodaeth mewn lle gyda Phartneriaid er mwyn sicrhau y rhennir gwybodaeth mewn modd diogel.	Syml
	Moeseg Cudd-wybodaeth Artiffisial Gwnaiff yr Heddlu sicrhau bod holl feddalwedd perthnasol i Gudd-wybodaeth Artiffisial wedi'u haddasu am duedd drwy strwythur llywodraethu'r Heddlu gan gynnwys craffu cyhoeddus drwy'r pwyllgor moeseg.	Gochelgar
Diogelwch	Diogelwch TG a seiber Mae gennym barodrwydd isel iawn am risgiau i'r rhwydwaith ac argaeledd systemau sy'n cynorthwyo ein swyddogaethau hanfodol. Mae gennym barodrwydd isel iawn am fygythiadau i'n hasedau sy'n codi o ymosodiadau maleisus allanol.	Gwrthwynebol
	Diogelwch Safle Mae sicrhau bod ein safleoedd yn ddiogel yn bwysig er mwyn cynnal diogelwch gwybodaeth ac offer TGCh. Fe wnawn gynnal holl gyfyngiadau mynediad angenrheidiol a defnyddio deunydd adnabod priodol i gynorthwyo hyn.	Gochelgar
Prosiect / Rhaglen	Newid Busnes Rydym yn agored i gymryd rhywfaint o risg er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar y dyfodol. Gellir cyflawni newid busnes drwy ddatblygu ffyrdd newydd ac arloesol o reoli ein gwasanaethau. Mae'n cynnwys buddsoddi mewn technolegau newydd a datblygiadau TG.	Agored
Enw da	Enw da Rydym yn barod i gymryd rhai risgiau i enw da os oes posibilrwydd clir bod y manteision yn fwy na'r risgiau. Mae ein parodrwydd i gymryd risgiau yn gyfyngedig i'r sefyllfaoedd hynny lle mae ychydig o gyfle am sgil-ffeithiau difrifol i'r heddlu pe bai methiant. Gwellir ein henw da gan ei hagwedd bositif tuag at Werth Cymdeithasol ac mae ein parodrwydd risg mewn meysydd eraill.	Agored

Categori Risg	Maes Risg	Lefel Risg
	<p>Staff/Swyddogion – Ymddygiad Anfoesegol Os yw'n briodol, gwnawn addysgu a hysbysu staff/swyddogion y mae eu hymddygiad yn brin o'r safonau uchel disgwylidig.</p>	Gochelgar

Cynllun Archwilio Cyfunol 2021 – Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru

Blwyddyn archwilio: 2020-21

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2325A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partion perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Archwilio Cymru a, lle y bo'n berthnasol, yr archwilydd sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yn drydydd partion perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Cynllun Archwilio 2021

Ynglŷn â'r ddogfen hon	4
Fy nyletswyddau	4
Effaith COVID-19	4
Archwiliad o'r datganiadau ariannol	5
Defnyddio adnoddau	8
Swyddogaethau archwilio statudol	9
Ffi, tîm archwilio ac amserlen	9
Atodiadau	
Atodiad 1 – Meini prawf i asesu trefniadau ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau	13

Cynllun Archwilio Cyfunol 2021

Ynglŷn â'r ddogfen hon

- 1 Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gwaith yr wyf yn bwriadu ei wneud yn ystod 2021 i gyflawni fy nghyfrifoldebau statudol fel eich archwilydd allanol ac i gyflawni fy rhwymedigaethau dan y Cod Ymarfer Archwilio.
- 2 Cynllun cyfunol yw hwn ar gyfer fy archwiliad o Gomisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru (y Comisiynydd) a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru (y Prif Gwnstabl).

Fy nyletswyddau

- 3 Rwy'n cwblhau gwaith bob blwyddyn i gyflawni'r dyletswyddau canlynol.

Archwiliad o'r datganiadau ariannol

- 4 Bob blwyddyn rwy'n archwilio datganiadau ariannol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i wneud yn siŵr y rhoddir cyfrif yn briodol am arian cyhoeddus.

Gwerth am arian

- 5 Rhaid i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl sefydlu trefniadau i gael gwerth am arian ar gyfer yr adnoddau y maent yn eu defnyddio. Rhaid i mi fod wedi fy argyhoeddi eu bod wedi gwneud hyn.

Effaith COVID-19

- 6 Mae pandemig COVID-19 yn dal i gael effaith sylweddol ledled y Deyrnas Unedig ac ar waith sefydliadau'r sector cyhoeddus. Fel yn 2020, mae'n debygol o gael effaith sylweddol ar baratoi'r datganiadau ariannol a'm gwaith archwilio ariannol ac archwilio perfformiad.
- 7 Mae datblygiadau diweddar mewn perthynas â rhaglen frechu'n dynodi bod disgwyl i gyfyngiadau symud Llywodraeth Cymru a lefelau disgwylledig absenoldeb oherwydd salwch ysgafnu trwy 2021. Fodd bynnag, rwy'n nodi bod ansicrwydd sylweddol o hyd ac rwy'n deall efallai na fydd llawer o gyrff yn gallu paratoi cyfrifon yn unol â'r amserlen a nodir yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Yn ogystal â chyflawni fy nghyfrifoldebau statudol fel yr Archwilydd Cyffredinol, fy mlaenoriaeth i yw sicrhau iechyd, diogelwch a lles staff Archwilio Cymru, eu teuluoedd ac iechyd, diogelwch a lles ein partneriaid mewn cyrff eraill yn y sector cyhoeddus ar yr adeg anhygoel o heriol hon.
- 8 Bydd staff Archwilio Cymru yn parhau i weithio'n bragmatig i wneud y gwaith archwilio a nodir yn y cynllun hwn. Mewn ymateb i gyngor y Llywodraeth a chyfyngiadau dilynol, byddwn yn parhau i weithio o bell, gan adeiladu ar y trefniadau a wnaed yn 2020, nes bydd hi'n ddiogel i ni aildechrau gweithgareddau

ar safleoedd. Rwy'n dal i fod yn ymrwymedig i sicrhau na fydd gwaith staff Archwilio Cymru yn amharu ar y gweithgareddau hanfodol y mae angen i gyrrff cyhoeddus eu cyflawni i ymateb i'r heriau parhaus a achosir gan bandemig COVID-19.

- 9 O ganlyniad, er bod y cynllun archwilio hwn yn nodi amserlen gychwynnol ar gyfer cwblhau fy ngwaith archwilio, mae'r ansicrwydd parhaus ynghylch effaith COVID-19 ar y sector yn golygu y gall fod angen ailystyried rhai amseriadau. Bydd fy nhîm archwilio'n trafod unrhyw ddiwygiadau sy'n ofynnol i'r amserlen arfaethedig gyda chi wrth i'r sefyllfa yn 2021 ddod yn fwy eglur.

Archwiliad o'r datganiadau ariannol

- 10 Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi tystysgrif ac adroddiad ar y datganiadau ariannol. Ar gyfer y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl mae hyn yn cynnwys:
- barn ynglŷn â 'gwirionedd a thegwch' y datganiadau ariannol gan gynnwys cyfrif Cronfa Bensiwn yr Heddlu ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021; ac
 - asesiad pa un a yw'r Adroddiad Naratif a'r Datganiad Llywodraethu Blyneddol wedi'u paratoi yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol a pha un a ydynt yn gyson â'r datganiadau ariannol ac â'm gwybodaeth i am y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl.
- 11 Yn ychwanegol at fy nghyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol, mae gennyf hefyd gyfrifoldeb am:
- ardystio ffurflen i Lywodraeth Cymru sy'n darparu gwybodaeth i roi cymorth i baratoi Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan; ac
 - ymateb i gwestiynau ynghylch y cyfrifon a gwrthwynebiadau iddynt gan etholwyr lleol (bydd ffioedd ychwanegol yn cael eu codi am y gwaith hwn, os bydd angen).
- 12 Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ynghylch gwirionedd a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig ond rwy'n mabwysiadu cysyniad perthnasedd. Fy nod yw adnabod camddatganiadau perthnasol, hynny yw y rhai a allai beri i'r sawl sy'n darllen y cyfrifon gael ei gamarwain. Bydd y lefelau sy'n peri i mi farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol yn cael eu gwneud yn hysbys i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn cwblhau'r archwiliad.
- 13 Rwy'n barnu bod unrhyw gamddatganiadau islaw lefel fach iawn (sef lefel perthnasedd o 5%) yn rhai nad yw'n ofynnol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu eu hystyried ac felly ni fyddaf yn adrodd arnynt.
- 14 Ni osodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf o ran cynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.
- 15 Byddaf hefyd yn cyflwyno adroddiad drwy eithriad ar nifer o faterion a nodir mewn mwy o fanylder yn ein [Datganiad o Gyfrifoldebau](#), ynghyd â rhagor o wybodaeth am fy ngwaith.

Risgiau i'r archwiliad o'r datganiadau ariannol

16 Mae'r tabl canlynol yn nodi'r risgiau arwyddocaol yr wyf wedi'u hadnabod ar gyfer yr archwiliad o ddatganiadau ariannol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl.

Arddangosyn 1: risgiau i'r archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r risgiau allweddol i'r archwiliad o'r datganiadau ariannol a adnabuwyd adeg cynllunio'r archwiliad.

Risg archwilio	Ymateb archwilio arfaethedig
Risgiau arwyddocaol	
<p>Mae'r risg y gallai rheolwyr wrthwneud rheolaethau'n bresennol ym mhob endid. O ystyried y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o'r fath ddigwydd, tybir bod hon yn risg arwyddocaol [ISA 240.31-33].</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn:</p> <ul style="list-style-type: none">• profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer gwyrdueddiadau; a• gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodion arwyddocaol y tu allan i gwrs arferol busnes.
<p>Effaith COVID-19</p> <p>Mae argyfwng cenedlaethol COVID-19 yn parhau a gallai'r pwysau ar adnoddau staff a phwysau gweithio o bell effeithio ar baratoi, archwilio a chyhoeddi cyfrifon. Ceir risg y gallai ansawdd y cyfrifon a'r papurau gwaith ategol e.e. mewn perthynas ag amcangyfrifon a phrisiadau, gael ei beryglu gan arwain at fwy o wallau. Gallai trefniadau monitro ansawdd gael eu peryglu oherwydd materion amseru a/neu argaeledd adnoddau.</p>	<p>Byddwn yn trafod eich proses cau cyfrifon a threfniadau monitro ansawdd gyda'r tîm paratoi cyfrifon ac yn gwneud trefniadau i fonitro'r broses paratoi cyfrifon. Byddwn yn helpu i adnabod meysydd lle gall fod bylchau mewn trefniadau.</p>

Risg archwilio	Ymateb archwilio arfaethedig
Risgiau arwyddocaol	
<p>Bydd pandemig COVID-19 yn cael effaith arwyddocaol ar y risgiau o gamddatganiad perthnasol a threfn fy archwiliad a'r dull o'i gyflawni.</p> <p>Mae'r Swyddfa Gartref wedi trefnu bod ffrydiau cyllid ychwanegol ar gael i gefnogi heddluoedd ledled Cymru a Lloegr. Mae'r amryw ffrydiau cyllid yn cynnwys cynllun adfer colled a chyllid ychwanegol ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â gorfodi rheolau COVID-19. Mae enghreifftiau o risgiau archwilio'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • triniaeth gyfrifyddu anghywir ar gyfer cyllid COVID-19; • risgiau o dwyll/gwallau; • ansicrwydd posibl ynghylch prisio ar ddiwedd y flwyddyn; ac • amcangyfrif o ddarpariaethau gwyliau blynyddol sydd wedi cronni. 	<p>Byddwn yn adolygu'r ffrydiau cyllid a gafwyd gan y Swyddfa Gartref ac yn cadarnhau'r driniaeth gyfrifyddu briodol gyda'r awdurdod.</p>
Risgiau archwilio eraill	
<p>Dyfarniad McCloud</p> <p>Yn 2015 cyflwynodd y Llywodraeth ddiwygiadau i bensiynau'r sector cyhoeddus, gan olygu bod y rhan fwyaf o weithwyr y sector cyhoeddus wedi'u symud i gynlluniau pensiwn newydd yn 2015.</p> <p>Ym mis Rhagfyr 2018, dyfarnodd y Llys Apêl fod y trefniadau 'diogelu dros dro' yn gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon.</p> <p>Daeth ymgynghoriadau ynghylch rhwymedïau arfaethedig ar gyfer cynlluniau pensiwn Llywodraeth Leol, yr Heddlu a Diffoddwyr Tân i ben ym mis Hydref 2020. Cyhoeddodd y Llywodraeth</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio'n adolygu'r ddarpariaeth a wnaed mewn perthynas â dyfarniad McCloud ac yn monitro cynnydd o ran datblygu cynigion ar gyfer rhwymedi i'w gymhwyso yng nghynllun pensiwn Llywodraeth Leol/yr Heddlu/Diffoddwyr Tân.</p>

Risg archwilio	Ymateb archwilio arfaethedig
<p>yn ddiweddar, ar gyfer cynlluniau heb eu hariannu, mai'r model dewis gohiriedig fydd y tanategiad ar gyfer y rhwymedi. Nid oes cyhoeddiad wedi cael ei wneud eto am y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Disgwylir i'r manylion terfynol gael eu cyhoeddi yn ystod 2021.</p> <p>Mae effaith y dyfarniad yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar y rhwymedigaethau a ddatgelir dan IAS 19.</p>	

Materion eraill

- 17 Mae un mater pellach y bydd fy nhîm archwilio'n gwneud gwaith cynnar arno yn barod ar gyfer yr archwiliad yn 2021-22.

Arddangosyn 2: Materion eraill

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r gwaith cynnar a fydd yn cael ei wneud yn barod ar gyfer archwiliad 2021-22.

Materion eraill	
<p>Mae CIPFA/LASAAC wedi gohirio cyflwyno IFRS 16 eto tan 1 Ebrill 2022. Fodd bynnag, bydd angen i'r Awdurdod wneud gwaith sylweddol i adnabod prydles, ac fe allai pandemig COVID-19 greu risgiau o ran rhoi'r safon ar waith.</p>	<p>Bydd fy nhîm yn gwneud peth gwaith cynnar i adolygu parodrwydd ar gyfer cyflwyno IFRS 16 Prydlesi.</p>

Defnyddio adnoddau

- 18 Fy nghyfrifoldeb i yw fy argyhoeddi fy hun bod y corff a archwilir wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau. Mae **Atodiad 1** yn dangos y meini prawf y mae angen i ni eu hasesu wrth ddod i'n casgliad ar eich trefniadau.
- 19 Wrth ystyried y meini prawf hyn, rwy'n dibynnu ar y canlynol:
- canlyniadau'r gwaith archwilio a wnaed ar y datganiadau ariannol;

- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, e.e. ACEM a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, lle y bônt yn berthnasol i'm cyfrifoldebau;
 - systemau rheolaeth fewnol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, a nodir yn y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol a'm hadroddiad innau arnynt; a hefyd
 - canlyniadau gwaith arall a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol ac ymarferion paru data.
- 20 Bydd fy nhîm archwilio hefyd yn adnabod meysydd archwilio lle mae angen i ni gael sicrwydd ychwanegol i ategu'r ffynonellau a restrir uchod. Bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar elfennau penodol o'r prosesau llywodraethu corfforaethol a rheolaeth ariannol sy'n bodoli ar gyfer y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl a bydd yn cynnwys ffocws ar y pwysau ariannol a wynebwr, y trefniadau monitro sydd ar waith a chydnerthedd ariannol Swyddfeydd y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl.

Swyddogaethau archwilio statudol

- 21 Yn ogystal ag archwilio'r cyfrifon, mae gennyf gyfrifoldebau statudol am gael cwestiynau ynghylch y cyfrifon a gwrthwynebiadau iddynt gan etholwyr lleol. Caiff y cyfrifoldebau hyn eu nodi yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:
- Adran 30 Arolygu dogfennau a chwestiynau yn ystod archwiliad; ac
 - Adran 31 Yr hawl i wneud gwrthwynebiadau yn ystod archwiliad.
- 22 Os byddaf yn cael cwestiynau neu wrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl ar y pryd.

Ffi, tîm archwilio ac amserlen

- 23 Mae fy ffioedd ac amserlenni arfaethedig ar gyfer cwblhau'r archwiliad yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol:
- darperir y datganiadau ariannol yn unol ag amserlen y byddir yn cytuno arni gan ystyried effaith COVID-19, i'r ansawdd disgwylidiedig ac maent wedi bod trwy adolygiad sicrhau ansawdd cadarn;
 - mae gwybodaeth a ddarperir i ategu'r datganiadau ariannol yn unol â'r ddogfen canlyniadau archwilio y cytunwyd arni;
 - bydd yr holl swyddogion priodol ar gael yn ystod yr archwiliad;
 - rydych wedi rhoi'r holl reolaethau a gwiriadau angenrheidiol ar waith i'w gwneud yn bosibl i'r Swyddog Cyllid Cyfrifol ddarparu pob sicrwydd y mae ei angen arnaf yn y Llythyr Sylwadau a gyfeiriwyd ataf; ac
 - mae rhaglen waith arfaethedig y tîm Archwilio Mewnol wedi'i chwblhau ac mae'r rheolwyr wedi ymateb i faterion a allai fod wedi effeithio ar y datganiadau ariannol.

Ffi

- 24 Caiff eich ffi amcangyfrifedig ar gyfer 2021 ei nodi yn **Arddangosyn 2**. Mae'r ffigwr hwn yn ddigyfnewid o'i gymharu â ffi amcangyfrifedig y llynedd.

Arddangosyn 2: ffi archwilio

Mae'r tabl hwn yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig ar gyfer 2021, yn ôl maes o fewn gwaith archwilio, ochr yn ochr â'r ffi archwilio wirioneddol ar gyfer y llynedd.

Maes archwilio	Ffi arfaethedig (£) ¹	Ffi wirioneddol y llynedd (£)
Archwiliad o'r cyfrifon	78,999	79,166
Defnyddio adnoddau	4,700	4,700
Cyfanswm y ffi	83,699	83,866

- 25 Bydd cynllunio'n digwydd yn barhaus, ac efallai y bydd newidiadau i'm rhaglen o waith archwilio ac felly fy ffi yn ofynnol os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn dod i'r amlwg. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb eu trafod gyda chi yn gyntaf.
- 26 Mae rhagor o wybodaeth am fy ngraddfeydd ffioedd a'r modd y caiff ffioedd eu pennu ar gael ar ein gwefan.

Tîm archwilio

- 27 Caiff prif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, eu crynhoi yn **Arddangosyn 3**.

Arddangosyn 3: fy nhîm archwilio

Mae'r tabl hwn yn rhestru aelodau'r tîm archwilio lleol a'u manylion cyswllt.

Enw	Rôl	Rhif cyswllt	Cyfeiriad e-bost
Derwyn Owen	Cyfarwyddwr Ymgysylltu	02920 320566	derwyn.owen@archwilio.cymru

¹ Nodiadau: Nid yw'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW, nad yw'n cael ei chodi arnoch. Mae'r ffioedd yn daladwy o fis Tachwedd 2020 tan fis Hydref 2021.

Enw	Rôl	Rhif cyswllt	Cyfeiriad e-bost
Michelle Phoenix	Rheolwr Archwilio	02920 320660	michelle.phoenix@archwilio.cymru
Mike Whiteley	Arweinydd Archwilio	02920 829389	mike.whiteley@archwilio.cymru

- 28 Gallaf gadarnhau, ac eithrio un aelod o staff, bod aelodau fy nhîm i gyd yn annibynnol ar y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl a'u swyddogion ac nad wyf yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau posibl y mae angen i mi ei ddwyn i'ch sylw.
- 29 O ran yr eithriad a grybwyllir uchod lle mae un aelod o'm staff yn perthyn i swyddog heddlu presennol, rydym wedi adolygu hyn ac wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw gyfyngiadau ar allu'r aelod o staff i weithio ar yr archwiliad. Serch hynny, mae'r tîm archwilio wedi cymryd camau ychwanegol i ddiogelu ein hannibyniaeth a'n gwrthrychedd trwy sicrhau y bydd lefel adolygu ychwanegol yn cael ei briodoli i unrhyw waith a wneir gan yr aelod o staff ar yr archwiliad o'r gyflogres. Hefyd, ni fydd yn rhan o unrhyw waith i adolygu gweithgareddau gweithredol.

Amserlen

- 30 Caiff y cerrig milltir allweddol ar gyfer y gwaith a nodir yn y cynllun hwn eu dangos yn **Arddangosyn 4**. Fel a amlygwyd yn gynharach, efallai y bydd angen diwygio'r amserlen yng ngoleuni datblygiadau gyda COVID-19.

Arddangosyn 4: Amserlen archwilio

Allbwn arfaethedig	Gwaith a wneir	Cwblhau'r adroddiad
Cynllun Archwilio 2021	O fis Rhagfyr 2020 tan fis Ionawr 2021	Mawrth 2021

Allbwn arfaethedig	Gwaith a wneir	Cwblhau'r adroddiad
Gwaith archwilio'r Datganiadau Ariannol: <ul style="list-style-type: none"> • Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol • Barn ar y Datganiadau Ariannol • Memorandwm y Cyfrifon Ariannol 	O fis Mehefin 2021 tan fis Awst 2021	Hydref 2021 Hydref 2021 Tachwedd 2021
Crynodeb Archwilio Blynyddol	Amherthnasol	Rhagfyr 2021
Cynllun Archwilio 2022	O fis Ionawr tan fis Mawrth 2022	Mawrth 2022

Atodiad 1

Meini prawf i asesu trefniadau ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau

Arddangosyn 5: trefniadau corfforaethol ar gyfer darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau

Trefniadau corfforaethol	Cwestiynau ynglŷn â threfniadau
Sefydlu amcanion sy'n pennu polisi a phrosesau penderfynu	A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau ar gyfer pennu, adolygu a chyflawni ei amcanion strategol a gweithredol?
Diwallu anghenion defnyddwyr, rhanddeiliaid a'r boblogaeth leol	A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu sianeli cyfathrebu gyda'r boblogaeth leol, defnyddwyr y gwasanaeth, a rhanddeiliaid eraill gan gynnwys partneriaid, ac a oes trefniadau monitro i sicrhau bod negeseuon allweddol ynglŷn â gwasanaethau'n cael eu hystyried?
Monitro ac adolygu perfformiad	A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau ar gyfer monitro a chraffu ar berfformiad, i ganfod amrywiannau posibl yn erbyn amcanion strategol, safonau a thargedau ar gyfer cymryd camau gweithredu lle y bo angen ac adrodd wrth y Comisiynydd/Prif Gwnstabl?
Cydymffurfio â pholisïau sefydledig	A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau i gynnal system gadarn o reolaeth fewnol, gan gynnwys y rhai ar gyfer sicrhau y cydymffurfir â deddfau a rheoliadau, a pholisïau a gweithdrefnau mewnol?
Risgiau gweithredol ac ariannol	A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau i reoli ei risgiau busnes arwyddocaol?

Trefniadau corfforaethol	Cwestiynau ynglŷn â threfniadau
Rheoli adnoddau ariannol ac eraill	<p>A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau i werthuso a gwella'r gwerth am arian y mae'n ei gael o ran defnyddio adnoddau?</p>
	<p>A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau i sicrhau bod ei wariant yn cyd-fynd â'r adnoddau sydd ar gael iddo?</p>
	<p>A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau i reoli a monitro perfformiad yn erbyn cyllidebau, gan gymryd camau cywirol lle y bo'n briodol, ac adrodd ar y canlyniadau wrth uwch reolwyr a'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl?</p>
Safonau priodol o ran ymddygiad ac ati	<p>A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau ar gyfer monitro a chraffu ar berfformiad, i ganfod amrywiannau posibl yn erbyn amcanion strategol, safonau a thargedau ar gyfer cymryd camau gweithredu?</p>
	<p>A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau sydd wedi'u bwriadu i hybu a sicrhau uniondeb a phriodoldeb o ran cynnal ei fusnes?</p>



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.